



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

bacp

British Association for  
**Counselling & Psychotherapy**



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government


# Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela Mewn Ysgolion

## School-based Counselling Operating Toolkit



Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela Mewn Ysgolion  
School-based Counselling Operating Toolkit

# Cynnwys



Rhagair	1
Rhan 1: Canllawiau a Safonau	
1 Cyflwyniad	3
2 Rhesymeg	5
3 Sefydlu Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgol	7
4 Gweithio oddi mewn i Fframwaith Moesegol a Gweithdrefnau Cwyno	8
5 Adnoddau	11
6 Rôl yr ysgol a'r unigolyn cyswllt	12
7 Rôl y Cwnselydd	13
8 Perthynas â'r Ysgol – Atebolrwydd	14
9 Cymwysterau a Phrofiad	15
10 Cynnwys Rhieni a Gofalwyr	17
11 Mynediad at Gwnsela	19
12 Diogelu/Amddiffyn Plant	22
13 Cyfrinachedd	23
14 Amrywiaeth ac Anghenion Dysgu Ychwanegol	24
15 Cadw Cofnodion	26
16 Rhannu Gwybodaeth	27
17 Trefniadau Monitro, Gwerthuso ac Adolygu	28
18 Goruchwyliaeth	30

## Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela Mewn Ysgolion

### Rhan 2: Deunyddiau Enghreifftiol

i.	<b>Y Gwasanaeth Cwnsela i Bobl Ifanc: Safonau Ansawdd – Pen-y-bont ar Ogwr</b>	31
ii.	<b>Rhestr wirio ar gyfer sefydlu gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol</b>	37
	<b>Rhestr Wirio Amgen i Ysgolion cyn cynnig Cwnsela</b>	38
iii.	<b>Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person Enghreifftiol</b>	
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr Disgrifiad Swydd	39
	(RhCT) Eye to Eye – Gwasanaeth Cwnsela Ieuentid Disgrifiad Swydd	41
	Cyngor Sir Benfro Disgrifiad Swydd	43
	Castell-Nedd Port Talbot Disgrifiad Swydd	45
	Castell-Nedd Port Talbot Manyleb y Person	47
iv.	<b>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</b>	
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr	49
	Gwasanaethau Ieuentid Sir Fynwy/Ysgol Gyfun Caldicot	56
v.	<b>Y mathau o broblemau a gyflwynir gan bobl ifanc mewn sesiwn gwrsela</b>	57
vi.	<b>Materion y dylai staff fod yn ymwybodol ohonynt wrth ystyried atgyfeirio disgybl i dderbyn cwnsela</b>	59
vii.	<b>Taflenni Gwybodaeth Enghreifftiol</b>	
	Plant a phobl ifanc	61
	Rhieni a Gofalwyr	64
	Staff yr Ysgol	67
viii.	<b>Cais Cyfrinachol Cwnselydd Ysgol am Wasanaeth</b>	69
ix.	<b>Asesu Risg – Prosiect Cwnsela Ieuentid</b>	72
x.	<b>Cofnod o Wasanaethau Cwnsela a Ddarparwyd</b>	75
xi.	<b>Y Broses Gyfeirio</b>	
	Sir Benfro	76
	Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Ddinbych	77
xii.	<b>Atgyfeiriad cwnsela newydd</b>	79
xiii.	<b>Cofnod Cleientiaid</b>	80
xiv.	<b>Cofnod Cleient</b>	81
xv.	<b>Holiadur Gwerthuso ar ôl Cwnsela</b>	83
xvi.	<b>Holiadur</b>	
	Staff Ysgol	85
	Pobl Ifanc	86

Byddardod a Chwrsela mewn Ysgolion	87
Plant sy'n Colli Addysg ac yn Cyrchu Gwasanaethau Cwrsela	92
Strategaeth Cwrsela mewn Ysgolion	97
Therapyddion Celf a Chwrsela mewn Ysgolion	108



# Rhagair

# Rhagair

Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob disgybl ysgol yng Nghymru fynediad at wasanaethau cwnsela gan roi sicrwydd iddynt y bydd rhywun yn gwrandao ar eu hanghenion ac yn ymdrin â nhw. Bydd cwnsela mewn ysgolion yn cyflenwi'r ystod o ymagweddau sydd eisoes ar gael mewn ysgolion sy'n helpu i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion ac sy'n arwain at ddiwylliant ysgol iach.

Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn adeiladu ar y Strategaeth ac yn cynnwys safonau a chanllawiau i gwrselwyr a gwasanaethau cwnsela yng Nghymru fel bo modd i ddarparwyr cwnsela ac ysgolion ddarparu gwasanaethau o safon uchel sy'n ddiogel ac yn hygyrch. Mae'r Pecyn hefyd yn cynnwys cyngor ynglŷn â sut i ymgynghori â disgyblion a holi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir yn rhan o'r gwaith monitro cyffredinol. Bydd hyn yn fodd i sicrhau bod gwasanaethau'n hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth gynllunio a darparu, ac yn parchu eu hawliau, fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ceir hefyd ddeunydd enghreifftiol gan amryw o ddarparwyr er mwyn helpu ysgolion sydd ond megis dechrau datblygu'r gwasanaeth.

Mae'n bleser cael cyflwyno'r Pecyn Cymorth hwn i chi, sy'n gyhoeddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP). Bydd y ddogfen yn cynorthwyo i weithredu'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion, a hyderwn y bydd yn ddefnyddiol wrth i chi ddatblygu'r ddarpariaeth hon.



Jane Hutt AC

Y Gweinidog dros Blant, Addysg,  
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt".



Edwina Hart MBE AC

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol

A handwritten signature in black ink that reads "Edwina Hart".





# Rhan 1

# 1. Cyflwyniad

Bydd y ddogfen hon yn darparu pecyn cymorth ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cwnsela yng nghymuned yr ysgol. Yn hytrach na dogfen derfynol, dogfen yw hon a fydd yn datblygu ochr yn ochr â datblygiad gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc mewn ysgolion.

Mae'r ddogfen hefyd yn ategu'r Canllaw Arfer Da ar gyfer Cwnsela Mewn Ysgolion – 4ydd Argraffiad, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP), ac sydd wedi'i gynnwys yn y Pecyn Cymorth.

Mae'r Pecyn Cymorth yn manteisio ar brofiad cydweithwyr ledled Cymru, Gogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban lle mae cwnsela wedi cael ei ymgorffori'n elfen brif ffrwd o ddarpariaeth ysgolion. Mae arnom ddyled i gydweithwyr sydd wedi arloesi ym maes cwnsela mewn ysgolion, sy'n un o'r ystod o wasanaethau sy'n helpu i gefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol ac iechyd plant a phobl ifanc.

Mae'r cydweithwyr canlynol yn enwedig wedi defnyddio'u gwybodaeth a'u harbenigedd i greu'r Pecyn Cymorth hwn:

Nikki Browne	Sir Fynwy
Karen Cromarty	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
Emma Dalglish	Pen-y-bont ar Ogwr
Michael Duke	Sir Ddinbych
Lyn Herde	Sir Benfro
Sylvia Jones	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Claire Leahy	Caerdydd
Ann-Marie Lloyd	Merthyr Tudful
Andre Mundy	Castell - nedd Port Talbot

Alison Theaker	Rhondda Cynon Taf
Janine Thomas	Tor-faen

Diolch i Cathy Bell, Cydlynnydd Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion Annibynnol Gogledd Iwerddon, am rannu ei harbenigedd a chaniatáu i'r grŵp gynnwys gwybodaeth o'r Northern Ireland Operational Handbook ar gyfer ysgolion ôl-gynradd. Diolch hefyd i'r holl gydweithwyr, yn enwedig plant a phobl ifanc ledled Cymru gan gynnwys Uwch-gyngor y Ddraig Ffyni sydd wedi cyfrannu at lunio'r pecyn cymorth hwn.

Mae'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r dogfennau a ganlyn yn sail i'r wybodaeth a'r arweiniad a geir yn y Pecyn Cymorth hwn.

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Bwys i Bawb 2001
- Deddf Addysg 2002
- Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru 2002
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002
- Deddf Plant 2004
- Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau 2004
- YWlad sy'n Dysgu a'r Wlad sy'n Dysgu II: Gweledigaeth ar Waith

- Llwybrau Dysgu 14-19
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
- Y Cyfnod Sylfaen i blant 3-7 oed
- Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol
- Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru
- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru 2005
- Strategaeth Datblygu'r Gweithlu Pobl Ifanc
- Adnoddau Cynradd ac Uwchradd SEAL
- Nawdd Rhagori a grwpiau meithrin
- Strategaeth Gwaith Ieuencid
- Nid yw Plant yn Cwyno
- Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb a Chynllun Gweithredu
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Leihau Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru 2008-2013
- Datblygu gwasanaeth nyrs teulu i Gymru Medi 2008
- Canllaw i'r model newydd ar gyfer darparu Gwasanaethau Eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru
- Meddwl yn Gadarnhaol 2009.

## 2. Rhesymeg

Roedd datblygu gwasanaeth cwnsela cyffredinol mewn ysgolion i bob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru yn argymhelliad yn Adroddiad Ymchwiliad Clywch gan Gomisiynydd Plant Cymru, a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae hefyd yn un o'r camau allweddol (2.35) a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanca'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru. Mae darparu'r gwasanaeth hwn hefyd yn cyfrannu tuag at hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys yr hawl i fod yn rhydd rhag camdriniaeth, trais ac esgeulustod (Erthygl 19), felly nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod gwasanaeth cwnsela ar gael i bob disgybl ysgol. Ym mis Chwefror 2007, anfonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddrafft ymgynghori o'i strategaeth ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion er mwyn cael safbwyntiau gan ystod eang o randdeiliaid ynglŷn â sut y gellir datblygu a darparu gwasanaethau cwnsela i bobl ifanc sy'n ddiogel, yn hygyrch ac o safon uchel. Cewch weld y strategaeth derfynol ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: <http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy>

Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, comisiynwyd Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal astudiaeth ymchwil 6 mis o hyd i gwnsela mewn ysgolion. Gellir cael copi o'r adroddiad yn: [www.bacp.co.uk/research/School\\_Counselling.php](http://www.bacp.co.uk/research/School_Counselling.php)

Yn yr astudiaeth, cafwyd 10 o argymhellion ynghylch datblygu gwasanaethau cwnsela cynaliadwy o ansawdd uchel yng Nghymru, ac mae'r Cynulliad wedi'u mabwysiadu ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol.

Dyma'r argymhellion:

### Dylai gwasanaethau:

1. Fod wedi'u hariannu mewn modd cynaliadwy
2. Cyflogi cwnselwyr â chymwysterau proffesiynol a chanddynt brofiad o weithio gyda phobl ifanc, sy'n cael mynediad at oruchwyliaeth glinigol briodol gyda goruchwylwyr profiadol, ac sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol
3. Darparu gwasanaeth cwnsela hygyrch mewn lleoliad preifat priodol ond diogel o fewn cwmpas yr ysgol
4. Cael eu gweld yn rhai nad ydynt yn cael eu difrio gan gymuned yr ysgol, ac yn rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol, sydd wedi'i hintegreiddio i gymuned yr ysgol
5. Cael eu monitro a'u gwerthuso gan unigolion neu asiantaeth (y tu mewn neu'r tu allan i'r ysgol) a chanddynt brofiad o'r maes arbenigol hwn o waith

6. Rhoi sylw dyledus i ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol, a chynnig cyfrinachedd oddi mewn i'r terfynau moesegol a diogelu arferol
7. Ymateb mewn modd hyblyg i anghenion lleol o ran amrywiaeth (e.e., iaith) ac ymarferoldeb (e.e., ar gael yn ystod y gwyliau)
8. Gweithio gyda, ac ochr yn ochr â gwasanaethau ac asiantaethau eraill mewn modd colegol, gan sicrhau lefel briodol o gyfrinachedd
9. Cyflogi cwmselwyr sy'n aelodau o gorff proffesiynol a chanddynt, yn sgil hynny, fframwaith moesegol a threfn gwyno wedi'u sefydlu
10. Cyflogi cwmselwyr y mae eu rhinweddau personol yn golygu eu bod yn hawdd mynd atynt, a chanddynt sgiliau gwranddaeth da a dull sy'n hybu awyrgylch sy'n meithrin perthynas ddiogel a llawn ymddiriedaeth

Mae'r argymhellion hyn yn goleuo strwythur a chynnwys y Pecyn Cymorth.

Mae a wnelo'r Strategaeth â chwmsela ffurfiol, a phwysleisir ynddi mai dim ond un o ystod o wasanaethau ydyw sy'n helpu i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion, gan arwain at ddiwylliant ysgol iach. Ymysg yr elfennau eraill ceir rhaglenni llythrennedd emosiynol, holi safbwyntiau disgyblion drwy gynghorau ysgol a thrwy ddulliau eraill, gofal bugeiliol effeithiol, gwasanaethau nyrsys ysgol, gwasanaethau lles addysg, eiriolaeth, polisiau gwrth-fwllo a chymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Derbynnir yn eang fod ysgolion sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion hefyd yn fwy tebygol o greu amgylchedd dysgu effeithiol.

Crefft i helpu pobl ifanc a chanddynt broblemau ac anawsterau personol neu ddatblygiadol yw chwmsela. Drwy gwmsela caiff unigolion gyfle i archwilio, darganfod ac eglurhau ffyrdd o fyw mwy bodlon a dyfeisgar. Mae'n cynnig cyfle i'r unigolyn ifanc ddod yn fwy hunanymwybodol, datblygu ei adnoddau personol a'i ddealltwriaeth o'i broblemau ei hunan yn ogystal â datblygu strategaethau i ymdopi â newid.

## 3. Sefydlu Gwasanaeth Cwmsela yn yr Ysgol

Mae llwyddiant y rhan fwyaf o wasanaethau cwmsela yn yr ysgol yn dibynnu ar gael digon o gyllid, ac mae'n rhaid i'r cyllid hwnnw fod yn gynaliadwy er mwyn sicrhau canlyniadau personol, cymdeithasol, iechyd ac addysgol cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Gellir sicrhau cyllid drwy amrywiaeth o ffynonellau - mae rhai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi canfod arian ychwanegol drwy wasanaethau prif ffrwd, iechyd ac addysg, yn ogystal â thrwy grantiau penodol fel Cymorth. Gwasanaeth cyffredinol ydyw, a rhaid iddo fod yn agored i holl ddisgyblion yr ysgol gan roi sicrwydd iddynt y bydd rhywun yn gwrandao ar eu hanghenion ac yn ymdrin â nhw. Bydd hyn yn cyflenwi'r ystod o ymagweddau sydd eisoes ar gael mewn ysgolion sy'n helpu i gefnogi anghenion iechyd, emosïynol a chymdeithasol disgyblion gan arwain at ddiwylliant ysgol iach.

### **Argymhelliad:**

**Dylai gwasanaethau fod wedi'u hariannu mewn modd cynaliadwy.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £6.5 miliwn dros dair blynedd i ddatblygu cwmsela mewn ysgolion. Mae'r ffaith bod yr arian yn cynyddu'n raddol dros y tair blynedd yn adlewyrchu'r angen i roi gwasanaethau ar waith fesul cam o sylfaen gadarn, yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd angen hyfforddi mwy o gwmselwyr dros amser er mwyn bodloni'r galw.

Rhaid i'r cwmselydd fod yn ymwybodol o'r anghenion, y gofynion, y polisiau a'r arferion sy'n bodoli yn yr ysgol a bod â rhan ynddynt. Rhaid iddo hefyd fod yn aelod cefnogol o gymuned yr ysgol. Dylai'r cwmselydd hefyd gael ei ystyried yn annibynnol – mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ddelio â disgyblion sydd wedi ymddieithio o'r ysgol, a chyda rhieni a allai betruso wrth gysylltu â'r ysgol i drafod anawsterau.

Mae llwyddiant gwasanaeth cwmsela yn yr ysgol yn dibynnu ar berthynas waith dda rhwng y cwmselydd ac aelod uwch o'r staff sy'n gyfrifol am weithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth cwmsela. Trafodir rôl yr aelod hwn o staff ymhellach yn y ddogfen hon, ac i ddibenion y Pecyn Cymorth hwn, gelwir yr aelod hwnnw yn "unigolyn cyswllt". Mae'r unigolyn hwn yn debygol o fod yn gyfrifol am yr agweddau trefniadaethol wrth sefydlu'r gwasanaeth. Mewn unrhyw bartneriaeth, rhaid i rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n cymryd rhan fod yn glir a dealladwy.

## 4. Gweithio oddi mewn i Fframwaith Moesegol a Gweithdrefnau Cwyno

Disgwylir i bob cwnselydd sy'n gweithio'n rhan o Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru gydymffurfio â chod moesegol, sy'n seiliedig ar egwyddorion arweiniol.

### Egwyddorion Moesegol Cwnselwyr

Mabwysiedir yr egwyddorion canlynol gan y Strategaeth, fel ymgais i gefnogi cwnselwyr ysgol wrth wneud penderfyniadau moesegol anodd. Mae'r rhain yn fersiynau wedi'u symleiddio o'r egwyddorion moesegol (MEWN ITALIG) sydd i'w gweld yn yr Ethical Framework for Good Practice in Counselling and Psychotherapy gan Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

#### YMDDIRIEDAETH

Bydd cwnselwyr ysgol yn deall, er mwyn i'w gwaith fod yn llwyddiannus, y bydd angen i bobl ifanc nid yn unig ymddiried ynddynt hwy eu hunain fel unigolion, ond hefyd yn y gwasanaeth(au) a ddarperir ganddynt. Bydd cwnselwyr yn gweithio mewn modd sy'n annog ac yn ennyn perthynas gyfrinachol a llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc o fewn terfynau arferol y datgeliadau angenrheidiol i amddiffyn plant.

#### (FIDELITY)

##### PARCHU DYMUNIADAU POBL IFANC

Ni fydd cwnselwyr ond yn gweithio â phobl ifanc sy'n dechrau perthynas gwnsela o'u gwirfodd; nid yw'n debygol y bydd cwnsela'n llwyddiannus os yw'r unigolyn dan sylw'n cael ei "anfon" am gwnsela yn erbyn ei ewyllys. Bydd cwnselydd yr ysgol yn hysbysu'r unigolyn ifanc ynglŷn â'r gwasanaethau a gynigir ganddo mewn ieithwedd y gall ei deall ac yn sicrhau ei fod yn deall yn union beth yw cwnsela, a'r hyn y gall ei gynnig/na all ei gynnig. Bydd y

cwnselydd yn egluro bod cyfrinachedd yn rhan bwysig o'u perthynas gwnsela, ond hefyd yn cyfeirio mewn modd eglur iawn at yr adegau hynny lle na ellir gwarantu cyfrinachedd, y rhesymau am hynny, a'r hyn a allai ddigwydd pe bai angen torri'r cytundeb cyfrinachedd.

#### (AUTONOMY)

##### GWEITHIO HYD AT SAFON BROFFESIYNOL ER BUDD YR UNIGOLYN IFANC

Dylai'r cwnselydd ysgol bob amser weithio gyda phobl ifanc mewn modd proffesiynol a chymwys. Bydd yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth ddigonol, ac yn monitro'i waith yn barhaus er mwyn i'w gleientiaid ifanc dderbyn y ddarpariaeth gwnsela orau bosibl. Bydd y cwnselydd ysgol yn rhoi sylw neilltuol i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfateb ag anghenion datblygiadol ei grŵp o gleientiaid ifanc.

#### (BENEFICIENCE)

##### OSGOI NIWED I BOBL IFANC

Bydd y cwnselydd ysgol yn ymdrechu bob amser i weithio i sicrhau na fydd ei wasanaethau cwnsela'n achosi unrhyw niwed corfforol nac emosïynol i bobl ifanc, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau ei fod yn gymwys i ymarfer mewn ysgolion; er enghraifft o ran ei iechyd a'i amgylchiadau personol. Bydd angen i'r cwnselydd fod â dealltwriaeth glir o systemau'r ysgol ac amgylchedd yr ysgol, a bod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau posibl rhwng cleientiaid ac

eraill (er enghraifft, staff yr ysgol a rhieni). Bydd angen i gwmselydd yr ysgol fod yn ymwybodol, ac ystyried y goblygiadau i'r bobl ifanc dan sylw, o unrhyw gyfathrebu ag eraill.

(NON-MALIFICENCE)

#### TEGWCH

Bydd cwmselwyr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod eu gwaith â phobl ifanc (gan gynnwys pobl ifanc a allai ddod yn gleientiaid yn y dyfodol) yn deg a bod pobl ifanc yn cael eu trin â pharch. Bydd angen i gwmselwyr ystyried eu cyfrifoldebau yn ôl y gyfraith, ochr yn ochr ag ystyriaethau moesegol a rhwymedigaethau contract. Dylai gwasanaethau cwmsela mewn ysgolion fod yn hygyrch i bawb a darparu ar gyfer natur amrywiol poblogaeth yr ysgol. Bydd angen rheoli ceisiadau am wasanaeth cwmsela, o ran nifer yr atgyfeiriadau a'r rhestrau aros, fel bo modd rhoi gofynion sy'n gwrthdaro â'i gilydd yn nhrefn blaenoriaeth mewn dull teg a chyfiawn.

(JUSTICE)

#### HUNAN-BARCH PERSONOLA PHROFFESYNOL

Mae gan gwmselwyr ysgol gyfrifoldeb personol i sicrhau eu bod yn gweithio mewn modd moesegol a chymwys, a bod ganddynt y sgiliau proffesiynol i gyflawni'u rôl yn amgylchedd yr ysgol. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod eu hyfforddiant cychwynnol,

yr oruchwyliaeth barhaus drostynt, eu datblygiad proffesiynol parhaus a'u gallu i'w rheoli'u hunain (oddi mewn ac oddi allan i'r ysgol) yn briodol i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl i bobl ifanc.

(SELF RESPECT)

#### Cwynion

Rhaid cael gweithdrefn gwyno ysgrifenedig sy'n galluogi rhywun i gwyno ynglŷn â'r Gwasanaethau. Bydd y weithdrefn yn un syml, wedi'i hysbysebu'n dda, ac yn nodi sut i'w dilyn. Rhaid i'r weithdrefn fod yn addas i blant ac yn hawdd ei deall. Bydd yr holl gwynion fel arfer yn cael eu bwydo i weithdrefn gwyno'r ysgol, er y gallai cwyn benodol ynglŷn â'r gwasanaeth fynd yn syth drwy weithdrefn gwyno'r Awdurdod Lleol neu'r Darparydd. Mae gan bob Awdurdod Lleol Swyddfa Cwynion gan Blant, a dylai manylion y swyddfa honno fod ar y daflen gwyno.

Os bydd Gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan yr awdurdod lleol, bydd gan y darparydd gwasanaeth weithdrefn gwyno ysgrifenedig sy'n dderbyniol gan yr awdurdod lleol.

#### **Argymhelliad:**

Dylai gwasanaethau gyflogi cwmselwyr sy'n aelodau o gorff proffesiynol a chanddynt, yn sgil hynny, fframwaith moesegol a gweithdrefn gwyno wedi'u sefydlu.



Cynghorir Awdurdodau Lleol ac Ysgolion i sicrhau bod cwnselwyr wedi cwblhau digon o oriau o hyfforddiant yn rhan o'u hyfforddiant cwnsela. Mae cyrsiau achrededig y BACP yn cynnwys lleiafswm o 450 o oriau addysgu yn ogystal â lleiafswm o 100 o oriau o ymarfer cwnsela dan oruchwyliaeth. Dylai cwnselwyr ysgol felly fod yn aelodau o'r BACP neu gymdeithas gyfatebol a gweithio tuag at achrediad y BACP. Wrth recriwtio cwnselwyr i swyddi newydd, cynghorir cyflogwyr yn gryf i sicrhau bod ymgeiswyr yn aelodau o gymdeithas fel y BACP a chanddi weithdrefn gwyno effeithiol a gydnabyddir ar raddfa genedlaethol.

### Rhinweddau personol

Bydd angen i gwrselwyr mewn ysgolion fod yn frwd dros weithio â phlant a phobl ifanc. Bydd ganddynt sgiliau cyfathrebu a gwranddo rhagorol. Bydd disgwyl iddynt fod yn amyneddgar, yn oddefgar ac yn sensitif, a bod ag agwedd aeddfed ac anfeiriadol. Bydd gan gwrselwyr ddealltwriaeth o'r prif faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc heddiw. Bydd ganddynt hefyd y gallu i gysylltu ag asiantaethau ac unigolion eraill, fel bo'r angen, er mwyn helpu i greu newid cadarnhaol mewn pobl ifanc.

### Argymhelliad:

Dylai gwasanaethau gyflogi cwnselwyr y mae eu rhinweddau personol yn golygu eu bod yn hawdd mynd atynt, a chanddynt sgiliau gwranddo da a dull sy'n hybu awyrgylch sy'n meithrin perthynas ddiogel a llawn ymddiriedaeth.

Mae rhinweddau moesegol personol y cwnselydd o'r pwys mwyaf i'r cleientiaid y mae'n gweithio â nhw. Mae'n amhriodol rhagnodi bod pob cwnselydd yn meddu ar y rhinweddau hyn, ond mae'n hanfodol bod rhinweddau o'r fath wedi'u hymwreiddio yn ymrwymiad personol yr ymarferwr, ac mae'r rhinweddau moesegol personol canlynol wedi'u cynnwys yn fframwaith moesegol y BACP: Empathi; Diffuantrwydd; Hygrededd; Cadernid; Parch; Gostyngeiddrwydd; Cymhwysedd; Tegwch; Doethineb; Dewrder.

## 5. Adnoddau

Disgwylir i'r ysgol ddarparu adnoddau priodol i'r cwnselydd.

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys:

- Ystafell briodol sy'n ddiogel, yn breifat ac yn hygyrch i bob disgybl, sydd ar gael ar amserau y cytunwyd arnynt, ac sy'n gydnaws â pholisïau lechyd a Diogelwch yn y Gwaith;
- Cwprdd diogel wedi'i gloi etc, er mwyn i'r cwnselydd allu cadw cofnodion;
- Desg i'w defnyddio a mynediad at ffôn gyfrinachol;
- Llyfr(au) atgyfeirio/apwyntiad/cais am wasanaeth i'w cadw gan y cwnselydd a'r aelod mwyaf priodol o staff (yr unigolyn cyswllt o bosib, neu aelod arall o staff a chanddo gyfrifoldeb bugeiliol). Y cwnselydd fydd yn trefnu'r apwyntiadau, ac fe'u newidir ar ei gyfarwyddyd ef yn unig, ar y cyd â'r cleient ifanc os oes modd.

### **Argymhelliad:**

Dylai gwasanaethau ddarparu gwasanaeth cwnsela hygyrch mewn lleoliad preifat priodol ond diogel o fewn cwmpas yr ysgol.

Gweithgarwch preifat yw cwnsela yn ei hanfod, a dylai cyfarfodydd rhwng y cwnselydd a'r cleient gael eu cynnal mewn ystafell un pwrpas, gyfforddus sydd wedi'i hynysu rhag sain, y gall pobl ifanc fynd iddi'n dawel bach. Fodd bynnag, rhaid ystyried diogelwch cwnselwyr wrth iddynt weithio â phobl ifanc, ac mae'n bwysig cynllunio i sicrhau diogelwch y gweithiwr.

## 6. Rôl yr ysgol a'r unigolyn cyswllt

Mae gan ysgolion ran hanfodol yn y gwaith o greu plant a phobl ifanc sy'n emosiynol ddeallus.

Dengys tystiolaeth y gall gwasanaeth cwnsela sy'n rhoi cefnogaeth oddi mewn i strategaeth gyffredinol yr ysgol fod yn hynod effeithiol i hyrwyddo lles pobl ifanc, gan gefnogi'u dysg a'u cyrhaeddiad yn ogystal â lliniaru problemau iechyd meddwl a'u hatal rhag gwaethygu. Gall cwnsela mewn ysgolion helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau sy'n ei gwneud hi'n haws iddynt reoli newidiadau personol. Mae cwnselwyr sy'n rhan o ymagwedd ysgol gyfan i sicrhau iechyd a lles emosiynol mewn sefyllfa unigryw i sylwi'n fuan ar blant sydd mewn perygl, mewn angen, sy'n agored i niwed, neu a chanddynt risgiau iechyd meddwl difrifol yn ifanc.

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i:

- drin y Cwnselydd fel unrhyw weithiwr proffesiynol arall;
- hysbysu'r Cwnselydd Ysgol ynghylch unrhyw ddigwyddiadau o bwys (yn yr ysgol neu yn y gymuned) a allai effeithio ar ddisgyblion (fel unigolion neu grwpiau);
- sicrhau bod yr unigolyn cyswllt ar gael i gwrdd â'r Cwnselydd yn rheolaidd ar amserau y cytunwyd arnynt;
- bod yn eglur ynglŷn â'r broses atebolrwydd adrodd e.e. os yw'r unigolion cyswllt yn gyfrifol am atgyfeiriadau.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw gweithio gyda'r cwnselydd i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gwasanaeth cwnsela ymysg disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr.

Bydd pob ysgol wedi pennu unigolyn cyswllt i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaeth cwnsela yr ysgol a bod yn gyfrifol amdano. Gallai'r unigolyn hwn fod yn Athro Dynodedig Amddiffyn Plant (ADAP) neu beidio. Os nad yr ADAP yw'r unigolyn cyswllt, rhaid i'r cwnselydd sicrhau ei fod yn cysylltu'n uniongyrchol â'r ADAP i roi gwybod iddo am faterion amddiffyn plant.

Bydd yr unigolyn cyswllt yn cysylltu â'r cwnselydd i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â lles disgyblion sy'n derbyn cwnsela ar y pryd, unrhyw faterion amddiffyn plant perthnasol, apwyntiadau, atgyfeiriadau a rhestrau aros disgyblion ysgol.

Bydd y cwnselydd yn atgyfeirio ac yn hysbysu'r ADAP am unrhyw ddatgeliadau o hunan-niwed sylweddol honedig neu niwed o'r fath i eraill ac yn gweithio gyda'r ADAP i drosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbynnir i'r asiantaethau priodol a chanddynt ddyletswydd a phwerau statudol i ymchwilio ac ymyrryd lle bo angen.

Bydd yr unigolyn cyswllt yn darparu gwybodaeth, ac yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gwasanaeth cwnsela ymysg disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr ac asiantaethau allanol, lle bo'n briodol. Dylai'r cwnselydd gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd aml-asiantaeth â'r ysgol ynglŷn â phlant a phobl ifanc unigol. Dylai'r ysgol hefyd sicrhau cysylltiadau clir â chyfarfodydd bugeiliol a dangos sut mae cwnsela yn yr ysgol yn gydnaws â'r ymagwedd ysgol gyfan i sicrhau iechyd a lles emosiynol.

## 7. Rôl y Cwnselydd

Gall y cwnselydd alluogi'r unigolyn ifanc i ganolbwyntio ar ei bryderon, gan roi cyfrwng iddo archwilio problemau penodol, gwneud dewisiadau, ymdopi ag argyfwng, gweithio drwy deimladau gwrthdrawiadol a gwella'i berthynas ag eraill.

Gall y cwnselydd gynnig amgylchedd diogel a chefnogol i unigolyn ifanc gael trafod materion anodd yn gyfrinachol, a bydd yn gwrandao ar safbwyntiau, profiadau a theimladau'r unigolyn ifanc heb ei feimiadu, mewn awyrgylch o barch ac empathi sy'n seiliedig ar berthynas waith ddiogel a llawn ymddiriedaeth.

Rôl y cwnselydd yw:

- Darparu gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol yn ddisgyblion cyfredol;
- Trefnu a gweinyddu'r gwasanaeth cwnsela ar y cyd â staff yr ysgol;
- Cyfathrebu a chysylltu â staff yr ysgol, er budd yr unigolyn ifanc, gan gadw oddi mewn i derfynau cyfrinachedd y cleient;
- Annog teulu'r unigolyn ifanc i ymgysylltu lle bo hynny'n briodol a buddiol;
- Cysylltu â staff er mwyn atgyfeirio achosion i asiantaethau eraill a derbyn achosion wedi'u hatgyfeirio gan yr asiantaethau hynny;
- Gweithredu fel adnodd i staff ysgolion drwy roi cipolwg ar fyd cwnsela a hyrwyddo'r gwasanaeth lle bo modd;
- Cadw cofnodion manwl gywir o sesiynau cwnsela a llunio adroddiadau fel bo'r angen;
- Cynnal a datblygu arfer broffesiynol drwy reolaeth gyson a pharhaus a goruchwyliaeth a hyfforddiant clinigol, a thrwy gymryd rhan mewn gwerthusiadau ac archwiliadau o'r gwasanaeth;
- Cwnsela'n unol â'r Ethical Framework for Good Practice in Counselling & Psychotherapy, a gyhoeddwyd gan y BACP, ac a fabwysiadwyd gan y prosiect hwn, fel aelod prosiect o'r sefydliad.

## 8. Perthynas â'r Ysgol – Atebolrwydd

Mae Cwnselydd yr Ysgol yn gweithio'n unol â phrotocol y cytunwyd arno â'r ysgol a'r asiantaeth sy'n rheoli'r gwasanaeth (yr awdurdod lleol o bosib neu sefydliad o'r sector gwirfoddol).

Mae'r Cwnselydd yn y pen draw'n atebol i'r unigolyn ifanc a hefyd yn atebol i'r ysgol, ac yn benodol i'r unigolyn cyswllt a ddynodwyd yn yr ysgol. Bydd yr unigolyn cyswllt yn bendant yn aelod o'r uwch dîm rheoliac o bosib, ond nid o reidrwydd, yn Bennaeth yr ysgol.

Bydd yn rhaid i bob ysgolystyried eu hamgylchiadau unigryw nhw, e.e. pryd fydd yr unigolyn cyswllt ar gael i gyfarfod â'r Cwnselydd, ac er y bydd hyn yn dibynnu ar amser sy'n gweddu, mae'n debygol y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal bob dydd y bydd y Cwnselydd yn yr ysgol.

Rhaid sefydlu mecanwaith i sicrhau yr hysbysir rheolwr llinell y cwnselydd, yr ysgol a'r bobl ifanc sydd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw os bydd cwnselydd yn sâl.

### **Argymhelliad:**

Dylai gwasanaethau gael eu gweld yn rhai nad ydynt yn cael eu difrio gan gymuned yr ysgol, ac yn rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol, sydd wedi'i hintegreiddio i gymuned yr ysgol.

Dengys tystiolaeth fod ysgolion yn cyflwyno sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r modd y mae cwnsela'n cefnogi disgyblion yn emosiynol ac academaidd. Mae'r cynlluniau amrywiol mewn ysgolion sy'n cefnogi lles emosiynol disgyblion, fel cefnogaeth gan gyfoedion, grwpiau meithrin a rhaglenni ChildLine oll yn cyfrannu tuag at ddiwylliant ysgol iach. Gall cwnsela hefyd greu amgylchedd cadarnhaol i gynnal strategaethau dysgu. Gall cwnselwyr hefyd gyfrannu tuag at ofal bugeiliol pobl ifanc drwy fynd i'r afael â'u hanghenion emosiynol.

## 9. Cymwysterau a Phrofiad

Dylai pob cwnselydd sy'n gweithio mewn ysgol feddu ar gymhwyster ffurfiol cydnabyddedig mewn cwnsela, fel Diploma neu Radd mewn Cwnsela, yn ogystal ag ystod o brofiad a hyfforddiant priodol ar weithio gyda phlant a phobl ifanc, a bydd ganddo ddealltwriaeth o ddatblygiad plant.

Gweler, er enghraifft

<http://www.bacp.co.uk/research>

Cynhelir gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol ar bob cwnselydd (lefel fanylach), a rhaid iddo fod wedi'i gofrestru â'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) o fis Hydref 2009. Ffurfiwyd yr ISA o ganlyniad i argymhelliad yn Neddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006, i fyndi'r rafaélâmethiannausystematig a ganfuwyd yn adroddiad Bichard i lofruddiaethau Soham. Roedd argymhelliad 19 yn Adroddiad Bichard yn cydnabod yr angen am asiantaeth unigol i fetio'r holl unigolion sydd am weithio neu wirfoddoli gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed. Fesul cam bydd angen i gyflogwyr, cyrff statudol a sefydliadau o'r sector gwirfoddol sicrhau bod gweithwyr newydd a phresennol yn cael eu hasesu gan yr ISA yn rhan o'u gweithdrefnau recriwtio. Dylid ystyried hyn yn ychwanegiad at brosesau diogelu presennol. Ni fydd cyflogwyr na grwpiau gwirfoddol sy'n gweithio â phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed ond yn gallu recriwtio pobl sydd wedi'u cofrestru â'r ISA. Gallai peidio gwneud hynny arwain at ddirwy neu ddedfryd o garchar.

Anogir yr holl gwmselwyr i weithio tuag at gael eu hachredu fel unigolyn â Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) (neu gymdeithas gyfatebol) lle bo modd.

### Argymhelliad:

Dylai gwasanaethau gyflogi cwnselwyr â chymwysterau proffesiynol a chanddynt brofiad o weithio gyda phobl ifanc, sy'n cael eu goruchwyllo'n briodol yn glinigol gan oruchwylwyr profiadol, ac sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.

Dylai hyfforddiant fod yn sail i bersonoliaeth a sgiliau naturiol y cwnselydd. O ystyried natur fregus y grŵp o gleientiaid mewn ysgolion, mae'n hanfodol bod cwnselwyr wedi'u cymhwyso ac yn gallu dangos lefel uchel o sgiliau ymarfer wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylent feddu ar achrediad y BACP neu gyfatebol, neu fod yn gweithio tuag at achrediad o'r fath.

### Ymsefydlu

Rhaid i drefniadau ymsefydlu fod yn eu lle'n unol â'r trefniadau ymsefydlu arferol, er mwyn sicrhau bod y Cwnselydd yn deall strwythurau, polisiau, gweithdrefnau a phrosesau' rysgoly mae'n gweithio ynddi. Dylai trefniadau ymsefydlu gynnwys:

- Cyflwyniad i'r staff a'r strwythurau staff;
- Cyflwyniad i'r Llywodraethwyr;
- Llawlyfr Staff;

- Ethos a diwylliant;
- Polisiâu, cynlluniau a gweithdrefnau;
- Prosesau gofal bugeiliol;
- Trefniadau Amddiffyn Plant;
- Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Nodweddion trefniadaethol;
- Dyddiadau'r tymor;
- Dyddiau hyfforddi staff.

### Cwnselwyr dan Hyfforddiant

Mae disgwyl i gwnselwyr sy'n gweithio mewn ysgolion feddu ar gymhwyster cydnabyddedig (gweler uchod). Serch hynny rydym yn cydnabod y gallai fod cyfle i gefnogi hyfforddiant mewn swydd drwy gyrsiau rhan amser sy'n arwain at ddyfarniadau. Byddai hyn yn fodd i ehangu'r gwasanaeth drwy gefnogi cwnselydd dan hyfforddiant o fewn tîm o staff profiadol.

Dylai pob cwnselydd ysgol, gan gynnwys cwnselwyr dan hyfforddiant, p'un a ydynt wedi cymhwyso neu'n cael eu hyfforddi, fod yn gweithio oddi mewn i fframwaith moesegol cydnabyddedig fel fframwaith y BACP.

## 10. Cynnwys Rhieni a Gofalwyr

Rhaid cynnwys rhieni/gofalwyr o'r cychwyn cyntaf wrth gyflwyno'r gwasanaeth.

Gellir gwneud hyn mewn modd eithaf agored a didwyll. Er enghraifft:

- Hysbysu rhieni/gofalwyr ar ddechrau pob blwyddyn ysgol bod y gwasanaeth yn bodoli yn eu hysgol drwy brosbectws ac/neu ar wefan yr ysgol, neu anfon llythyr at rieni;
- Cynnwys rhieni/gofalwyr wrth gylchredeg unrhyw gyhoedduswydd ynglŷn â'r gwasanaeth. Er enghraifft bydd rhai ysgolion yn cyfeirio'n benodol at y gwasanaeth cwnsela ym mhob cylchlythyr;
- Bod gwybodaeth am gwnsela ar gael yn amlwg yng nghyntedd/llyfrgell yr ysgol;
- Bod aelodau o dîm cwnsela'r ysgol yn mynychu nosweithiau agored, nosweithiau rhieni ac ati i ateb cwestiynau y gallai rhieni/gofalwyr fod am eu holi a rhoi presenoldeb gweledol i'r cwnselydd. Bydd hynny'n fodd i gael gwared â'r dirgelwch sydd fel arfer yn gysylltiedig â dull o ymyrryd sy'n gadael y rhai nad ydynt yn cymryd rhan uniongyrchol ynddo yn teimlo fel pe baent wedi'u heithrio o fywyd eu plentyn.

Cwestiwn sy'n codi'n gyson, ac a all greu nifer o ddilemâu moesegol yw hawl rhieni i wybod bod eu mab/merch yn derbyn gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol.

Cydnabyddir y gall gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr fod o fudd i'r berthynas gwnsela. Serch hynny, mae angen datgan polisi clir o ymrwymiad i sicrhau cyfrinachedd wrth gwnsela, sy'n pennu terfynau swyddogol ar gyfer cynnwys rhieni, wedi'u seilio'n gadarn ar ffactorau moesegol a chyfreithiol.

Mae gan yr unigolyn ifanc hawl i dderbyn cwnsela heb ganiatâd ei rieni neu yn erbyn dymuniadau ei rieni os ystyrir ei fod yn bodloni cymhwysedd Gillick.

### Canllawiau Fraser

Yng Nghanllawiau Fraser, nodir y meini prawf y dylid eu bodloni cyn i ymarferwyr ddarparu gwasanaeth i rai dan 16 oed heb ganiatâd eu rhieni - yn aml gelwir y broses o asesu pobl ifanc yn erbyn y canllawiau hyn yn 'asesu a yw'r unigolyn ifanc yn bodloni cymhwysedd Gillick'.

Caiff pobl ifanc iau nag 16 oed gydsynio i driniaeth feddygol os ydynt yn ddigon aeddfed a deallus i allu deall yr hyn a gynigir yn llwyr. Diffiniwyd hyn yng Nghymru a Lloegr gan Dŷ'r Arglwyddi yn achos Gillick vs West Norfolk a Wisbech AHA a DHSS ym 1985.

Roedd y dyfarniad yn Nhŷ'r Arglwyddi'n cyfeirio'n benodol at feddygon, ond ystyrir ei fod yn



berthnasol i weithwyr iechyd proffesiynol eraill, gan gynnwys nyrsys. Gellir hefyd ei ddehongli i gynnwys cwrselwyr, gweithwyr ieuencid, gweithwyr hybu iechyd ac eraill.

Am fwy o wybodaeth, gwelery sefyllfa gyfreithiol ar wefan Brook yn [http://www.brook.org.uk/content/M5\\_3](http://www.brook.org.uk/content/M5_3)

(Cyf: Butler- Sloss- E 1998 Report of the Inquiry into Child Abuse in Cleveland 1987. CM 412 London HMSO)

Cyfrifoldeb y cwrselydd yw cyfleu'n glira rheolaidd i'r disgyblion yn union beth mae hyn yn ei olygu o safbwynt ymarferol.

Mae gan bobl ifanc iau na 16 gymaint o hawl i gyfrinachedd ag unrhyw berson arall. Os dyfernir nad yw unigolyn iau na 16 yn ddigon aeddfed i gydsynio, gall yr ymgynghoriad ei hun barhau'n gyfrinachol.

## 11. Mynediad at Gwnsela

Gweler Rhan 2(v) am y mathau o broblemau cyflwyno sy'n briodol i'r gwasanaeth cwnsela.

Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n dymuno gwneud cais am gwnsela drafod hyn â'r unigolyn ifanc dan sylw i ddechrau. Mae hawl plant a phobl ifanc i gyfranogi i'w gweld yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yn ôl yr erthygl:

"Rhaid i randdeiliaid sicrhau'r plentyn sy'n gallu ffurfio'i farn ei hun bod ganddo hawl i fynegi'r farn honno ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, gan roi pwys dyledus i farn y plentyn yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn".

Mae hyn wedi'i grynhofio gan UNICEF:

"Mae gennych hawl i ddweud yr hyn yrydych chi'n meddwl a ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio amoch chi, ac i eraill ystyried eich safbwyntiau".

Ar ôl siarad â'r unigolyn ifanc, gall staff ei annog i hunanatgyfeirio, neu gyda chaniatâd yr unigolyn ifanc geisio trefnu apwyntiad. Drwy'r ymagwedd hon gwerthfawrogir yr unigolyn ifanc a pherchir ei hawl i gael gwybodaeth a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno. Mae'n bwysig nodi nad yw cwnsela'n orfodol, ac fe gaiff unigolyn ifanc ddewis peidio derbyn neu barhau i dderbyn gwasanaeth cwnsela.

Gall unrhyw randdeiliaid wneud cais i bobl ifanc dderbyn gwasanaeth cwnsela, gan gynnwys y bobl ifanc eu hunain, rhieni, athrawon ac eraill. Dylid cysylltu a thrafod yn anffurfiol cyn gwneud cais ffurfiol am gwnsela.

Mae gan yr unigolyn ifanc "hawl i dderbyn gwasanaeth cwnsela heb ganiatâd ei rieni neu'n groes i ddymuniadau ei rieni/gofalwyr, os ystyrir ei fod yn bodloni cymhwysedd Gillick. (gweler uchod)

Os yw plentyn / unigolyn ifanc yn gwneud cais am gwnsela, gall yr ysgol a'r Gwasanaeth Cwnsela, gyda'i gilydd, asesu a yw'n bodloni cymhwysedd Gillick. Os tybir mai dyna yw'r sefyllfa, gall dderbyn gwasanaeth cwnsela'n ddarwybod i'w rieni, a heb ganiatâd ei rieni.

Felly mae angen cynnal asesiad o Gymhwysedd Gillick gan ystyried:

- Aeddfedrwydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc;
- Deallusrwydd a dealltwriaeth ddigonol i'w alluogi i ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig, h.y. cwnsela;
- Deallusrwydd a dealltwriaeth ddigonol o oblygiadau unrhyw weithred ar ei ran;
- Yr hyn a fyddai'n digwydd o ran ei iechyd meddwl pe na bai'n cael cymorth.

Mae arfer da'n cynnwys partneriaeth â rhieni, a byddai'n bwysig i'r ysgol archwilio sut y byddai modd cefnogi'r disgybl er mwyn iddo allu hysbysu ei rieni os yw hynny'n briodol ac yn unol â'r hyn y mae'r person ifanc yn ei ddymuno.

Os ystyrir bod y disgybl yn bodloni cymhwysedd Gillick, y Gwasanaeth Cwnsela sydd i benderfynu a yw cwnsela'n ddarpariaeth briodol i'w chynnig.

Er mwyn i'r disgybl fod yn gymwys i dderbyn gwasanaeth cwnsela, rhaid iddo ddeall natur cwnsela a gallu ymrwymo i gytundeb cwnsela dilys ar lafar, gan gynnwys y gallu i ddeall egwyddor cyfrinachedd, a'r angen i beidio â dilyn yr egwyddor honno os honnir bod yr unigolyn ifanc mewn perygl o'i niweidio i hun neu rywun arall.

Bydd ceisiadau arferol yn cael eu bwydo i'r system apwyntiadau, a bydd yr unigolyn yn cael ei weld ar y cyfle cyntaf. Bydd achosion brys yn cael eu gweld yn yr apwyntiad nesaf sydd wedi'i ganslo, yr apwyntiad nesaf rhydd, neu mewn amgylchiadau eithriadol ar ddiwrnod gwaith nesaf y cwnselydd, yn amodol ar drafodaeth rhwng y cwnselydd a'r unigolyn cyswllt.

Ar y cais am wasanaeth, efallai y byddai angen i'r unigolyn ifanc neu'r unigolyn cyswllt nodi'u canfyddiad ynghylch pa mor argyfyngus yw'r sefyllfa neu lefel y risg. Mae ffurflen nodi graddfa'n ddefnyddiol (gweler Rhan 2 (viii)). Os bydd unigolyn ifanc wedi cael ei weld yn y gorffennol, neu'n gweithio ag unrhyw asiantaethau eraill megis CAMHS, y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad ar y pryd, mae'n hanfodol i'r cwnselydd gael gwybod am hynny, ynghyd â lefel gyfredol y rymwneud hwnnw. Cyfrifoldeb yr unigolyn cyswllt, er enghraifft, yw hysbysu'r cwnselydd a yw'r unigolyn ifanc yn Blentyn sy'n Derbyng Gofal neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Gweler y manylion yn Rhan 2 (xiii). Mae'r unigolyn cyswllt hefyd yn gyfrifol am hysbysu'r cwnselydd os oes unrhyw risg yn gysylltiedig â'r unigolyn ifanc.

Mae pobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth yn gyfredol gan asiantaethau eraill yn gymwys i dderbyn y Gwasanaeth Cwnsela. Ni ddylai fod unrhyw wrthdaro amlwg ag unrhyw achosion cyfreithiol sydd ar ddod na gorlwytho'r gefnogaeth neu'r ymyriadau y mae'r unigolyn yn eu derbyn o fan arall. Mae angen i gwrselwyr gofio y gallai achlysuron godi lle gallai gwybodaeth a ddatgelir mewn sesiwn gwrsela fod yn rhan o achos neu weithredu cyfreithiol, ac y gallai fod angen iddynt roi tystiolaeth neu gyflwyno adroddiadau yn eu tro ynglŷn â'u cleient. ('Canllaw Arfer Da ar gyfer Cwnsela Mewn Ysgolion' 4ydd Argraffiad BACP tud 27). Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai gwrselwyr ofyn am arweiniad gan Brif Arweinydd yr Awdurdod Lleol ac/neu'r Uned Amddiffyn/Diogelu Plant mewn achosion unigol cyn dechrau cwnsela'r unigolyn ifanc.

Gallai fod rhai amgylchiadau lle na fyddai'n briodol cynnig cwnsela i ddisgybl, er enghraifft diffyg parodrwydd i gymryd rhan yn y broses. Os ceir unrhyw amheuaeth a yw'n briodol i'r unigolyn ifanc dderbyn gwasanaeth cwnsela, dylid cynnal trafodaeth i egluro'r materion dan sylw, er mwyn ystyried y ffordd orau o symud ymlaen.

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn ystyried cwnsela'n wasanaeth a ddarperir ar eu cyfer hwy. Gan hynny, wrth sefydlu'r gweithdrefnau, dylid cynnwys sylwadau gan bobl ifanc ym mhob cam o'r broses gwrsela. Ceir templedi o ffurflenni yn Rhan 2. Gellir addasu'r rhain ar gyfer eich ysgol.

Gellir defnyddio system blwch post, neges-destun, ffôn, galw heibio, cardiau parod wedi'u hargraffu â lluniau arnynt, neu systemau eraill yn unol â'r hyn y cytunir arno gan gymuned yr ysgol. Bydd gwybodaeth hawdd ei deall yn cael ei harddangos a'i chylchredeg fel y cytunwyd er mwyn hysbysu cymuned yr ysgol ynglŷn â'r gwasanaeth.

## 12. Diogelu/Amddiffyn Plant

Mae'r cwnselydd wedi'i rwymo gan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a chanllawiau oddi mewn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Mae hyn yn cynnwys gofyniad i'r cwnselydd nodi a rhoi gwybod, drwy'r Unigolyn Amddiffyn Plant Dynodedig (UAPD), am achosion posibl o niwed i blant a phobl ifanc sy'n tarddu o unrhyw ddatgeliadau a wneir gan ddisgybl, neu os oes gan y cwnselydd wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn yn dioddef niwed neu mewn perygl o gael ei niweidio. Bydd hyn yn cynnwys datgeliadau ynglŷn â cham-drin corfforol, emosiynol ac/neu rywiol ac/neu esgeulustod honedig ganddo'i hun neu gan rywun arall, ac yn bwysicach nag unrhyw gytundeb cyfrinachedd awnaed rhwng y cwnselydd a'r cleient.

Dylai cwnselwyr ymdrechu i fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth gyfredol a chyfraith achosion. Rhaid i bob cwnselydd gadw Dogfennau Bugeiliol yr ysgol, sy'n cynnwys y polisi amddiffyn plant, y polisi gwrth-fwllo a'r polisi disgyblu. Mae'n ofynnol i bob cwnselydd gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant cenedlaethol, rhanbarthol neu leol gorfodol ar amddiffyn plant.

Bydd yr ysgol yn cytuno ar drefniadau penodol i roi gwybod am bryderon amddiffyn plant ac yn nodi'r trefniadau hynny yng ngweithdrefnau'r ysgol. RHAID trosglwyddo unrhyw bryderon amddiffyn plant i'r UAPD a fydd yn gweithio'n unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

### Argymhelliad:

Dylai gwasanaethau roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol, a chynnig cyfrinachedd oddi mewn i'r terfynau moesegol a diogelu arferol.

Rhaid i'r ysgol a'r Cwmselydd gydweithio oddi mewn i ofynion cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (cyhoeddwyd yn 2007); Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002 (cyhoeddwyd yn 2008) a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (cyhoeddwyd yn 2008).

Bydd Estyn, ac mewn rhai amgylchiadau, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cynnal arolwg o bob sefydliad addysgol, pob ysgol annibynnol a phob awdurdod lleol. Bydd perfformiad y sefydliad mewn perthynas â'u cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yn ffurfio rhan o ddyfarniad yr arolygiaeth berthnasol o berfformiad cyffredinol y sefydliad. Nid yn ôl bodolaeth gweithdrefnau'n unig y mesurir perfformiad yn y maes hwn, ond pa mor effeithiol yr ydynt wrth ddiogelu plant rhag niwed.

## 13. Cyfrinachedd

**Nid yw gwir gyfrinachedd yn bodoli wrth weithio â phobl ifanc; bydd pryderon amddiffyn plant bob amser yn cael blaenoriaeth ar godau cyfrinachedd arferol.**

Yn y contract y bydd yr unigolyn ifanc yn ymrwymo iddo ar ddechrau'r berthynas gwnsela, bydd union ystyr hyn yn cael ei egluro mewn modd sy'n cyfateb ag aeddfedrwydd a dealltwriaeth yr unigolyn ifanc.

Yn ôl arfer da, dylai'r unigolyn ifanc a'r cwnselydd ymrwymo i gytundeb ar ddechrau'r berthynas gwnsela. Mae'r cytundeb yn nodi'r terfynau sy'n bodoli yng nghyd-destun gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol. Ni chynigir lefelau o gyfrinachedd na ellir eu cadw i bobl ifanc.

Felly, ni ellir gwarantu cyfrinachedd llwyr. Bydd lles yr unigolyn ifanc bob amser yn cael blaenoriaeth ar gyfrinachedd. Ar ddechrau'r berthynas gwnsela, bydd y cwnselydd yn egluro cyfrinachedd a chyfyngiadau hynny i'r unigolyn ifanc. Dyma ddau o'r cyfyngiadau hynny:

- Pan fydd unigolyn ifanc mewn perygl o beri niwed sylweddol iddo'i hun neu i eraill
- Pan fydd y cwnselydd yn cyflwyno'i achosion yn ddiennw mewn goruchwyliaeth glinigol.

Disgwylir i bob cwnselydd drafod penderfyniadau moesegol anodd ynglŷn â rhoi gwybod am ddatgeliadau gyda'i oruchwylydd clinigol a'i reolwr llinell.

Os bydd cwnselydd yn tybio bod unigolyn ifanc mewn perygl o gael ei niweidio'n sylweddol, ac mae angen rhoi gwybod am hyn i'r Athro Dynodedig Amddiffyn Plant, bydd y cwnselydd bob amser yn ceisio cael caniatâd yr unigolyn ifanc i wneud hynny, gan ddatgelu gwybodaeth berthnasol yn unig.

Dylai'r cwnselydd drin unrhyw wybodaeth bersonol am bobl ifanc yn gyfrinachol, boed yr wybodaeth honno wedi'i chael yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu drwy gasgliad. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys enwau, cyfeiriadau, manylion bywgraffiadol a disgrifiadau eraill ynglŷn â bywyd ac amgylchiadau'r unigolyn ifanc a allai achosi iddo gael ei adnabod.

Bydd unrhyw wybodaeth am ysgol yr unigolyn hefyd yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Ni fydd cwnselwyr yn trafod manylion achosion y tu allan i'r gwasanaeth.

## 14. Amrywiaeth ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn 'Hawliau Plant a Phobl Ifanc i Weithredu' nodir ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu.

Adlewyrchir yr adduned drwy'r holl feysydd polisi. Ceir hefyd ymrwymiad i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog, ac yn strategaeth laith Pawb nodir camau i gefnogi' riaith. Mae laith Pawb yn pwysleisio y dylai pob plentyn ac unigolyn ifanc gael y cyfle i ddysgu'r iaith a'i defnyddio. Felly, mae angen sicrhau bod gan bobl ifanc hawl i dderbyn gwasanaeth cwnsela yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae Cymru bellach yn gartref i amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd gwahanol ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n ystyriol o wahaniaethau diwylliannol a'r angen i ddarparu gwasanaeth cwnsela mewn amryw o ieithoedd. Ceir hefyd ymrwymiad i sicrhau bod anghenion pob plentyn ac unigolyn ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol\* yn cael eu diwallu. Mae hyn yn berthnasol er enghraifft i bobl ifanc anabl, lesbiaid, hoywon a phobl ifanc ddeurywiol y gallai eu hunaniaeth a'u profiadau fod heb eu cynrychioli yn amgylchedd yr ysgol yn y gorffennol.

Mae \*Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) yn cynnwys unigolion y mae arnynt angen cymorth dysgu ychwanegol, beth bynnag fo'r rheswm am hynny, gan eu bod yn ei chael hi'n anodd dysgu o gymharu â'u cyfoedion. Mae'n bosibl felly y bydd ar ddisgyblion ysgol angen cymorth dysgu ychwanegol os ydynt yn ei chael hi'n anodd dysgu am y rhesymau canlynol, er enghraifft :

- anabledd;
- anghenion meddygol;
- bylchau mewn gwybodaeth neu sgiliau gan eu bod wedi bod yn absennol am gyfnodau hir o'r system addysg e.e. rhai sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, rhai sydd â ffobia o'r ysgol neu droseddwy'r ifanc;
- amgylchiadau teuluol anodd, e.e. oherwydd profedigaeth;
- wedi cael mynediad anghyson at addysg e.e. Sipsiwn a disgyblion teithiol;
- nid Gymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, e.e. ceiswyr lloches/ ffoaduriaid/plant gweithwyr mudol;
- mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt e.e. plentyn yr amharwyd ar ei addysg yn yr ysgol cyn iddo gael ei roi mewn gofal neu sydd wedi newid ysgolion droeon ers cael ei roi mewn gofal;
- maen nhw'n tanyflawni oherwydd cyfrifoldebau gofal, e.e. gofalwyr ifanc;
- maen nhw'n feichiog neu'n rhiant ifanc;
- maen nhw'n cael eu bwlio gan gyfoedion neu eraill, oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol e.e. disgyblion lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol;
- maen nhw'n ddisgyblion sy'n perfformio neu sydd mewn cyflogaeth.
- anghenion addysgol arbennig;

Mae'n bwysig nad yw pobl ifanc nad ydynt yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth ysgol brif ffrwd yn cael eu rhoi dan anfantais. Rhaid i ddarparwydd y gwasanaeth cwnsela felly sicrhau bod gan bob plentyn ac unigolyn ifanc y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt hawl i dderbyn gwasanaeth cwnsela. Bydd cyfarwyddyd penodol yn cael ei gyhoeddi gyda hyn ynghylch sicrhau mynediad at gwnsela i bob plentyn.

**Argymhelliad:**

Dylai gwasanaethau ymateb mewn modd hyblyg i anghenion lleol o ran amrywiaeth (e.e. iaith) ac ymarferoldeb (e.e. ar gael yn ystod y gwyliau).

Ar hyn o bryd, model Western yw dull arferol gwasanaethau cwnsela. Rhaid ystyried addasu dulliau er mwyn diwallu anghenion disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Cydnabyddir anghenion penodol plant ceiswyr lloches sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid a rhaid darparu ar eu cyfer ym mhedair ardal wasgaru Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Mae GEMMS (Casnewydd) yn enghraifft wych o wasanaethau cwnsela wedi'u targedu. Rhaid cynnig gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd ac ystyried darparu mynediad y tu allan i oriau'r ysgol.



## 15. Cadw Cofnodion

Rhaid i gwrselwyr gadw'r holl gofnodion wedi'u cloi mewn cwpwrdd diogel ar eiddo diogel. Bydd y cofnodion hyn yn cynorthwyo i werthuso'r gwasanaeth yn ogystal â monitro'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth cwnsela a'r materion sy'n codi yn ystod sesiynau cwnsela.

Bydd y cwnselydd yn cadw nodiadau ynglŷn â'r hyn a drafodwyd yn y sesiynau ac yn cyflwyno'i waith i oruchwylydd cwnsela bob mis yn ystod yr oruchwyliaeth glinigol. Bydd hyn yn fodd i fonitro'r gwasanaeth cwnsela a ddarperir yn effeithiol. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth i'r goruchwylydd a allai ei gwneud hi'n bosibl i rywun adnabod yr ysgol neu'r unigolyn ifanc.

Bydd angen i'r cwnselydd drafod fframwaith clir ar gyfer cofnodi presenoldeb plant gyda'r Pennaeth neu'r unigolyn cyswllt drwy system cofnodi â chodau.

Cedwir cofnodion pob unigolyn ifanc o dan rif adnabod dienw a'i storio'n ddiogel. Bydd data ystadegol ynglŷn â data allbwn ar gael yn flynyddol, ond ni fydd modd adnabod unrhyw ddisgybl yn y data a gesglir gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'n ofyniad cyfreithiol diogelu data sensitif, ac yn Data Handling Procedures in Government nodir mesurau y dylai ysgolion eu mabwysiadu i gynnal diogelwch.

Daeth Deddf Diogelu Data 1998 i rym ar 1 Mawrth 2000; pwrpas y Ddeddf yw amddiffyn hawliau unigol a rhyddid unigolion, yn enwedig eu hawl i breifatrwydd wrth brosesu data personol. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i ddata personol, boed y data hynny ar system gyfrifiadurol neu ar bapur. Ceir rheolau arbennig o gaeth mewn perthynas â data "sensitif" fel nodweddion disgyblion, Anghenion Addysgol Arbennig, iechyd, cred grefyddol, cefndir ethnig, rhywioldeb ac ati. Ceir gwybodaeth bellach yn <http://becta.org.uk>

Yn ôl Deddf Diogelu Data 1998 gellid ystyried cofnod cwnsela yn yr ysgol yn rhan o gofnod addysg. Bydd felly angen ystyried trefniadau cadw a gwaredu cofnodion cwnsela yn yr ysgol a phwy fydd yn bennaf gyfrifol am hynny.

## 16. Rhannu Gwybodaeth

Er y gallai fod gan unigolyn cyswllt yr ysgol syniad cyffredinol o'r rheswm a roddwyd dros atgyfeirio, bydd cynnwys sesiynau'n parhau'n gyfrinachol oni ystyrir bod lles a diogelwch yr unigolyn ifanc a/neu rywun arall mewn perygl.

Yn yr amgylchiadau hyn, bydd polisi amddiffyn plant yr ysgol yn dod i rym.

Ni fydd y cwmselydd yn trosglwyddo unrhyw fanylion o'r sesiynau, ond caiff gyfathrebu o dro i dro â staff yr ysgol ynglŷn â chynnydd cyffredinol gyda chydysniad yr unigolyn ifanc. Bydd staff yr ysgol yn deall hawl yr unigolyn ifanc i gyfrinachedd wrth gwrsela, ac yn parchu hyn wrth ddelio â'r cwmselydd a'r plentyn. Mae hyn yn hanfodol pan fydd cwmselydd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth lle bydd anghenion plant unigol yn cael eu trafod.

### **Argymhelliad:**

Dylai gwasanaethau weithio gyda, ac ochr yn ochr â gwasanaethau ac asiantaethau eraill mewn modd colegol, gan sicrhau lefel briodol o gyfrinachedd.

Bydd cwmselwyr ysgol yn gweithio mewn modd amlddisgyblaethol ac yn cyfathrebu â staff yr ysgol, asiantaethau eraill a gwasanaethau arbenigol pan fo'n briodol. Mae'n bosibl y bydd cwmselwyr yn canfod bod angen cysylltu neu rannu gwybodaeth ag asiantaeth arall, neu gyfeirio'r unigolyn ifanc i asiantaeth arall am fwy o gymorth. Ni ddylai hyn ddigwydd ond gyda chaniatâd yr unigolyn ifanc.

## 17. Trefniadau Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

O dan Fframwaith Arolygu newydd Estyn yn 2010, bydd Cwnsela mewn Ysgolion yn cael ei arolygu drwy Arolygiadau Awdurdodau Lleol.

Caiff Estyn arolygu gwasanaeth cwnsela mewn ysgol a mesur ei gyfraniad tuag at ethos cyffredinol yr ysgol, ond ni chaiff arolygwyr eistedd mewn sesiynau. Derbynnir yn yr achos hwn bod hawl pobl ifanc i dderbyn gwasanaeth cwnsela cyfrinachol yn bwysicach na hawl pennaeth ac arolygwyr ysgol.

Lle ceir gwasanaethau cwnsela, dangoswyd eu bod yn:

- Cyflenwi systemau gofal bugeiliol;
- Cefnogi gofal athrawon am blant a phobl ifanc a'u dull o reoli rhai ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol;
- Cynnig hyfforddiant i athrawon ar sgiliau cwnsela a rheoli straen;
- Darparu ymgynghoriaeth, hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth ar gyfer strategaethau i atal problemau fel bwlio a thriwiantaeth;
- Dylanwadu ar bolisiau addysg rhyw a chyffuriau o fewn fframwaith cyfrinachol;
- Cyfrannu tuag at gwricwlwm y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol;
- Cefnogi gweithdrefnau effeithiol i amddiffyn plant.

Bydd monitro'n digwydd yn barhaus a bydd data'n cael eu casglu sy'n cynnwys:

- Effaith uniongyrchol cwnsela ar yr unigolyn ifanc;
- Yr effaith o fewn yr ysgol;

- Nifer y bobl ifanc sy'n mynychu;
- Rhyw'r bobl ifanc sy'n mynychu;
- Proffil oedran/grŵp blwyddyn;
- Ethnigrwydd yr unigolyn ifanc sy'n mynychu;
- Cyfeiriadedd rhywiol y sawl sy'n mynychu;
- Anabledd/salwch/anghenion arbennig y sawl sy'n mynychu;
- Crefydd neu gred y sawl sy'n mynychu;
- Plant sy'n Derbyngofal;
- Nifer y sesiynau;
- Y nifer na wnaeth gadw apwyntiad cwnsela;
- Materion cyflwyno;
- Prif faterion;
- Atgyfeirio ymlaen (yn enwedig CAMHS arbenigol);
- Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i werthuso, gan gynnwys:

- Ffurflenni hawdd eu llenwi;
- Grwpiau Ffocws;
- Gwerthuso Cymheiriad;
- Holiaduron;
- Canlyniad CORE, SDQ neu gyfatebol.

Bydd data a gesglir yn cael eu gwerthuso gyda golwg ar greu trefniadau angenrheidiol i ddatblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Bydd y Cynulliad yn gwerthuso llwyddiant gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ym mlwyddyn 1 a 2, gan ganolbwyntio ar:

- Eu heffaith ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc;
- Bodlonrwydd pobl ifanc a staff â'r gwasanaeth;
- Canfyddiad o'r meysydd i'w gwella;
- Effaith y cwnsela ar allu pobl ifanc i astudio a dysgu;
- Archwilio'r gwerth y gallai gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion ei ychwanegu at ddarpariaeth gofal bugeiliol yr ysgol;
- Archwilio'r berthynas rhwng cwnsela a'r gwasanaethau cefnogi ehangach

### **Argymhelliad:**

Dylai gwasanaethau gael eu monitro a'u gwerthuso gan unigolion neu asiantaeth (y tu mewn neu'r tu allan i'r ysgol) a chanddynt brofiad o'r maes arbenigol hwn o waith.

Bydd canlyniadau a chynnydd yn cael eu monitro mewn amryw o ffyrdd, fel a ganlyn:

- Gan yr Awdurdod Lleol drwy drefniant rheoli o ddydd i ddydd, o fewn cwmpas eu dyletswydd statudol i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc;
- O leiaf 2 adroddiad ysgrifenedig blynyddol ynglŷn â chynnydd gan yr Awdurdod Lleol a fydd yn cynnwys dulliau i fesur canlyniadau priodol y mae'r Cynulliad wedi cytuno arnynt;
- Drwy waith y Cydlynnydd Cwmsela mewn Ysgolion;
- Gan werthuswyr allanol a benodir gan y Cynulliad;
- Gan Estyn, wedi'u cynnwys yn ei gylch gwaith blynyddol gan y Cynulliad
- Drwy waith Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas â'r Awdurdod Lleol.

## 18. Goruchwyliaeth

Goruchwyliaeth yw'r trefniant ffurfiol i gwmselwyr drafod eu gwaith yn rheolaidd â rhywun sy'n brofiadol ym maes cwnsela a goruchwyllo.

Mae angen i bob cwnselydd gymryd rhan mewn goruchwyliaeth glinigol reolaidd er mwyn cynnal a monitro safonau a chydymffurfio â'r cod moesegol. Bydd cwnselwyr yn treulio amser mewn perthynas oruchwyllo yn ystyried eu hachosion yn ddiennw, a chanlyniad hyn fydd cynnig arfer foesegol o'r safon uchaf i'w cleientiaid.

Mae goruchwyliaeth glinigol yn wahanol ac ar wahân i oruchwyliaeth rheolwr llinell a ddarperir gan eu cyflogwr.

Gall cwnselwyr hefyd gymryd rhan mewn goruchwyliaeth grŵp â chwmselwyr o ysgolion eraill, lle byddant hefyd yn ystyried materion arfer gyda'u cymheiriaid.

Dylai cwnselwyr ysgol gymryd rhan mewn goruchwyliaeth gwnsela gyda goruchwylwr a chanddo brofiad a dealltwriaeth o blant a phobl ifanc ac o gyd-destun yr ysgol.

Gallai fod yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol gynnal goruchwyliaeth grŵp/cymheiriaid ar gyfer yr holl gwmselwyr ysgol yn eu hardal, yn adnodd defnyddiol ychwanegol i gwmselwyr sy'n debygol o wella'u harfer foesegol. Gallai'r cyfarfodydd goruchwyllo cymheiriaid hyn gael eu cynnal gan gydweithiwr fel Seicolegydd Addysg sydd wedi cael hyfforddiant priodol ym maes goruchwyllo.

# Rhan 2

## Atodiadau

Mae'r atodiadau'n cynnwys amrywiaeth o ddogfennau, ond nid oes rheidrwydd arnoch i ddefnyddio unrhyw un ohonynt. Gellir defnyddio'r dogfennau fel templedi i greu'ch dogfennau'ch hunain i reoli a gwerthuso'ch gwasanaeth.

# i. Y Gwasanaeth Cwmsela i Bobl Ifanc: Safonau Ansawdd – Pen-y-bont ar Ogwr

Dyma ddogfen enghreifftiol o wasanaeth cwmsela sy'n rhan o Wasanaeth Ieuencid. Dogfen enghreifftiol ydyw, ac ni fwriedir iddi fod yn ddiffiniol. Byddai angen adlewyrchu amgylchiadau lleol mewn dogfen o'r fath.

	AMCANION	MEINI PRAWF TYSTIOLAETH
<b>Awyrgylch Cwmsela</b>		
Darparu awyrgylch diogel, cynnes a chyfrinachol sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus wrth weithio gyda chwmselwr ac wrth fynegi unrhyw emosiynau neu wrthdaro a allai godi.	Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio i'r eithaf ar y sesiwn gwmsela heb ofni y bydd unrhyw un yn yn torri ar draws y sesiwn neu'n amharu arni, neu bryderon ynghylch cyfrinachedd.	Adborth gan gwmselwyr, staff a gweithwyr ieuencid bod asesiad risg wedi'i gynnal i sicrhau bod yr awyrgylch yn gydnaws â chwmsela ac y gellir cadw cyfrinachedd.
<b>Arferion Cwmsela</b>		
Darparu cwmsela wyneb yn wyneb rhad ac am ddim a chyfrinachol i bobl ifanc ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.	Sicrhau bod y gwasanaeth yn werthfawr i bobl ifanc drwy roi cyfle iddynt ddatrys problemau ac elwa ar y profiad o weithio gyda chwmselydd hyfforddedig.	Ffurflenni i fonitro nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.  Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, staff ysgol a gweithwyr ieuencid sy'n tystio bod darparu cwmsela wedi caniatáu iddynt newid eu bywydau mewn modd cadarnhaol ac yn seiliedig ar ystyriaeth.
Drwy ddarparu cwmsela, caniatáu unigolyn ifanc i feithrin hunan-barch, hyder a sgiliau ymdopi effeithiol, a'i alluogi i ymdopi ag unrhyw argyfwng sy'n codi.	Annog unigolyn ifanc i sefydlu a meithrin hunan-barch, hunan-ymwybyddiaeth a sgiliau ymdopi, gan roi'r gallu iddo ymdopi â newid a heriau mewn bywyd, a hyrwyddo iechyd meddwl a ffordd gadarnhaol o fyw.	Drwy nodiadau'r cwmselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.

<p>Sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yng nghyfeiriad a chynnydd y cwnsela a chael cyfle i roi adborth i'r cwnselydd ar ansawdd y cwnsela y maent wedi'i dderbyn drwy gynnal adolygiadau rheolaidd yn rhan o'r sesiwn gwnsela.</p>	<p>Datblygu synnwyr cyfrifoldeb unigolyn ifanc drosto'i hun a'i ddewis mewn bywyd, a meithrin ymdeimlad o allu drwy hunanymwybyddiaeth a chynnig adborth i eraill. Caniatáu'r cwnselydd gymryd adborth gan y cleient a sicrhau bod ei anghenion yn cael eu bodloni, a bod cwnsela'n cael ei gynllunio'n briodol yn ôl y cleient neilltuol.</p>	<p>Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.</p>
<p>Helpu pobl ifanc i ddeall sut mae eu datblygiad personol a chymdeithasol yn effeithio ar ansawdd eu bywyd i annog ymdeimlad o gyfrifoldeb, hunanbarch a pharch tuag at eraill.</p>	<p>Hyrwyddo'r egwyddor y gall newid a datblygiad cadarnhaol effeithio ar y dewisiadau emosïynol, cymdeithasol ac amgylcheddol a wneir gan bobl ifanc.</p>	<p>Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.</p>
<p>Cynorthwyo pobl ifanc i gysylltu â sefydliadau ac arbenigwyr allanol lle bo angen er mwyn derbyn gwasanaethau cefnogi amgen neu ychwanegol.</p>	<p>Galluogi'r unigolyn ifanc i gymryd cyfrifoldeb dros ofyn am gymorth lle bo angen a cheisio deall cyfyngiadau ar allu'r cwnselydd a'r angen i gysylltu â gwasanaethau ychwanegol lle bo hynny'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth. Er enghraifft, cysylltu ag asiantaethau amddiffyn plant.</p>	<p>Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.</p>
<p>Hyrwyddo cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag unrhyw faterion hil, anabledd a chydardoldeb.</p>	<p>Sicrhau bod gan bob unigolyn ifanc fynediad at wasanaethau cwnsela.</p>	<p>Drwy fonitro oedran, rhyw, tarddiad ethnig ac anabledd yn benodol ar ffurflenni.</p>



Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc ynglŷn â'u hawliau a'u cyfrifoldebau.	Sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau a dewisiadau deallus ynglŷn â'u bywydau a hwy'u hunain.	Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.
Codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag argaeledd gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, lleoliadau cymunedol ac ieuencid, a herio unrhyw ragfarn negyddol neu ystrydebau'n gysylltiedig â chwnsela.	Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â manteision cwnsela a sicrhau bod achosion yn parhau i gael eu hatgyfeirio.	Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.
<b>Recriwtio Staff</b>		
Sicrhau bod cwnselwyr yn meddu ar Ddiploma mewn Cwnsela fel cymhwyster sylfaenol.	Sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad at gwnsela proffesiynol o ansawdd uchel a bod cwnselwyr wedi cael hyfforddiant cwnsela priodol.	Drwy wirio hyfforddiant y cwnselydd a thrwy gyflwyno cymwysterau ar bapur.
Sicrhau bod pob cwnselydd yn cael eu goruchwyllo' rheolaidd wrth gwnsela er mwyn cynnal safonau proffesiynol priodol a monitro ansawdd eu gwaith a chefnogi datblygiad proffesiynol.	Cefnogi datblygiad a gwaith cwnselydd, a sicrhau y cyrhaeddir ac y cedwir safonau uchel wrth ymarfer cwnsela.	Presenoldeb parhaus y cwnselydd mewn cyfarfodydd goruchwyllo cwnsela.
Sicrhau bod pob cwnselydd yn cydnabod yr angen i geisio therapi personol yn sgil amgylchiadau neu ddigwyddiadau personol.	Sicrhau bod pob cwnselydd yn parhau i fod yn gymwys i ymarfer a bod ganddo fecanwaith i ddelio ag unrhyw faterion personol wrth iddynt godi, a pharhau i ofalu nad yw'r rhain yn effeithio ar eu gwaith â chleientiaid.	Adborth gan gwnselwyr.

<p>Sicrhau bod y prosiect yn dal i fod wedi'i gofrestru fel aelod sefydliadol o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP). Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu a chadw at Fframwaith Moesegol y BACP ar Arfer Da mewn Cwnsela a Seicotherapi.</p>	<p>Sicrhau bod safonau ansawdd yncael eu cadw wrth gwnsela, a darparu trefn gwyno allanol os oes angen.</p>	<p>Cadarnhad ysgrifenedig o aelodaeth gan y BACP.</p>
--	---	---

### Datblygu Staff

<p>Darparu trefn ymsefydlu strwythuredig i staff, ar lafar ac yn ysgrifenedig.</p>	<p>Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r holl bolisiau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan yr asiantaeth wrth gwnsela pobl ifanc ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.</p>	<p>Rheolwr Cwnsela i gofnodi'r sesiwn ymsefydlu.</p>
--	--	--

<p>Darparu goruchwyliaeth, gwerthusiadau, cyfarfodydd tîm ac adolygiadau staff rheolaidd, a chofnod ohonynt.</p>	<p>Rhoi cyfle i gwmselwyr drafod materion sy'n peri pryder, perfformiad, datblygu'r gwasanaeth, hyfforddiant a gweinyddu mewn lleoliad cyfrinachol, a chaniatáu monitro perfformiad, safonau proffesiynol ac ymarfer cwnsela.</p>	<p>Sesiynau rheolaidd wedi'u cofnodi gyda'r Rheolwr Cwnsela.</p>
--	---	--

### Hyfforddiant

<p>Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant ar gofnodi manylion cleientiaid, graddfeydd cyfranogi a monitro a gwerthuso .</p>	<p>Sicrhau y dilynir y gweithdrefnau gweinyddol cywir yn unol â darpariaeth grant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Ewropeaidd a bod data sylfaenol yn cael eu cofnodi.</p>	<p>Drwy ffurflenni a nodiadau'r cwnselydd.</p>
---	---	--

Sicrhau bod gan staff fynediad cyfartal at raglenni hyfforddiant a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac asiantaethau hyfforddi allanol.	Sicrhau bod staff yn parhau i ddatblygu a dysgu o fewn eu rôl.	Cwmselwyr yn derbyn hyfforddiant mewnol ac yn cyfeirio at unrhyw hyfforddiant allanol perthnasol.
--	--	---

### Monitro, Asesu a Gwerthuso

Sicrhau bod staff yn cofnodi manylion eu gwaith cwnsela, gan gynnwys lefelau cyfranogi, graddfeydd cadw a chategorïau o faterion a gyflwynir gan y cleient er mwyn cymharu'r lefelau gwahanol a gyrhaeddir rhwng blynyddoedd gwahanol ac mewn ysgolion a chanolfannau ieuenctid gwahanol.	Llywio ymarfer a datblygiad y prosiect yn y presennol a'r dyfodol, a sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni anghenion pobl ifanc.	Drwy ffurflenni a nodiadau'r cwnselydd.
Monitro a chofnodi safbwyntiau pobl ifanc ar ddarpariaeth y rhaglen.	Llywio ymarfer a datblygiad y prosiect yn y presennol a'r dyfodol, a sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni anghenion pobl ifanc.	Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuenctid.
Cofnodi ac ymateb i safbwyntiau ac argymhellion staff ynglŷn â datblygu'r gwasanaeth.	Gwerthuso datblygiad y prosiect yn y presennol a'r dyfodol a defnyddio arbenigedd staff yn sail i wneud penderfyniadau ac ystyried gwersi a ddysgwyd.	Drwy roi adborth ffurfiol ac anffurfiol wrth oruchwylio, mewn cyfarfodydd tîm ac ati.
Sicrhau bod pobl ifanc a staff yn deall pwrpas asesu.	Sicrhau bod pobl ifanc a staff yn cymryd rhan yn y gwaith o fonitro'r gwasanaeth ac yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried. Defnyddio'r prosesau monitro, asesu a gwerthuso i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodlonni anghenion pobl ifanc ac yn cyflawni nodau'r sefydliad.	Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuenctid.

Casglu ystadegau, canlyniadau a lefelau cyfranogi er mwyn llunio adroddiad.	Sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc ac yn cyflawni nodau'r sefydliad.	Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.
<b>Partneriaethau</b>		
Canfod sefydliadau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat a chreu partneriaethau wrth sefydlu a rhedeg y prosiect ac wrth dderbyn achosion pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio.	Sefydlu'r prosiect yn rhan annatod o wasanaethau i bobl ifanc, a sicrhau bod achosion yn parhau i gael eu hatgyfeirio.	Drwy hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth yn ffurfiol ac yn anffurfiol.
Trafod y defnydd o gyfleusterau ac adnoddau er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau cwnsela i bobl ifanc.	Sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'w defnyddio gan bobl ifanc a bod adnoddau'n cael eu defnyddio er budd y gwasanaeth.	Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.
Llunio cais/ceisiadau am nawdd er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect yn y tymor hir.	Sicrhau bod y prosiect yn goroesi yn y tymor hir ac yn parhau i fod o fudd i bobl ifanc.	Cais ysgrifenedig.
<b>Cyfle Cyfartal</b>		
Sicrhau bod cwnselwyr yn ymwybodol o ddeddfwriaeth gyfredol a pholisiau sefydliadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas ag oedran, anabledd, rhywedd, hil a chyfeiriadedd rhywiol.	Sicrhau bod yr holl gwnselwyr yn hyddysg wrth weithio gyda phobl ifanc a'u bod yn gallu osgoi gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal.	Drwy gynnal hyfforddiant staff os oes angen.
Monitro a gwerthuso pob maes cyfle cyfartal, yn arbennig mewn perthynas ag oedran, anabledd, rhywedd, hil a chyfeiriadedd rhywiol.	Sicrhau bod y prosiect yn cynnig mynediad cyfartal i bobl ifanc, a defnyddio gwybodaeth yn sail wrth gynllunio nawr ac i'r dyfodol.	Drwy nodiadau'r cwnselydd o sesiynau, drwy systemau monitro a gwerthuso ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adborth gan gleientiaid, staff ysgol a gweithwyr ieuencid.

## ii. Rhestr wirio ar gyfer sefydlu gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol

20 O GWESTIYNAU Y MAE ANGEN EU HATEB	✓	✗
1. A yw'r holl lywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni a phartneriaid yn ymwybodol bod Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgol yn cael ei ddatblygu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2. A oes hyfforddiant ar gwnsela yn yr ysgol wedi'i drefnu ar gyfer staff yr ysgol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3. A yw'r taflenni gwybodaeth/cyhoeddusrwydd yn hygyrch i'r holl gynulleidfaedd gwahanol – staff, rhieni, pobl ifanc, eraill?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4. A ystyrir cwnsela'n rhan o ymagwedd ysgol gyfan tuag at iechyd a lles emosiynol ac effeithiolrwydd yr ysgol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
5. A ystyrir y gwasanaeth yn annibynnol ar yr ysgol, ond hefyd yn rhan annatod ohoni?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
6. A yw'r ystafell gwnsela'n hygyrch, yn gynnes a diogel?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
7. A ddyranwyd digon o adnoddau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
8. A oes cwnselydd wedi'i benodi a chanddo gymwysterau addas?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
9. A yw'r trefniadau ymsefydlu'n barod?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10. A oes unigolyn cyswllt yn yr ysgol wedi cael ei benodi?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
11. A sefydlwyd trefniadau goruchwyllo clinigol a rheolaethol, gan gynnwys goruchwyllo cymheiriaid?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
12. A sefydlwyd cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
13. A yw pobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
14. A yw'r polisi Cyfle Cyfartal yn cynnwys anabledd, rhyw, hil a chyfeiriadedd rhywiol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
15. A yw'r cwnselydd yn ymwybodol o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau perthnasol gan gynnwys gweithdrefnau Amddiffyn Plant?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
16. A yw'r gweithdrefnau cwyno wedi'u hamlinellu'n glir?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
17. A oes protocolau wedi'u sefydlu ar gyfer cydweithio ag asiantaethau eraill?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
18. A yw'r cwnselydd yn gweithio oddi mewn i fframwaith moesegol, fel y BACP neu fframwaith cyfatebol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
19. A sefydlwyd gweithdrefnau clir ar gyfer atgyfeirio, gan gynnwys hunangyfeirio?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
20. A sefydlwyd gweithdrefnau ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd, gan gynnwys casglu data ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

## ii. Rhestr wirio amgen i ysgolion cyn cynnig cwnsela

GOFYNION	NODIADAU I'R CWNSELYDD/I'W TRAFOD
Ystafell fechan nad yw mewn rhan brysur o'r ysgol, lle mae'n annhebygol y ceir unrhyw aflonyddwch, gyda bleindiau ar y ffenestr fel na all pobl weld i mewn iddi.	
Cadeiriau cyfforddus	
Desg ac/neu fwrdd coffi – y ddau fyddai orau	
Cabinet ffeilio y gellir ei gloi a chanddo ddwy allwedd. Dylai'r cwnselydd gadw'r naill a'r pennaeth/athro a enwebwyd gadw'r llall – sef y brif allwedd	
Mynediad at linell ffôn gyfrinachol	
Copi o ddogfennau bugeiliol, yn enwedig y polisi amddiffyn plant, y polisi gwrth-fwllo, y polisi disgyblu ac unrhyw bolisiau neu weithdrefnau eraill sy'n effeithio ar les y disgybl, neu fynediad at y dogfennau hynny.	
Canfod man diogel lle gellir cadw'r ffeil apwyntiadau ac atgyfeiriadau. Bydd y ffeil hon yn cynnwys apwyntiadau, rhestr aros, amserlenni disgyblion a gwybodaeth am atgyfeiriadau. Dim ond yr unigolyn cyswllt a'r cwnselydd fydd angen cael mynediad at y ffeil.	
Mae angen i'r wybodaeth atgyfeirio ar gyfer pob cleient gynnwys – enw, blwyddyn/dosbarth, materion amddiffyn plant hysbys, a yw'n gweld rhywun arall e.e. CAMHS, Seic. Addysg, a yw wedi'i gofrestru'n anabl, AAA, ADHD, syndrom Asperger ac ati, a'r rheswm y cafodd y cleient ei atgyfeirio i dderbyn cwnsela.	
Unrhyw bryderon ynghylch iechyd a diogelwch mewn perthynas â lleoliad yr ystafell ac ati.	
Angen ystyried a fyddwch yn marchnata'r gwasanaeth/sut i farchnata'r gwasanaeth/ ymysg pwy – staff, disgyblion, teuluoedd a gofalwyr, neu ai dim ond rhoi gwybod i'r staff wnewch chi hyd nes y bydd mwy o oriau cwnsela ar gael.	
Sicrhau bod y staff yn gwbl gyfarwydd â'r weithdrefn atgyfeirio.	

## iii. Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person Enghreifftiol

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr-Disgrifiad Swydd

ADRAN:	Addysg, Hamdden a Dysgu Cymunedol
LLEOLIAD:	Pen-y-bont ar Ogwr/Tondu
TEITL SWYDD:	Rheolwr Cwnsela
GRADDFA'R SWYDD:	Pwynt JNC
YN ATEBOLI:	Pen Swyddog Ieuenctid
ORIAU:	37
CYFNOD CYFLOGI:	1 Ebrill 2007 hyd 31 Mawrth 2008

#### Pwrpas y Swydd

Rheoli, datblygu ac ymestyn y 'Prosiect Cwnsela Ieuenctid'. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ac ymestyn darpariaeth cwnsela i gynnwys pobl ifanc 11 – 25 oed mewn ysgolion ac yn y gymuned drwy lwyth achosion cwnsela a thrwy dîm o gwrselwyr cymwys.

Bydd y rheolwr yn datblygu ac yn ymestyn rhwydwaith o systemau cefnogi gyda darparwyr, sefydliadau ac asiantaethau ieuenctid eraill, yn enwedig y Gwasanaethau Plant, CAMHS a'r Uned Amddiffyn Plant, er mwyn sefydlu ymateb aml-asiantaeth i anghenion y bobl ifanc hyn. Bydd y rheolwr yn gyfrifol am dîm o gwrselwyr a fydd yn gweithio mewn ysgolion ac yn y gymuned yn darparu cwnsela i bobl ifanc er mwyn helpu pobl ifanc a chanddynt broblemau personol a datblygol, a'u galluogi i fyw mewn modd mwy boddhaol a chreadigol.

#### Tasgau Allweddol

1. Datblygu a rheoli rhaglen gwrsela ieuenctid mewn ysgolion yn y gymuned drwy dîm gwasanaeth cwnsela fel bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd tîm, trefnu hyfforddiant a goruchwyliaeth, gwneud gwaith goruchwyllo eich hunan a chynnal gwerthusiadau ac adolygiadau.
2. Cynyddu mynediad pobl ifanc at gwrsela drwy ddatblygu gwasanaethau cwnsela yn ysgolion CBSPO ac yn y gymuned a fydd yn cynnig amser, lle a chyfle i bobl ifanc drafod materion neu bryderon y gallent fod yn eu hwynebu yn eu bywyd mewn amgylchedd cyfrinachol a chydymdeimloll heb gael eu barnu.
3. Cefnogi pobl drwy drefniant un i un i'w galluogi i symud tuag at sefyllfa lle maen nhw'n eu deall eu hunain yn well, a fydd yn eu helpu i ymdopi â newidiadau mewn bywyd.
4. Archwilio, datblygu a gweithredu'r gwasanaeth i bobl ifanc gan sicrhau bod amgylchedd diogel a chefnogol yn cael ei greu i ysgogi datblygiad personol pobl ifanc.
5. Sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio rhwng asiantaethau perthnasol a'r gwasanaeth ieuenctid gan sicrhau bod rhwydwaith cryf yn cael ei greu a gweithdrefnau cyfeirio ar gael, yn enwedig gyda CAMHS, y Gwasanaethau Plant a'r Uned Amddiffyn Plant.

6. Ymchwilio i argaeledd gwasanaethau cwnsela proffesiynol ychwanegol a sefydlu gwaith partneriaeth fel bod modd i bobl ifanc gael mynediad at ystod o gwnsela a gwasanaethau cefnogi eraill perthnasol.
7. Sicrhau bod Ymestyn Hawliau Cyfrinachedd a chanllawiau, polisiâu ac arferion eraill yn cael eu cadw a bod yn hyddysg yn y ddeddfwriaeth leol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r maes cwnsela.
8. Sicrhau bod gweithdrefnau monitro a gwerthuso, asesiadau risg a safonau ansawdd effeithiol wedi'u sefydlu fel bod y gwasanaeth a ddarperir yn ymateb i'r anghenion a ddynodwyd gan bobl ifanc, a bod amcanion yn cael eu cyflawni.
9. Cynnig amgylchedd diogel a phreifat i bobl ifanc gael archwilio problemau ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt.
10. Canfod ac ymchwilio i ffynonellau nawdd a chyflwyno ceisiadau amdanynt ac, os derbynnir y grant, ei reoli'n unol ag unrhyw reoliadau monitro ac adrodd am gyllid.
11. Goruchwilio'r holl atgyfeiriadau amddiffyn plant sy'n codi pan fydd ar blentyn angen gwasanaeth cwnsela drwy'r tîm cwnsela.
12. Creu strategaeth a chynlluniau gweithredol i ymestyn y rhaglen gwnsela.
13. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill, ar gais y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Gwasanaethau Cymunedol sy'n gymesur â chyflog a graddfa'r swydd, gan gynnwys cynlluniau gweithredol ac adroddiadau rheolaidd.



## iii. Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person Enghreifftiol

### (RhCT) Eye to Eye – Gwasanaeth Cwmsela Ieuenctid – Disgrifiad Swydd

ADRAN:	Cwmsela mewn Ysgolion
LLEOLIAD:	
TEITL SWYDD:	Cwmselydd Ysgol
GRADDFA'R SWYDD:	
YN ATEBOLI:	Cydlynnydd Eye to Eye. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
ORIAU:	2 x 4 o ddyddiau cwmsela mewn ysgolion. Yn ystod y tymor yn unig. (Fel y bo'n ofynnol gan ysgol y contract)
CYFNOD CYFLOGI:	

#### Prif Bwrpas y Swydd

Darparu gwasanaeth cwmsela proffesiynol i bobl ifanc mewn dwy ysgol yn Rhondda Cynon Taf.

#### Manylion Pwysig

Mae'r swydd hon yn dechrau gyda phythefnos o ymsefydlu sy'n dechrau ar 8 Rhagfyr 2008. Bydd angen i'r cwmselydd allu gweithio ddydd Llun yr 8fed a dydd Mawrth y 9fed gan ddechrau am 9.30am a gorffen am 3.00pm. Yr amserau ar gyfer yr ail wythnos yw dydd Mawrth 16 a dydd Mercher 17 Rhagfyr, 9.30am tan 3.00pm.

Dechreuir Cwmsela mewn Ysgolion yn yr ail wythnos ym mis Ionawr, a rhoddir briff ar hyn yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

#### Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Cyflawni dyletswyddau cwmsela'n unol â'r Codau Ymarfer a Moeseg a argymhellir gan Gymdeithas Cwmsela a Seicotherapi Prydain (BACP) a Safonau Gwasanaeth a Pholisïau Eye to Eye.
2. Cwmsela pobl ifanc sy'n mynychu ysgolion yn Rhondda Cynon Taf fel yr ystyrir yn briodol gan y Cydlynnydd Elusennau.
3. Cwblhau a chadw cofnodion cyfrinachol priodol a sicrhau cyfrinachedd ym mhob agwedd ar y gwaith.
4. Mynychu'r holl weithdai hyfforddi a datblygu staff yn ôl yr angen.
5. Cadw cofnodion cleientiaid yn gyfredol.
6. Sicrhau ymagwedd sy'n rhoi lle canolog i'r cleient.
7. Mynychu sesiwn oruchwylio reolaidd a llenwi cofnodion priodol.
8. Cysylltu ag aelodau o'r tîm ysgol er mwyn gweithio er budd pennaf eich cleient.
9. Cysylltu ag asiantaethau eraill priodol gyda chaniatâd yr elusen.

10. Cwblhau a chyflwyno'r holl amserlenni a'r gwaith papur cwnsela angenrheidiol i'r elusen.
11. Cadw at bolisiau'r ysgolion lle byddwch yn gweithio ar lechyd a Diogelwch ac arferion gwaith cyffredinol.
12. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r rôl a bennir gan y cydlynnydd.

### Personél

1. Rhaid i ddeiliad y swydd fod â chymwysterau hyd at lefel Ôl-radd neu gyfatebol.
2. Cadw safonau proffesiynol mewn perthynasau â phobl ifanc, gan gynnwys arferion nad ydynt yn gwahaniaethu rhwyng pold, a sicrhau lefel uchel o gyfrinachedd a doethineb yn unol â'r cyfarwyddyd ym Mholisiau a Gweithdrefnau Eye to Eye.
3. Ymdrin yn brydlon, gyda sensitifrwydd ac ystyriaeth, ag unigolion y tu allan i'r Elusen, aelodau o'r cyhoedd, staff ysgol a phobl ifanc.

### Natur a Chwmpas y Swydd

Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae angen i ddeiliad y swydd fod â dealltwriaeth o nodau ac amcanion yr Elusen, anghenion pobl ifanc a'r gallu i gynrychioli cleientiaid o flaen sefydliadau allanol.

Mae gofyn i ddeiliad y swydd allu gweithio ar ei ben ei hun ag ond ychydig o oruchwyliaeth (oddi mewn i'r canllawiau) gan wneud penderfyniadau arferol o ddydd i ddydd. Rhaid i ddeiliad y swydd allu gweithio'n rhan o dîm cwnsela Eye to Eye, er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r ysgol a bennir ac i'r Elusen.

### Dadansoddiad o'r swydd 11 awr

- Bydd pob ysgol yn cael 4 awr o gwnsela
- Mae gofyn i'r holl gwmselwyr ysgol fynychu'r brif swyddfa ar ddyddiau Gwener, i ddibenion goruchwyllo a chefnogi, ac er mwyn gwneud gwaith papur
- Yn rhan o'r swydd 11 awr bydd gofyn i chi weithio 9 awr y naill wythnos (heb fynychu'r swyddfa) ac 13 awr yr wythnos nesaf (gan fynychu'r swyddfa ar y dydd Gwener)
- Mae'r swydd ar gyfer tymhorau ysgol yn unig, felly bydd deiliad y swydd yn gweithio am 26 wythnos hyd ddiwedd mis Gorffennaf. Gall contractau gael eu hadnewyddu'n amodol ar gyfnod prawf boddhaol o 3 mis
- Gallai oriau'r swydd gynyddu yn yr ail flwyddyn sy'n dechrau fis Medi 2009, felly bydd angen i ddeiliad y swydd fod yn hyblyg
- Mae'r swydd yn dechrau ar 8 Rhagfyr, gyda phythefnos o ymsefydlu fel a ganlyn:
 

Dydd Llun 8 Rhagfyr	9.30 tan 3pm
Dydd Mawrth 9 Rhagfyr	9.30 tan 3pm
Dydd Mawrth 16 Rhagfyr	9.30 tan 3pm
Dydd Mercher 17 Rhagfyr	9.30 tan 3pm

Bydd eich gwaith cwnsela mewn ysgolion yn dechrau ar yr wythnos sy'n dechrau ar 5 Ionawr – dyddiau gwaith i gael eu trefnu.

## iii. Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person Enghreifftiol

### Cyngor Sir Benfro – Disgrifiad Swydd

ADRAN:	Addysg – Dysgu Gydol Oes a Datblygu
LLEOLIAD:	
TEITL SWYDD:	Cwmselydd Ysgol
GRADDFA'R SWYDD:	Pwynt 6
YN ATEBOLI:	Swyddog Datblygu Cefnogaeth Personol
ORIAU:	Hyd at 20 awr yr wythnos
CYFNOD CYFLOGI:	Cytundeb dros dro hyd fis Mawrth 2009

### Pwrpas y Swydd

- Darparu cefnogaeth gwrsela un i un i ddisgyblion yn ysgolion uwchradd Sir Benfro
- Darparu asesiad cwrsela i ddisgyblion
- Darparu addysg am gwrsela/sgiliau cyfathrebu i bobl ifanc

### Prif Gyfrifoldebau

1. Darparu gwasanaeth cwrsela effeithiol i bobl ifanc yn ôl yr angen.
2. Cyfathrebu â ffynonellau atgyfeirio ac/neu weithwyr proffesiynol eraill perthnasol yn ôl yr angen er mwyn cydlynu darpariaeth gwrsela effeithiol i gleientiaid.
3. Cyfrannu tuag at weithrediad effeithiol y tîm Cwrsela mewn Ysgolion.
4. Darparu gweithdai i bobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth o gwrsela a sgiliau cyfathrebu er mwyn hybu mwy o wytnwch o ran iechyd emosynol.
5. Darparu gwybodaeth a chynghor i staff aml-asiantaeth ynglŷn â'r gwasanaeth cwrsela mewn ysgolion.
6. Cefnogi darpariaeth hyfforddiant aml-asiantaeth yn ogystal â hyrwyddo datblygu arferion proffesiynol.
7. Cydymffurfio â dulliau atgyfeirio y cytunwyd arnynt.
8. Cyfrannu tuag at fonitro safonau a'r dull o lywodraethu'n effeithiol.
9. Cyfrannu tuag at weithredu rhaglen hyforddi aml-asiantaeth.
10. Cefnogi datblygiad parhaus y prosiect a chyfrannu tuag at brosesau monitro a gwerthuso effeithiol.
11. Gwella proffil a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Cwrsela mewn Ysgolion ymysg gweithwyr proffesiynol, pobl ifanc a rhieni.
12. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â graddfa'r swydd, yn ôl yr angen.

## Manyleb y Person

### HANFODOL

- Cymhwyster cwnsela ar lefel diploma neu gyfwerth a gydnabyddir gan Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)
- Meddu ar achrediad y BACP fel cwnselydd neu'n gweithio tuag ato
- Meddu ar brofiad perthnasol mewn swydd lle'r ydych yn helpu eraill, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol
- Brwdfrydedd dros weithio gyda phlant a phobl ifanc
- Sgiliau cyfathrebu a gwranddo rhagorol
- Amynedd, goddefgarwch a sensitifrwydd
- Agwedd aeddfed anfeimiadol
- Meddu ar ddealltwriaeth o'r prif faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc heddiw
- Gallu cysylltu yn ôl yr angen ag asiantaethau ac unigolion eraill er mwyn helpu i greu newid cadarnhaol yn seiliedig ar y materion a godir gan gleientiaid
- Trwydded yrru a mynediad at eich car eich hun
- Bydd gofyn cael datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

### DYMUNOL

- Gallu defnyddio'r Gymraeg wrth weithio.
- Trwydded yrru lân.

## Lleoliad

I'w gyhoeddi.

## iii. Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person Enghreifftiol

### Castell-Nedd Port Talbot – Disgrifiad Swydd

ADRAN:	Gwasanaeth Seicoleg Addysgol
LLEOLIAD:	
TEITL SWYDD:	Cwnselydd
GRADDFA'R SWYDD:	
YN ATEBOLI:	Pen Seicolegydd Addysg
ORIAU:	
CYFNOD CYFLOGI:	

#### Prif Bwrpas y Swydd

Gweithio fel aelod o'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol i ddarparu gwasanaeth cwnsela i ddisgyblion yn yr ysgol ar sail gwaith achos unigol drwy system apwyntiadau gyfrinachol a gwasanaeth galw heibio.

#### Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion uwchradd yn bennaf, ond gan gynnig gwasanaeth hefyd i ysgolion cynradd sy'n eu bwydo.
- Darparu gwasanaeth cwnsela y tu allan i'r ysgol, lle bo'n briodol.
- Rhoi cefnogaeth a chyfarwyddyd i staff ysgol gan eu galluogi i adnabod a chefnogi disgyblion a chanddynt anawsterau iechyd a lles emosiynol yn well.
- Sefydlu cyswllt effeithiol â staff ysgol, mewn perthynas ag atgyfeirio disgyblion oherwydd materion iechyd meddwl a chwmsela a chefnogi staff ysgol yn eu rôl fugeiliol.
- Cyfrannu tuag at raglenni datblygu staff ar bynciau'n gysylltiedig â iechyd emosiynol a lles, a chefnogi staff ysgol gyda phroblemau disgyblion.
- Hyrwyddo'r gwasanaeth cwnsela drwy ddefnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys arddangosiadau, taflenni, TGCh a sgysiau/cyflwyniadau grŵp.
- Sefydlu, cynnal a monitro systemau gweinyddu priodol ar gyfer atgyfeirio disgyblion a darparu adroddiadau tymhorol o ddata meintiol sydd hefyd yn adolygu a gwerthuso.
- Ymgynghori ag asiantaethau allanol priodol a chydlynu gweithgareddau cysylltiedig yn yr ysgol.
- Datblygu a gweithredu polisiau a gweithdrefnau i lywodraethu'r gwasanaeth cwnsela.
- Sicrhau y cedwir at God Moeseg ac Ymarfer y BACP.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â pherthynasau, a materion personol ac emosiynol ymysg staff a disgyblion, drwy osod arddangosiadau a byrddau hysbysu drwy'r ysgol gyfan.

Hyrwyddo a dosbarthu cylchlythyron sy'n gysylltiedig â'r materion hyn lle bo angen. Hyrwyddo digwyddiadau cenedlaethol a lleol ar faterion iechyd a lles emosiynol ymysg staff a disgyblion.

- Trefnu sesiynau gweithdy / grŵp i drafod materion lles/cwmsela/iechyd meddwl lle bo angen.
- Defnyddio goruchwyliaeth allanol yn rheolaidd, yn unol â chanllawiau'r BACP ac fel y cytunwyd â'r rheolwr llinell.
- Gweithio'n hyblyg yn unol â gofynion y gwasanaeth a chyflawni dyletswyddau eraill yn ôl yr angen, o dro i dro, sydd o fewn gallu deiliad y swydd, gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Llunio adroddiadau ynglŷn â'r gwasanaeth cwmsela ar gais.
- Cyfrannu tuag at hunanasesiad blynyddol y maes a chwarae rhan weithgar wrth enwi a gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol.
- Mynychu cynadleddau, cyrsiau a gweithdai i ddiweddarau ei arbenigedd ym maes cwmsela.
- Cymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal a diogelu data, o fewn cwmpas y swydd.
- Ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau eraill sy'n gymesur â graddfa a chyflog y swydd, a ystyrir yn briodol gan y Rheolwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth.

CEIDW'R AWDURDOD YR HAWL I NEWID Y SWYDD DDISGRIFIAD HWN ER MWYN  
ADLEWYRCHU NEWIDIADAU YNG NGOFYNION Y SWYDD, A BYDD HYN YN CAEL EI WNEUD  
MEWN YMGYNGHORIAD Â CHI.

### iii. Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person Enghreifftiol

#### Castell-Nedd Port Talbot – Manyleb y Person

Pwrpas y ddogfen hon yw eich galluogi, fel ymgeisydd, i ystyried a oes gennych y rhinweddau sydd eu hangen i gael eich penodi i'r swydd hon ai peidio. Nodwch fod y ddogfen hon yn cynnwys y rhinweddau hynny yr ystyrir eu bod yn hanfodol i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd hon, a'r rhai hynny nad ydynt ond yn ddymunol. Os nad oes gennych unrhyw rai o'r rhinweddau dymunol, nid yw hyn yn golygu na fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer cyfweiliad, neu ar gyfer y penodiad yn dilyn hynny.

	HANFODOL/ DYMUNOL	DULL O WERTHUSO
<b>Gwybodaeth</b>		
Tystiolaeth o afael clir ary damcaniaethau sy'n sail i'r broses o gwnsela	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweiliad/ Geirda
Gallu dangos sut mae'r uchod yn llywio ymagweddau'r ymgeisydd tuag at gwnsela drwy'r sbectrwm o ddatblygiad dynol	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweiliad
Dealltwriaeth o Fframwaith Moesegol y BACP ar gyfer Arfer Da wrth Gwmsela a'r gallu i weithio oddi mewn i'r fframwaith hwnnw	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweiliad
Hyddysg mewn Amddiffyn Plant	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweiliad
Ymwybyddiaeth o ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â'r rôl gwmsela	Dymunol	Ffurflen gais/Cyfweiliad
Cyfarwydd â Chod Ymarfer AAA Cymru 2002	Dymunol	Ffurflen gais/Cyfweiliad
Llythrennedd TGCh	Dymunol	Ffurflen gais
Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	Ffurflen gais
<b>Profiad</b>		
Tystiolaeth o ymarfer wedi'i oruchwylio ar ôl cymhwyso	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweiliad
Profiad o weithio ac o gysylltu ag asiantaethau eraill a chyda grwpiau amrywiol o gleientiaid	Hanfodol	Ffurflen gais
Profiad o gwmsela mewn amgylchedd addysg	Dymunol	Ffurflen gais

Profiad o weithio gyda phlant oedran ysgol	Dymunol	Ffurflen gais
Profiad o gyfrannu tuag at werthuso gwasanaeth	Dymunol	Ffurflen gais
Profiad o drefnu gweithdai ac o ddarparu hyfforddiant i eraill	Dymunol	Ffurflen gais
<b>Sgiliau/Gallu</b>		
Sgiliau cyfathrebu da, yn ysgrifenedig ac ar lafar	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad
Ymrwymiad tuag at y cysyniad o addysg gynhwysol a disgwyliadau a chyflawniadau uchel i bob disgybl	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad
Gallu gweithio 'n dda dan bwysau, barnu 'n ddeallus a dangos sensitifrwydd	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad
Gallu parchu cyfrinachedd sy'n briodol i'r amgylchiadau	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad
Gallu cadw cofnodion priodol a manwl gywir a llunio adroddiadau yn ôl yr angen – yn rhan o'r gwaith o werthuso'r gwasanaeth	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad
<b>Cymwysterau</b>		
Addysg hyd at lefel Diploma Proffesiynol (Cwnsela)	Hanfodol	Ffurflen gais/gweld tystysgrifau gwreiddiol
Achrediad/wedi cofrestru gyda'r BACP neu'r UKCP neu gyfatebol	Hanfodol	Ffurflen gais/gweld tystysgrifau gwreiddiol
Cymhwyster addysgol	Dymunol	Ffurflen gais/gweld tystysgrifau gwreiddiol
<b>Rhinweddau Personol</b>		
Gallu addasu ac ymateb i anghenion newidiol	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad
Dull gofalgar a sensitif	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad
Prawf o allu i gadw pen dan bwysau	Hanfodol	Ffurflen gais/Cyfweliad/ Geirda



## iv. Cytundebau Lefel Gwasanaeth

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr Prosiect Cwnsela Ieuenctid CBSPO: Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion

#### Yn cynnwys:

##### ATODIAD A

Mathau o broblemau a gyflwynir gan bobl ifanc mewn sesiwn gwnsela

##### ATODIAD B

Materion y dylai staff fod yn ymwybodol ohonynt wrth ystyried atgyfeirio disgyblion i dderbyn cwnsela

##### ATODIAD C

Polisiau y mae'n rhaid i gwnselwyr a gyflogir gan y Prosiect Cwnsela Ieuenctid ymrwymo iddynt a chadw atynt wrth ymarfer cwnsela

Lluniwyd gan Emma Dalgleish, Rheolwr Cwnsela, Prosiect Cwnsela Ieuenctid CBSPO, 2008

### 1. Safonau a Gweithdrefnau'r Gwasanaeth

#### 1.1 RÔLY CWNSELYDD

##### 1.1.1. Diffiniad o Gwnsela

- Cwnsela yw'r grefft o helpu pobl ifanc â phroblemau ac anawsterau personol ac o ran datblygiad, gan anelu i'w galluogi i fyw mewn modd mwy bodlon a chreadigol. Mae'n cynnig cyfle i'r unigolyn ifanc gynyddu ei hunanymwybyddiaeth, datblygu'i adnoddau personol a'i ddealltwriaeth o'i broblemau ei hun, yn ogystal â datblygu strategaethau i ymdopi â newid.
- Bydd y cwnselydd yn galluogi'r unigolyn ifanc i ganolbwyntio ar ei bryderon, gan roi mecanwaith iddo archwilio problemau penodol, gwneud penderfyniadau, ymdopi ag argyfwng, gweithio drwy deimladau sy'n gwrthdaro â'i gilydd a gwella'i berthynas ag eraill.
- Gall y cwnselydd gynnig amgylchedd diogel a chefnogol i unigolyn ifanc gael trafod materion anodd yn gyfrinachol, a bydd yn gwrandao ar safbwyntiau, profiadau a theimladau'r unigolyn ifanc heb ei farnu, mewn amgylchedd lle ceir parch ac empathi'n seiliedig ar berthynas waith ddiogel, lawn ymddiriedaeth.

##### 1.1.2. Rôl y Cwnselydd

- Darparu gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc 11-18 oed sydd wedi cofrestru yn yr ysgol fel disgyblion cyfredol.
- Trefnu a gweinyddu'r gwasanaeth cwnsela mewn cydweithrediad â staff ysgol.
- Cysylltu â staff wrth atgyfeirio achosion i asiantaethau ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys y gwasanaethau iechyd, addysg a lles statudol yn ogystal â gwirfoddol, ac wrth dderbyn achosion a atgyfeiriwyd gan yr asiantaethau hynny. Bydd hyn yn cynnwys asiantaethau fel CAMHS, Gwasanaethau Plant a'r gwasanaethau eirioli, ieuenctid a gyrfaoedd.

- Gweithredu fel adnodd i staff ysgol, drwy gynnig cipolwg ar i gwnsela a hybu'r gwasanaeth lle bo modd.
- Cadw cofnodion manwl gywir o sesiynau cwnsela, ac ysgrifennu adroddiadau yn ôl yr angen.
- Cadw a datblygu arfer proffesiynol drwy reolaeth reolaidd a pharhau a goruchwlio a hyfforddiant, a thrwy gymryd rhan yn y gwaith o werthuso ac archwilio'r gwasanaeth.
- Ymarfer cwnsela'n unol â'r Ethical Framework for Good Practice in Counselling & Psychotherapy, a gyhoeddwyd gan y BACP, sydd wedi cael ei fabwysiadu gan y prosiect hwn, fel aelod prosiect o'r sefydliad.

### 1.13 Rôl yr ysgol a'r athro

- Bydd gan bob ysgol athro/athrawon wedi'i enwebu/wedi'u henwebu a fydd yn gyfrifol am y gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ac yn unigolion cyswllt ar ei gyfer. Lle bo'n bosibl, bydd eu rôl hefyd yn cynnwys bod yn Athro Amddiffyn Plant. Os nad ydynt yn gyfrifol am y rôl honno, rhaid i'r cwnselydd sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Athro Amddiffyn Plant yn ogystal â'r athro a enwebwyd i drafod materion amddiffyn plant.
- Bydd yr athro a enwebwyd yn cysylltu â'r cwnselydd i drafod unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â lles disgyblion sy'n cael eu cwnsela ar hyn o bryd, unrhyw faterion amddiffyn plant perthnasol, apwyntiadau, atgyfeiriadau neu restrau aros o ddisgyblion ysgol.
- Bydd yn hysbysu ac yn cyfeirio sylw'r Athro Amddiffyn Plantat unrhyw ddatgeliadau gan bobl ifanc o niwed honedig gan eraill neu i'r hunan ac yn gweithio gyda'r Athro Amddiffyn Plant i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbynnir â'r asiantaethau priodol a chanddynt ddyletswydd a phwerau statudol i ymchwilio ac ymyrryd lle bo angen.
- Bydd yr athro a enwebwyd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth cwnsela ac yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gwasanaeth ymysg staff, rhieni, ac asiantaethau allanol lle bo'n briodol.
- Ni chaiff unrhyw ysgol gychwyn unrhyw negodi nac ymrwymo i unrhyw gcontract am wasanaethau cwnsela preifat â chwnselydd a gyflogir gan Brosiect Cwmsela Ieuentid CBSP tra bo'r cwnselydd yn gyflogedig yn yr ysgol, oni bai fod trafodaeth wedi'i chynnal a bod y Rheolwr Cwmsela Ieuentid/Pen Swyddog Ieuentid wedi rhoi caniatâd diamwys ymlaen llaw ar gyfer hyn.
- Wrth lofnodi'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, mae pob ysgol yn cytuno i ymrwymo i gcontract â Phrosiect Cwmsela Ieuentid CBSPO fesul blwyddyn i gyflogi cwnselydd ar gyfer gwasanaethau cwnsela am nifer benodedig o oriau ac mewn lleoliadau penodedig yn CBSPO.
- Os yw unrhyw ysgol sy'n cymryd rhan yn dymuno tynnu'n ôl o'r Cynllun Cwmsela Ieuentid, bydd yr ysgol honno'n parhau i dalu am wasanaethau cwnsela hyd ddiwedd y tymor academiaidd pan gyflwynwyd y rhybudd ynglŷn â thynnu'n ôl.

- Os ceir unrhyw honiadau, cwynion neu bryderon yn erbyn unrhyw gwnselydd ysgol, dylid hysbysu'r Rheolwr Cwnsela leuenctid cyn gynted ag sy'n bosibl, a bydd yntau'n gweithio ar y cyd â'r ysgol i ddatrys unrhyw faterion sydd angen sylw.

### 1.2. CYMWYSTERAU A PHROFIAD

- Dylai pob cwnselydd a benodir feddu ar gymhwyster cwnsela ffurfiol, megis Diploma mewn Cwnsela, yn ogystal ag ystod o brofiad priodol.
- Penodir pob cwnselydd yn amodol ar wiriad boddhaol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (lefel fanylach).
- Anogir pob cwnselydd i weithio tuag at achrediad unigol gyda Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) lle bo modd.
- Mae disgrifiadau swydd a manylebau person ar gael ar gais.

### 1.3 TELERAU AC AMODAU

#### 1.3.1. Cyflogaeth

- Cyflogir cwnselwyr y Gwasanaeth leuenctid gan Wasanaeth leuenctid CBSPO, yn seiliedig ar gontract blynyddol.
- Rheolir yr holl gwnselwyr gan y Rheolwr Cwnsela, ac ar lefel uwch gan y Pen Swyddog leuenctid.
- Mae'r prosiect a rheolwr y prosiect wedi'u lleoli yn Swyddfeydd y Gwasanaeth leuenctid, Hen Ysgol yr Eglwys, Heol Maesteg, Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr.
- Ni chaiff unrhyw Gwnselydd a gyflogir gan y Prosiect Cwnsela leuenctid gychwyn unrhyw negodi nac ymrwymo i unrhyw gontract ag unrhyw ysgol y maent yn gweithio ynddi, i ddarparu gwasanaethau cwnsela drwy drefniant preifat tra bônt yn cael eu cyflogi gan Wasanaeth leuenctid CBSPO, heb gael caniatâd diamwys ymlaen llaw ar gyfer hynny gan y Rheolwr Cwnsela leuenctid ac/neu'r Pen Swyddog leuenctid.
- Os torrir yr amod hwn mewn unrhyw ffordd, bydd hynny'n cael ei ystyried yn dor-contract, ac yn gamymddwyn difrifol ar ran y cyflogai.

#### 1.3.2. Cyflog a Chostau

- Telir pob cwnselydd fesul diwrnod gan y Gwasanaeth leuenctid am y gost o ddarparu cwnsela mewn ysgolion, gan gynnwys costau uniongyrchol a milltiroedd. Ailgodir y tâl hwn gan ysgolion fesul tymor.

#### 1.3.3. Oriau

- Cyflogir pob cwnselydd i ddarparu gwasanaeth cwnsela i ysgolion yn ystod oriau ysgol arferol. Bydd hyn fel arfer yn golygu bod ysgol yn talu am ddiwrnod gwaith o 6.5 awr oni fydd y Rheolwr Cwnsela a chynrychiolydd cydnabyddedig o'r ysgol sy'n cymryd rhan yn cytuno'n benodol fel arall.

- Mae angen i ysgolion a chwrselwyr fel ei gilydd fod yn ymwybodol o adegau lle bydd angen i gwnselwyr fod yn fwy hyblyg a rhoi cefnogaeth ychwanegol cyn i'r ysgol ddechrau, neu ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben, mewn amgylchiadau eithriadol, fel arfer mewn perthynas ag atgyfeiriad amddiffyn plant. Codir tâl gan ysgolion am holl oriau gwaith ychwanegol y cwnselydd, yn amodol ar gymeradwyo hynny ymlaen llaw gyda'r ysgol.

#### 1.4. ADNODDAU

- Disgwylir i'r ysgol ddarparu adnoddau priodol i'r cwnselydd. Dyma'r adnoddau hynny:
  1. Neilltuo ystafell gwrsela a gofod swyddfa priodol ar amser y cytunir arno ac yn unol â pholisiau lechyd a Diogelwch yn y Gwaith.
  2. Y cwnselydd i gael desg i'w defnyddio a mynediad at linell ffôn gyfrinachol.
  3. Llyfr(au) atgyfeirio/apwyntiadau i'w cadw gan y cwnselydd a'r athro a enwebwyd. Gwneir apwyntiadau gan y cwnselydd, ac ni ddylid eu newid ond yn unol â chyfarwyddyd y cwnselydd, ar y cyd â'r athro a enwebwyd.

#### 1.5 TREFNIADAETH

##### 1.5.1. Atgyfeirio

- Gweler Atodiad A am fanylion y mathau o broblemau sy'n briodol i'w hatgyfeirio i'r gwasanaeth cwnsela.
- Derbynnir atgyfeiriadau i bobl ifanc am gwnsela yn yr ysgol gan unrhyw randdeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, rhieni, athrawon, swyddogion lles, nyrsys ysgol, y Tîm Troseddau Ieuencid, Meddygon Teulu, Gwasanaethau Plant, CAMHS, Gweithwyr Ieuencid ac ati. Lle bo modd, bydd y bobl berthnasol yn cysylltu ac yn trafod y mater yn anffurfiol cyn gwneud atgyfeiriad ffurfiol.
- Wrth atgyfeirio disgybl i dderbyn cwnsela gan y cwnselydd ysgol, mae angen i athrawon fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cydsyniad rhieni ar gyfer disgyblion sy'n 16 oed neu'n iau na hynny. Er mwyn i'r disgybl fod yn gymwys i dderbyn cwnsela, rhaid iddo ddeall natur cwnsela a gallu ymrwymo i gontract cwnsela llafar dilys, gan gynnwys y gallu i ddeall egwyddor cyfrinachedd a'r angen i anwybyddu hyn os ceir honiadau bod unigolyn ifanc mewn perygl o beri niwed iddo'i hun neu o gael ei niweidio gan rywun arall.
- Bydd atgyfeiriadau arferol yn cael eu nodi yn y llyfr apwyntiadau ac atgyfeirio a'r disgyblion hynny'n cael eu gweld cyn gynted ag sy'n bosibl. Bydd achosion brys yn cael eu gweld yn y sesiwn nesaf sydd wedi'i chanslo, neu'r apwyntiad rhydd nesaf neu, mewn amgylchiadau eithriadol, ar ddiwrnod gwaith nesaf y cwnselydd, yn amodol ar drafodaeth â'r cwnselydd a'r athro a enwebwyd.
- Wrth atgyfeirio, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r athro a enwebwyd yn nodi'i ganfyddiadau ynghylch faint o frys sydd i'r sefyllfa ac a yw'n ystyried bod yr unigolyn ifanc mewn perygl ai peidio, ac i ba raddau, lle bo modd. Mae'n hanfodol hysbysu'r cwnselydd os cafodd yr unigolyn ifanc ei weld yn y gorffennol

gan/os yw'n gweithio gydag unrhyw asiantaethau eraill ar hyn o bryd fel CAMHS, Gwasanaethau Plant, Prosiect Taith a lefel gyfredol yr ymglymiad hwnnw. Dylai'r athro a enwebwyd hefyd hysbysu'r cwnselydd os yw'r disgybl yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal, ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, neu os cafwyd unrhyw honiadau o ymddygiad rhywiol amhriodol yn y gorffennol. Gweler y manylion yn Atodiad B.

- Mae cleientiaid sy'n derbyn cymorth gan asiantaethau eraill ar hyn o bryd yn gymwys i'w hatgyfeirio i'r gwasanaeth cwnsela, ar yr amod nad ymddengys bod unrhyw wrthdaro ag unrhyw achos cyfreithiol sydd ar ddod, cymorth neu ymyrriadau a roddir i'r unigolyn ifanc gan eraill, ac yn unol â dymuniadau'r cleient. Mae angen i gwmselwyr fod yn dra ymwybodol o'r ffaith y gallai achlysuron godi lle bydd gwybodaeth a ddatgelir yn ystod sesiwn gwmsela'n cael ei chynnwys yn rhan o achos cyfreithiol neu weithredu cyfreithiol, ac y gallai fod yn ofynnol iddynt roi tystiolaeth neu gyflwyno adroddiadau ynglŷn â'u cleient gyda hyn. Mewn sefyllfaoedd felly, hysbysir cwnselwyr ynglŷn â Phrotocol Therapi Cyn Achos CBSPO, ac fe'u hymrwymir i'r protocol hwnnw, a dylent ofyn am gyfarwyddyd gan y Rheolwr Cwnsela ac/neu'r Uned Amddiffyn Plant mewn achosion unigol cyn dechrau cwnsela unigolyn ifanc.
- Wrth atgyfeirio i'r Gwasanaethau Plant ac/neu CAMHS, mae cwnselydd yn ymrwymedig i Bolisi Amddiffyn Plant CBSPO, y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a Pholisi Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i gwmselydd ganfod a rhoi gwybod am achosion posibl o niwed i blant neu bobl ifanc, drwy'r athro amddiffyn plant, sy'n deillio o unrhyw ddatgeliadau a wneir gan ddisgybl, os yw cwnselydd yn gwybod, yn pryderu, neu'n amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o gael niwed. Bydd hyn yn cynnwys datgeliadau'n ymwneud â cham-drin corfforol, emosiynol ac/neu rywiol ac/neu esgeulustod honedig iddo ef ei hun neu gan eraill, a fydd yn bwysicach nag unrhyw gytundeb cyfrinachedd a wnaed rhwng y cwnselydd a'r cleient.
- Rhaid i unrhyw ddatgeliadau sy'n ymwneud â niwed sydd ar fin digwydd i'r hunan, er enghraifft drwy hunan-niwed, mynegiant o fwriad neu ymdrech(ion) i gyflawni hunanladdiad, gael eu trosglwyddo i'r athro amddiffyn plant a fydd yn ymdrechu i gysylltu â rhieni'r disgybl a phwysleisio'r angen i sicrhau apwyntiad ar frys gyda Meddyg Teulu'r disgybl cyn gynted ag sy'n bosibl. Gall y cwnselydd hefyd gysylltu â'r Tîm Iechyd Meddwl Cychwynnol am gyngor a chymorth yn yr amgylchiadau hyn os yw'r cwnselydd yn teimlo y byddai hynny o fudd.
- Ar gyfer pob atgyfeiriad i CAMHS nad oes brys ar ei gyfer, bydd y cwnselydd yn atgyfeirio i CAMHS drwy lenwi'r ffurflen atgyfeirio briodol.
- Bydd angen cyflwyno atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant gyda phob atgyfeiriad i CAMHS, a hynny ar yr un pryd.
- Ar adegau gallai cynnig cwnsela i ddisgybl fod yn amhriodol, er enghraifft yn ystod rhai cyfnodau o weithredu/achos cyfreithiol. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'n briodol i unigolyn ifanc dderbyn cwnsela, dylid hysbysu'r Rheolwr Cwnsela a chynnal trafodaeth i egluro'r materion dan sylw, er mwyn ystyried a oes angen cynnal asesiad risg, ac ystyried y ffordd orau o symud ymlaen.

### 1.5.2 Rhestr Aros

- Bydd y cwnselydd ac/neu'r athro a enwebwyd yn gweithredu rhestr aros ar gyfer disgyblion sy'n dymuno derbyn cwnsela – bydd pob cleient nad yw'n cael ei weld ar unwaith yn cael gwybod ei fod wedi'i gynnwys ar y rhestr aros ac yn cael syniad o'r amser y mae'n rhaid aros i gael apwyntiad gyda'r cwnselydd.
- Dylai'r athro a enwebwyd geisio canfod faint o frys sydd i'r atgyfeiriad, ac os tybir bod yr atgyfeiriad yn un brys, dylai gydweithio â'r cwnselydd i alluogi'r disgybl i dderbyn cwnsela cyn gynted ag sy'n bosibl, ac ystyried a ddylid cynnwys asiantaethau ychwanegol fel CAMHS a'r Gwasanaethau Plant hefyd.

### 1.5.3. Asesu

- Wrth dderbyn cwnsela, bydd pob cleient yn cael ei asesu, fel arfer ar un neu ddau achlysur, drwy ddefnyddio Dull Asesu Bwrdd Graddfa Rickter. Dyma ddyfais sy'n gallu monitro cynnydd cleient a'r pellter emosiynol a 'deithiwyd' mewn 10 maes penodol.

### 1.5.4. Adolygu

Ar ôl oddeutu 6 o sesiynau, bydd y contract cwnsela'n cael ei adolygu a'r cwnselydd yn asesu cynnydd, cymhelliant ac argaeledd y cleient ac a oes unrhyw waith defnyddiol ar ôl i'w wneud o hyd. Cynigir mwy o sesiynau os teimlir bod hynny'n briodol, a bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal ar ôl y sesiynau hynny.

### 1.5.5. Rhyddhau

Wrth baratoi i ryddhau'r cleient, bydd y cwnselydd yn trafod unrhyw anghenion parhaus sydd ganddo ac yn gwneud (neu'n galluogi'r cleient i wneud) trefniadau neu atgyfeiriadau priodol. Os bydd y cleient ac/neu'r cwnselydd yn teimlo nad oes angen unrhyw sesiynau bellach, bydd un sesiwn olaf yn cael ei chynnig a'r cleient yn cael ei ryddhau. Trafodir hyn gyda'r unigolyn ifanc a'r athro a enwebwyd a bydd unrhyw gam priodol yn cael ei gymryd e.e. atgyfeirio i wasanaethau ac/neu asiantaethau eraill.

### 1.5.6. Cyfrinachedd nodiadau

- Ni fydd modd i staff ysgolion gael mynediad at nodiadau cwnsela, a fydd yn parhau ym meddiant y cwnselydd. Fodd bynnag, mae angen i'r cwnselydd fod yn ymwybodol y gallai fod angen iddo ddatgelu cynnwys y nodiadau mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. achos cyfreithiol.
- Cyfrifoldeb y cwnselydd yw sicrhau bod yr athro a enwebwyd yn derbyn digon o adborth ynglŷn â chynnydd a chanlyniadau'r broses gwnsela, er mwyn gwerthuso a yw'r unigolyn ifanc yn cael budd o dderbyn cwnsela ac/neu a oes angen i'r athro fod yn ymwybodol o unrhyw angen am gymorth ychwanegol yn yr ysgol, yn ystod yr wythnos ysgol, heb dorri cyfrinachedd yr unigolyn ifanc.

### 1.5.7. Ymgynghori

- Bydd y cwnselydd yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu rhwydwaith o gysylltiadau agos yn y gwasanaethau atgyfeirio priodol, e.e. CAMHS, Gwasanaethau Plant ac unrhyw wasanaethau cefnogi a mentora statudol neu wirfoddol eraill i bobl ifanc.

### 1.6. CEFNOGAETH, GORUCHWYLIAETH A HYFFORDDIANT

- Darperir cefnogaeth reoli, goruchwyliaeth cymheiriaid a goruchwyliaeth bersonol gan Brosiect Cwnsela Ieuencid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn unol â'r sesiynau a neilltuwyd ar eu cyfer ac anghenion unigol y cwnselydd. Goruchwylir ymarfer clinigol cwnselwyr gan oruchwylydd cwnsela allanol â chymwysterau priodol.
- Disgwylir i gwmselwyr barhau i ddatblygu eu harbenigedd a'u sgiliau drwy hyfforddiant a datblygiad personol a phroffesiynol parhaus.

### 1.7. TREFNIADAU MONITRO

- Bydd y Rheolwr Cwnsela, ar ran Gwasanaeth Cwnsela Ieuencid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn cytuno ar drefn i fonitro maint ac ansawdd y gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd adolygu rheolaidd lle cyflwynir gwybodaeth berthnasol a materion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth a lle cânt eu trafod.

### 1.8. MONITRO A GWERTHUSO'R GWASANAETH

- Bydd y Rheolwr Cwnsela'n casglu data proses, gan gynnwys ffurflenni cofrestru a chyswllt cleientiaid, asesiadau graddfa Rickter a data am faterion cyflwyno yn rheolaidd gan gwmselwyr ysgolion. Bydd y data a gesglir yn rhan o adroddiad blynyddol ehangach ynglŷn â'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn flynyddol.
- Anfonir holiaduron gwerthuso at ysgolion unigol yn agos at ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mae dwy ffurflen wedi cael eu llunio – y naill ar gyfer staff, a'r llall i bobl ifanc, a dylai'r athro a enwebwyd ymdrechu i'w dosbarthu i'w llenwi gan gynifer ag sy'n bosibl o staff a disgyblion. Dylid casglu'r rhain a'u hanfon yn ôl at y Rheolwr Cwnsela cyn diwedd y flwyddyn academaidd.
- Bydd cynnwys yr holiaduron gwerthuso gwasanaeth hyn yn rhan o adroddiad blynyddol llawn a, lle bo'n briodol, yn cael eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio gweithredol a strategol yn y dyfodol, er mwyn ystyried safbwyntiau defnyddwyr y gwasanaeth a staff ysgol.

Llofnodwyd ar ran Gwasanaeth Cwnsela Ieuencid CBSPO:

.....

Llofnodwyd ar ran yr ysgol:

.....

Dyddiad:

.....

## iv. Cytundebau Lefel Gwasanaeth

### Gwasanaethau Ieuenctid Sir Fynwy/Ysgol Gyfun Cil-y-coed Cytundeb Cydwasanaethau

#### Bydd Gwasanaethau Ieuenctid Sir Fynwy'n darparu:

- Dau gwnselydd i'r ysgol am ddau ddiwrnod bob wythnos yn ystod y tymor yn unig
- Gwasanaethau i holl ddisgyblion Ysgol Cil-y-coed
- 10 o sesiynau cwnsela 1 awr o hyd dros ddau ddiwrnod yr wythnos
- Goruchwyliaeth unigol unwaith y mis a goruchwyliaeth mewn grŵp bob 6 wythnos
- Gellir darparu mwy o wasanaethau os oes angen yn amodol ar nawdd ac argaeledd staff.

#### Bydd Ysgol Gyfun Cil-y-coed yn darparu:

- Ystafell benodol i fodloni anghenion y gwasanaeth
- System atgyfeirio uniongyrchol
- Ysgol Gyfun Cil-y-coed a Gwasanaethau Ieuenctid Sir Fynwy i gyfarfod bob tymor er mwyn gwerthuso datblygiad y gwasanaeth a thrafod addasrwydd yr achosion a atgyfeiriwyd.

#### Cyfrinachedd

- Mae Prosiect Cwnsela Face 2 Face yn gweithio oddi mewn i Ganllaw Arfer Da'r BACP ar gyfer Cwnsela mewn Ysgolion.
- Bydd y ddarpariaeth hon yn gweithredu'n unol â pholisi cyfrinachedd Face2Face Gwasanaethau Ieuenctid Sir Fynwy.
- Os bydd disgybl yn datgelu Mater Amddiffyn Plant mewn sesiwn, bydd y Cwnselydd yn cysylltu ag aelod staff Amddiffyn Plant dynodedig yr ysgol.

Llofnodwyd a ran Ysgol Gyfun Cil-y-coed :

.....

Llofnodwyd ar ran Gwasanaethau Ieuenctid Sir Fynwy :

.....

Dyddiad:

.....



## v. Y mathau o broblemau a gyflwynir gan bobl ifanc mewn sesiwn gwnsela

<b>1. Camdriniaeth</b>	
1.1	Emosiynol
1.2	Esgeulustod
1.3	Corfforol
1.4	Hiliol
1.5	Treisio
1.6	Rhywiol
1.7	Trais/Ymosodiad
1.8	Arall (nodwch)
1.9	Trais domestig
<b>2. Iechyd</b>	
2.1	Anabledd
2.2	Cyffuriau/Alcohol
2.3	Anhwylder bwyta
2.4	HIV/Aids
2.5	Salwch
2.6	Beichiogrwydd
2.7	Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol
2.8	Arall (nodwch) e.e. syndrom Asperger/awtistiaeth
2.9	Erthylu
2.10	Gamblo
<b>3. Personol/Yr Hunan</b>	
3.1	Gorbryder/straen
3.2	Hunanddinstriol
3.3	Gweithgarwch troseddol
3.4	Iselder
3.5	Materion rhywioldeb
3.6	Hunaniaeth o ran rhywedd
3.7	Hunaniaeth
3.8	Anhwylder obsesiynol cymhellol
3.9	Digwyddiad trawmatig
3.10	Hunan-barch
3.11	Hunan-niwed
3.12	Cyfnodau pontio
3.13	Arall (nodwch)
3.14	Diffyg datblygiad emosiynol
3.15	Dicter
3.16	Trefn bersonol
<b>4. Hil/Diwylliant</b>	
4.1	Gwahaniaethu
4.2	Arall (nodwch)
4.3	Hunaniaeth
4.4	Pwysau oherwydd disgwyliadau diwylliannol
4.5	Teuluoedd sy'n Deithwyr
<b>5. Cyd-berthnasau – Teulu</b>	
5.1	Profedigaeth
5.2	Materion teuluol anodd
5.3	Rhiant/rhieni
5.4	Anghenion/d disgwyliadau rhieni
5.6	Brodyr/chwirydd
5.7	Materion sy'n ymwneud â gwahanu/tor-teulu
5.8	Llysdeulu
5.9	Arall (nodwch)

---

5.10 Plant sy'n derbyn gofal

---

5.11 Mabwysiadu

---

5.12 Ymddygiad gartref

---

## **6. Cyd-berthynasau – Eraill**

6.1 Profedigaeth

---

6.2 Cariad (o'r un rhyw neu heterorywiol)

---

6.3 Ymddygiad rhywiol amhriodol

---

6.4 Ynysu/unigrwydd

---

6.5 Cyd-berthynasau â chyfoedion

---

6.6 Arall (nodwch)

---

6.7 Y berthynas gwnsela

---

## **7. Ysgol**

7.1 Problemau presenoldeb

---

7.2 Ymddygiad/Dadrithiad

---

7.3 Profiad o'r ysgol/lefelau straen

---

7.4 Ffobia

---

7.5 Cyd-berthynasau

---

7.6 Cyfnodau pontio

---

7.8 Arall (nodwch)

---

7.9 Bwlio

---

7.10 Pryderon ynglŷn â gyrfa

---

## vi. Materion y dylai staff fod yn ymwybodol ohonynt wrth ystyried atgyfeirio disgybl i dderbyn cwnsela

Mae cwnsela'n cefnogi iechyd emosiynol y disgybl sy'n sail ar gyfer cyflawniad academiaidd ac yn hwyluso'r broses o feithrin a rheoli cyd-berthynasau buddiol yn amgylchedd yr ysgol.

Mae'r cwnsela therapiwtig un i un a ddarperir i'r disgyblion yn rhan greiddiol o'r gwasanaeth, ac yn cynnwys cysylltu ac ymgynghori â staff. Noder na ddylid holi unigolyn ifanc ynglŷn â'r sesiynau a fynychwyd ganddo. Mae'n bosibl na fydd pobl ifanc (am amryw o resymau) am i'w cyfoedion wybod eu bod yn gweld y cwnselydd ysgol. Mae angen ystyried sut i reoli'r modd y bydd yr unigolyn ifanc yn derbyn gwybodaeth, sut i siarad ag ef ynglŷn â chwnsela a sut y bydd yn cael ei esgusodi o wersi er mwyn mynychu sesiynau cwnsela'n gyfrinachol.

### Ystyriwch y materion canlynol wrth atgyfeirio disgybl i dderbyn cwnsela:

1. Beth yw eich rhesymau dros atgyfeirio?
2. A oes unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol ynglŷn â chefnidir y teulu, arhosiad i'r ysbty neu ymglymiad unrhyw asiantaethau eraill?
3. Sut mae'r disgybl yn ymdopi yn yr ysgol? (yn academiaidd, yn gymdeithasol, o ran ymddygiad)
4. Sut ydych chi'n disgwyl y bydd cwnsela'n helpu'r disgybl hwn?
5. A drafodwyd atgyfeirio'n llawn â'r disgybl ac a yw wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â chwnsela?
6. A gynhaliwyd trafodaeth gyda'r disgybl ynglŷn â'r penderfyniad i hysbysu'r rhieni ai peidio?

### Dyma rai dangosyddion cyffredin sy'n galw am atgyfeirio i dderbyn cwnsela:

- Gostyngiad mawr yn safon y gwaith a gyflawnir gan y disgybl
- Troi'n dadedog neu orgynhyrfu
- Newidiadau sydyn, hwyliau ansad ac/neu ymddygiad sy'n ymddangos yn eithafol, neu fel pe bai'n wahanol i gymeriad yr unigolyn
- Gwrthod mynd i'r ysgol
- Rhai sy'n bwlio eraill a rhai sy'n dioddef oherwydd bwlio
- Os yw'n hysbys, neu os amheuir eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, yn gorfforol neu'n emosiynol
- Yn cael anawsterau oherwydd tor-teulu
- Anawsterau/cyd-berthynasau â chyfoedion
- Wedi cael profedigaeth, profi colled neu wahanu
- Diffyg hunan-barch

- Hunan-niwed e.e. toriadau
- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Os bydd aelod o staff yr ysgol yn ansicr a ddylid atgyfeirio disgybl i dderbyn cwnsela gallai fod yn ddefnyddiol iddo drafod unrhyw bryderon â'r cwnselydd er mwyn canfod y ffordd orau o symud ymlaen.

- Cyn gynted ag y bydd aelod o staff yr ysgol yn siŵr mai atgyfeirio yw'r cam priodol, dylai gysylltu ag aelod o staff sy'n gyfrifol am gysylltu â'r gwasanaeth cwnsela. Mae angen sicrhau bod y mater yn cael ei drin mor gyfrinachol a chynnil ag sy'n bosibl, a pharchu hawl yr unigolyn ifanc i breifatrwydd. Ni ddylai'r mater gael ei drafod ymysg athrawon ond ar sail yr angen i wybod yn unig.
- Dylid cyfeirio ac atgyfeirio disgybl i dderbyn cwnsela mewn modd sensitif gyda'r disgybl hwnnw. Gall yr aelod o staff sy'n gyfrifol am gwnsela, neu rywun arall y mae'r disgybl yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo wneud hyn.
- Mae'n hanfodol bod sesiynau cwnsela'n cael eu hystyried yn wirfoddol a chyfrinachol a'u bod yn ddull o gefnogi yn hytrach na disgyblu'r disgybl. Dylid mynegi'n glir fod y sesiynau'n gyfle i siarad am broblemau a phryderon er mwyn ceisio'u datrys neu ganfod ffyrdd haws i'w rheoli. Mae'r sesiwn gyntaf yn gyfle i'r cwnselydd a'r cleient benderfynu a ddylid cymryd rhan mewn sesiynau cwnsela ai peidio.

## vii. Taflenni Gwybodaeth Enghreifftiol

### Plant a phobl ifanc

#### Beth yw ystyr cwnsela?

Weithiau bydd gan bob un ohonom broblemau sy'n ein poeni. Meddylia am jig-so cymhleth lle mae'n anodd canfod unrhyw ddarn sy'n cyfateb â darn arall. Mae siarad am broblem mewn sesiwn gwnsela fel didoli'r holl ddarnau er mwyn gallu dechrau creu darlun sy'n gwneud mwy o synnwyr i ni.

Weithiau mae'n anodd siarad â rhieni, ffrindiau neu athrawon am bethau sy'n peri pryder i ni. Mae cwnselydd yn rhywun y gelli di siarad ag ef mewn ffordd wahanol, rhywun fydd yn gwrando arnat ti'n ofalus iawn, ac na fydd yn dy feirniadu nac yn dweud wrthyti beth i'w wneud.

Ystyr cwnsela yw dy helpu di i ddatrys pethau drosot ti dy hun, gan wneud penderfyniadau a'th helpu di i edrych ar bethau'n wahanol. Gall dy helpu i deimlo'n well amdanat ti dy hun.

#### Pa fath o bethau fydd pobl yn siarad amdany'n nhw mewn sesiynau cwnsela?

Beth bynnag sydd o bwys iddyn nhw. Beth bynnag sy'n eu poeni. Gallai hyn gynnwys amrywiaeth o bethau gwahanol. Dyma rai enghreifftiau o broblemau a rhai cwestiynau a theimladau a allai fod gennyti:

##### RHIENI'N GWAHANU

Ai fy mai i yw hyn? Ers i'w perthynas ddod i ben, mae hi ar ben arna i hefyd.

##### DIFFYG TREFN YN Y CARTREF

Rydw i eisiau mynd allan gyda fy ffrindiau a gwneud fy mhenderfyniadau fy hun. Rwy'n ffraeo gyda'm rhieni i drwy'r amser. Dydyn nhw byth yn gwrando arna i – pam y dylwn i wrando amyn nhw???

##### GWNEUD/CADW FFRINDIAU

Mae hi fel pe bai gan bawb arall lwyth o ffrindiau. Does gen i ddim. Beth sy'n bod arna i?

##### RWY'N TEIMLO'N DDIG OND HEB WYBOD PAM

Rwy'n poeni gan fy mod i'n teimlo fel gwylltio gyda phobl drwy'r amser. Alla i ddim fy rheoli i fy hun. Rydw i bob amser mewn trafferth gartref ac yn yr ysgol oherwydd hynny.

##### MAE 'NA FWLIS AR FY ÔL I

Dydw i ddim eisiau dod i'r ysgol. Mae bwllis yn fy mhoeni i bob dydd, ac mae pethau'n mynd yn waeth.

##### EI CHAEL HI'N ANODD YN YR YSGOL

Mae'r gwaith yn pentyrru. Rydw i'n fwyfwy ar ei hôl hi. Mae hi fel pe bawn i'n methu bwrw iddi. Rwy'n teimlo'n waeth ac yn waeth wrth i hyn fynd yn ei flaen.

##### RHYWUN ARBENNIG YN MARW

Mae gen i gymaint o hiraeth amdano/amdani. Wna i fyth ddod drwy hyn. Fel hyn y bydd hi am byth. Does neb yn deall pa mor ddrwg rwy'n teimlo.

##### FY NHEIMLADAU AMDANAF FI FY HUN

Weithiau dydw i ddim yn deall fy nheimpladau na pham rwy'n profi'r teimpladau hynny.

## Sut fydda i'n gwybod a yw Cwnsela'n gweddu i mi?

Gelli di gwrdd â'r cwnselydd am un neu fwy o sesiynau er mwyn penderfynu drosot ti dy hun. Cei gyfle i holi cwestiynau a gweld sut rwyf ti'n teimlo.

Byddi di'n trafod lleoliad/amser y sesiwn gyda'r cwnselydd, a pha mor aml y byddwch yn cyfarfod.

Mae cwnsela'n wirfoddol. Ti piau'r dewis ynglŷn â derbyn y gwasanaeth ai peidio. Beth bynnag y gwnei di benderfynu – bydd hynny'n iawn.

## Mae fy mhroblemau a'm pryderon yn breifat. A fydd pobl eraill yn gwybod yr hyn yr ydw i wedi bod yn ei drafod?

Na fyddant. Mae'r hyn yr wyt ti'n ei ddweud yn gyfrinachol. Mae hynny'n golygu mai dim ond ti a'r cwnselydd fydd yn gwybod amdano. Dyma gyfle i ti fod yng nghwmni rhywun sydd yno i ti a neb arall. Yn amlwg, os wyt ti am drafod yr hyn a drafodwyd yn y sesiwn gwnsela ag unrhyw un arall, dy benderfyniad di yw hynny. Bydd y cwnselydd yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol oni bai fod perygl i ti gael dy niweidio - bryd hynny, mae'n bosibl y bydd angen i'r cwnselydd siarad â rhywun arall er mwyn helpu i'th ddiogelu, ond bydd bob amser yn ceisio siarad â ti ynglŷn â hyn i ddechrau.

## A fydd unrhyw beth yn cael ei ysgrifennu amdanaf?

Mae cadw gwybodaeth ynglŷn â phobl yn ddiogel ac yn gyfrinachol yn bwysig iawn i'r cwnselydd.

Bydd y cwnselydd yn gwneud nodiadau ynglŷn â'r hyn a drafodwyd yn y sesiwn. Bydd y rhain yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet ffeilio wedi'i gloi. Bydd unrhyw wybodaeth a ysgrifennir ac a drafodir yn breifat a chyfrinachol, oni bai fod angen tra phwysig neu y cytunwyd arno i rannu'r wybodaeth honno er dy fudd.

Bydd cwnselydd yn cyflwyno'i waith yn rheolaidd i oruchwylydd cwnsela. Mae'r unigolyn hwn yn gwneud yn siŵr fod y cwnselydd yn gwneud gwaith da gyda ti. Ni fydd dy enw na'th ysgol yn cael eu crybwyll.

## Sut alla i drefnu i weld y Cwnselydd?

Bydd hyn yn cael ei addasu i gyfateb â threfniadau lleol yr ysgol, ond bydd egwyddorion hygrychedd ac ati'n parhau.

Efallai fod rhywun wedi argymhell hynny i ti, neu gelli di ddechrau'r broses dy hun drwy siarad ag aelod o staff yr wyt yn ymddiried ynddo – dy diwtor dosbarth o bosib, neu Bennaeth Bugeiliol yr Ysgol.

Gelli fynychu sesiynau cwnsela heb i'th rieni gael gwybod am hynny. Bydd ffurflen cais am gwnsela'n cael ei llenwi a'i chyflwyno i'th gwnselydd. Bydd hwnnw/honno'n dy gyfarfod pan fydd ganddo/ganddi sesiwn wag, er mwyn trafod yr hyn yr wyt ti am ei wneud. Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion yn cysylltu â'th rieni/gofalwyr er mwyn cael cydsyniad i ti fynychu sesiynau cwnsela. Byddwn yn gofyn i ti am dy farn ynglŷn â hyn, ac yn rhoi pwys mawr ar y farn honno.

Ar ôl i'r sesiynau cwnsela ddod i ben, byddwn yn anfon ffurflen werthuso atat i'w llenwi. Mae'r ffurflen yn gyfrinachol, oni bai dy fod yn dewis rhoi dy enw arni. Bydd dy adborth yn rhoi gwybod i ba raddau yr ydym yn helpu'r plant a'r bobl ifanc a welwn. Os oes gennyt unrhyw bryderon neu gwynion, mae croeso i ti naill ai siarad â'th gwnselydd neu gysylltu â Rheolwry Gwasanaeth Cwnsela neu aelod o staff yr ysgol.

### Dyma rai sylwadau gan ddisgyblion ar ôl iddynt fynychu sesiynau cwnsela...

"Mae mynd i'r sesiynau cwnsela wedi fy helpu i'n fawr. Rwyf wedi gallu trafod fy mhroblemau yn lle'u cloi nhw i mewn, fel yr oeddwn i'n arfer ei wneud. Mae'r sesiynau wedi bod o gymorth mawr iawn i mi."

"Gwnaeth cwnsela fy helpu i ddeall fy mhroblemau a'u goresgyn."

"Mae cwnsela wedi fy helpu i'n wirioneddol i siarad mwy â'm teulu a phobl o'm hamgylch yr oeddwn i'n gallu siarad â nhw."

"Mae cwnsela wedi fy helpu i fod â mwy o hyder yn of fi fy hun."

"Dydw i ddim yn teimlo cywilydd wrth gyfaddef fod angen cymorth arna i, oherwydd rwy'n gwybod nawr nad fi yw'r unig un."

## vii. Taflenni Gwybodaeth Enghreifftiol

### Rhieni a Gofalwyr

#### Beth yw Cwmsela?

Y cyfle i blentyn neu rywun ifanc siarad yn gyfrinachol â chwmselydd cymwys am y pethau hynny sydd yn eu poeni. Bydd cynnwys y trafod yn dibynnu ar yr unigolyn ond mae straen, perthynas pobl â'i gilydd, newidiadau, colled a digwyddiadau trist a brawychus yn themâu cyffredin.

#### Beth yw gwaith Cwmselydd?

Mae cwmselwyr wedi'u hyfforddi i wrando heb feirniadu ac i helpu pobl i gael trefn ar eu meddyliau a'u teimladau ynghylch beth bynnag sy'n peri pryder iddynt.

#### Pwy yw'r Cwmselwyr?

Maen nhw'n gwmselwyr proffesiynol a phrofiadol sydd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

#### Pam cael Cwmselydd mewn ysgol?

Mae darparu gwasanaeth cwmselydd mewn ysgol yn dod â chwmsela at blant a phobl ifanc mewn man sydd yn gyfarwydd, yn ddiogel ac yn sicr. Os bydd plant a phobl ifanc yn gallu derbyn cefnogaeth emosiynol gan gwmselydd cymwys a phroffesiynol bydd ganddynt gyfle gwell i gyflawni'u potensial.

#### Pa mor hir fydd y cwmsela'n para?

Gall fod am ychydig sesiynau neu dros gyfnod hirach. Adolygir hyn yn rheolaidd rhwng y cwmselydd a'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.

#### Pryd ac ymhle y bydd yn digwydd?

Fel arfer, bydd ystafell fechan, breifat yn cael ei neilltuo yn ysgol eich plentyn yn ystod y dydd. Bydd y sesiynau'n para hyd at bum deg o funudau (yn dibynnu ar yr amgylchiadau), a gellir amrywio amserau'r cyfweiliadau i osgoi colli amser o'r un pwnc o hyd.

#### Ydy hyn yn gyfrinachol?

Un o nodweddion amlwg ein gwasanaeth yw bod unrhyw wybodaeth a drafodir yn y sesiwn gwmsela'n cael ei thrin yn gyfrinachol. Mae cwmsela'n gyfle i siarad am bryderon heb ofni y byddan nhw'n cael eu trafod yn rhywle arall. Mae hyn yn golygu na fydd y gwaith yn cael ei drafod gyda'r rhieni, oni bai fod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gofyn am hynny neu'n rhoi caniatâd. Gall hyn fod yn anodd i rieni'i dderbyn ar brydiau, ond mae sicrhau cyfrinachedd y gwaith yn hanfodol bwysig wrth ennyn ymddiriedaeth fel bod y plant a'r bobl ifanc yn teimlo'n hyderus i siarad yn agored ac yn rhydd am yr hyn sy'n eu poeni.

Fodd bynnag, pan fydd hi'n ymddangos bod disgybl yn agored i niwed sylweddol gall fod yn briodol ceisio cymorth gan asiantaethau eraill er mwyn ei ddiogelu. Byddai'r cwmselydd yn trafod hyn yn gyntaf â'r disgybl dan sylw.

Arolygir pob cwmselydd sy'n gweithio â phobl ifanc, i sicrhau ansawdd eu gwaith, a gwneir hyn mewn modd cyfrinachol.



## Beth os nad wyf yn dymuno i'm plentyn weld cwnselydd?

Os bydd plentyn neu unigolyn ifanc yn gwneud cais am gwnsela ac yn gallu deall natur y broses, mae ganddynt hawl i fynd at gwnselydd. Ni chaiff rhieni na gofalwyr eu hamddifadu o'r hawl honno. Byddai'n well gennym, fodd bynnag, gael eich cefnogaeth chi yn y gwaith, ac rydym yn fwy na pharod bob amser i drafod unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â'r syniad o gwnsela.

## Beth os bydd y plentyn/unigolyn ifanc yn gwrthod derbyn cwnsela?

Fel gydag oedolyn, mae penderfyniad plant neu bobl ifanc i fanteisio ar gwnsela ai peidio'n gwbl wirfoddol.

## Alla i fod yn gefn i'r gwaith cwnsela?

Gallwch, ac rydyn ni'n croesawu hynny. Mae ein profiad ni'n tystio i'r ffaith mai'r peth gorau y gall rhieni'i wneud er mwyn helpu yw dangos eu bod yn derbyn cwnsela fel gweithgaredd normal a buddiol, a dangos diddordeb os bydd eu mab/merch yn dymuno sôn am y peth, ond peidio â phwyso am wybodaeth os mai fel arall y mae hi. Rydyn ni'n cydnabod nad tasg hawdd mo hon, ac mae hi'n eithaf naturiol i rieni deimlo'n bryderus ynglŷn â'r hyn a ddywedir yn y sesiynau.

Ein gobaith ni bob amser yw y bydd siarad â chwnselydd yn arwain at fod yn fwy agored gyda rhieni a theuluoedd, ond bydd angen ichi aros ychydig efallai cyn i hyn ddigwydd.

## Ydy'r ffaith fod fy mhentyn yn dymuno gweld Cwnselydd yn golygu fy mod i, fel rhiant, yn methu?

Nac ydy, yn bendant! Bydd pob un ohonom o dro i dro yn ei chael hi'n anodd trafod y pethau sy'n ein poeni gyda'r rhai sydd agosaf atom. Efallai bod hynny'n digwydd yn aml am ein bod yn awyddus i beidio â phoeni'n hanwyliaid, neu am fod angen help arnom i drin a thrafod pethau gyda rhywun arall oddi allan i'r teulu. Ni fydd y Cwnselydd yn eich beirmiadu chi na'ch plentyn, ond yn ceisio'i helpu i ddatrys unrhyw broblem sy'n peri pryder.

## Sut y bydd disgybl yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Cwnsela?

Gall hyn ddigwydd drwy system fugeiliol yr ysgol, drwy bennaeth blwyddyn eich plentyn, neu gall fod yn gais gennych chi neu gan eich plentyn sydd yn gallu'i gyfeirio'i hun.

## Gweithdrefnau Diogelu Data a Gwerthuso

Cedwir pob gwybodaeth ynghylch y gwaith cwnsela y mae ein staff yn ei wneud yn ddiogel gan y Gwasanaeth Cwnsela yn unol â'r rheoliadau cyfredol ynglŷn â diogelu data. Ar ôl i'r cwnsela ddod i ben bydd eich plentyn yn derbyn ffurflen werthuso i'w llenwi'n ddienw a'i dychwelyd. Mae hyn yn rhoi gwybod inni i ba raddau yr ydyn ni'n llwyddo i helpu'r plant a'r bobl ifanc a welwn. Os oes achos cwyno, mae croeso ichi neu'ch plentyn gysylltu â'r Cwnselydd neu 'Reolwr y Gwasanaeth' a fydd yn ceisio datrys unrhyw bryderon.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ymhellach ar ôl darllen yr wybodaeth hon, mae croeso ichi gysylltu â ni. Am fwy o wybodaeth cewch ofyn am sgwrs gyda'r cwnselydd.

### **Dyma rai sylwadau gan ddisgyblion sydd wedi derbyn cwnsela. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall sut mae pobl ifanc yn elwa**

"Mae mynd i'r sesiynau cwnsela wedi fy helpu i'n fawr. Rwyf wedi gallu trafod fy mhroblemau yn lle'u cloi nhw i mewn, fel yr oeddwn i'n arfer ei wneud. Mae'r sesiynau wedi bod o gymorth mawr iawn i mi."

"Gwnaeth cwnsela fy helpu i ddeall fy mhroblemau a'u goresgyn."

"Mae cwnsela wedi fy helpu i'n wirioneddol i siarad mwy â'm teulu a phobl o'm hamgylch yr oeddwn i'n gallu siarad â nhw."

"Mae cwnsela wedi fy helpu i fod â mwy o hyder yn of fi fy hun."

"Dydw i ddim yn teimlo cywilydd wrth gyfaddef fod angen cymorth arna i, oherwydd rwy'n gwybod nawr nad fi yw'r unig un."

## vii. Taflenni Gwybodaeth Enghreifftiol

### Staff yr Ysgol

Mae'r Gwasanaeth Cwmsela'n cefnogi iechyd emosiynol disgyblion, ac mae hynny'n sail i gyflawniad academaidd ac yn hwyluso'r broses o feithrin a rheoli cyd-berthynasau buddiol yn amgylchedd yr ysgol. Rydym yn ceisio deall y deinameg a'r ymagweddau aml-asiantaeth sydd ar gael yn yr ysgol; y problemau sydd gan bobl ifanc; y cyfyng-gyngor y mae aelodau prysur o staff yn ei wynebu a phryderon rhieni/gofalwyr.

Mae'r cwmsela therapiwtig un i un a ddarperir i'r disgyblion ar ôl cysylltu ac ymgynghori â staff yn rhan greiddiol o'r gwasanaeth.

### Rhai materion i'r staff fod yn ymwybodol ohonynt wrth ystyried atgyfeirio disgybl i dderbyn gwasanaeth cwmsela:

- Gostyngiad mawr yn safon y gwaith
- Troi'n dawedog neu orgynhyrfu; hwyliau ansad, ymddygiad sy'n wahanol i gymeriad yr unigolyn
- Gwrthod mynd i'r ysgol
- Rhai sy'n bwlio eraill a rhai sy'n cael eu bwlio gan eraill
- Anawsterau oherwydd tor-teulu
- Anawsterau/cyd-berthynasau â chyfoedion
- Profedigaeth neu brofiad o golled neu wahanu
- Diffyg hunan-barch
- Hunan-niwed e.e. toriadau.

### Dyma rai cwestiynau allweddol i'w holi:

Y camau a gymerwyd eisoes i geisio datrys y sefyllfa, ac ymateb yr unigolyn i hynny

Pa mor eithafol yw'r ymddygiad neu'r agwedd?

Am ba mor hir y mae wedi digwydd, neu pa mor aml y mae wedi digwydd?

Pa mor sydyn fu'r newid?

Ayw aelodau eraill o staff yn rhannu'ch pryderon?

Sut mae'r ymddygiad yn effeithio ar eraill yng nghymuned yr ysgol?

Os ydych yn ansicr a ddylid atgyfeirio'r unigolyn i dderbyn cwmsela, gallai fod yn ddefnyddiol i chi drafod unrhyw bryderon â'r cwmselydd er mwyn cadarnhau'r ffordd orau i symud ymlaen.

1. Cyn gynted ag y byddwch yn siŵr mai atgyfeirio yw'r cam priodol, mae angen i chi ddilyn protocol atgyfeirio'r ysgol.

2. Mae angen trafod y syniad o dderbyn cwnsela mewn modd sensitif gyda'r disgybl. Gall yr aelod o staff sy'n gyfrifol am gwnsela, neu rywun arall y mae'r disgybl yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo wneud hyn. Efallai y byddwch yn cael y 'Daflen Wybodaeth ynglŷn â Chwmsela i Blant a Phobl Ifanc' yn ddefnyddiol wrth i chi siarad â nhw ynglŷn â'r syniad o dderbyn cwnsela. Mae'n eu helpu i ddeall yr hyn y mae cwmsela'n ei olygu, a'i fod yn ymagwedd normal a chyffredin i gefnogi plant a phobl ifanc gydag anawsterau. Os eglurir hyn iddynt yn ofalus, gall wneud gwahaniaeth mawr wrth iddynt benderfynu mynychu'r apwyntiad cyntaf ai peidio, neu wneud gwahaniaeth mawr i'w hagwedd wrth fynychu'r apwyntiad hwnnw.
3. Mae'n wasanaeth cyfrinachol y bydd pobl yn gwirfoddoli i'w dderbyn ac yn ddull o gefnogi yn hytrach na disgyblu. Dylid cyfleu'n glir mai cyfle ydyw i drafod problemau a phryderon er mwyn ceisio eu datrys neu ganfod ffyrdd haws o'u rheoli. Er mwyn hysbysu eu rhieni gallant fynd â'r daflen 'Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr ynglŷn â Chwmsela yn yr Ysgol' gyda nhw, neu ei hanfon adref.

Mae'r sesiwn gyntaf yn gyfle iddynt benderfynu a ydynt am gytuno i dderbyn cwmsela ai peidio.

Mae'r holl gwmselwyr yn darparu'r gwasanaeth yn unol ag 'Ethical Framework for Good Practice' Cymdeithas Cwmsela a Seicotherapi Prydain (BACP). Mae ein trefn oruchwyllo a chadw cofnodion (oddi mewn i ganllawiau diogelu data), ein ffurflenni gwerthuso a'n gweithdrefnau cwyno oll yn cydymffurfio â chanllawiau'r BACP. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, mae croeso i chi eu trafod â'r cwmselydd neu Reolwr y Gwasanaeth.

## viii. Cais Cyfrinachol

Cwmselydd Ysgol am Wasanaeth

---

ENW:

DYDDIAD YR ATGYFERIAD GWREIDDIOL:

GWRYW/BENYW:

GRŴP BLWYDDYN:

YSAWL SY'N ATGYFEIRIO:

---

YRHESWM DROS ATGYFEIRIO

1. Beth sy'n peri pryder i chi?

---

---

---

---

---

2. Unrhyw wybodaeth berthnasol am gefndir y disgybl, neu ddigwyddiadau pwysig yn ei fywyd?

---

---

---

---

---

3. Sut mae'r disgybl yn ymdopi yn yr ysgol (yn academiaidd/gymdeithasol/o ran ymddygiad)?

---

---

---

---

4. A ydych wedi trafod y posibilrwydd o gwnsela gyda'r disgybl? Beth oedd ei ymateb?

---

---

---

---

---

5. Sut ydych chi'n gobeithio y gallai cwnsela helpu'r disgybl?

---

---

---

---

---

6. A yw rhieni'r disgybl yn ymwybodol o hyn? Beth yw eu hymateb?

---

---

---

---

---

7. A ydych yn ymwybodol o unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n gweithio gyda'r disgybl?

---

---

---

---

---

## viii. Cais Cyfrinachol

### Tîm Cwnsela Face 2 Face

CAIS GAN:

DYDDIAD:

ASIANTAETH/SEFYDLIAD:

CYFEIRIAD:

RHIF FFÔN:

BRYS Y CAIS (1 ISEL – 10 UCHEL):

ENW'R UNIGOLYN IFANC:

DYDDIAD GENI:

CYFEIRIAD:

RHIF FFÔN SYMUDOLYR UNIGOLYN IFANC:

Ceisiwch nodi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl, gan y bydd hyn yn galluogi'r unigolyn ifanc i gael ei asesu cyn gynted ag sy'n bosibl.

Am resymau'n ymwneud â chyfrinachedd, rhowch wybod i'r unigolyn ifanc am yr atgyfeiriad hwn, a'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno.

Mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth a gyflwynir yn cael ei rhannu â'r Cydlynnydd Cwnsela a'r Rheolwr Llinell.

**Pa mor hir y mae pryderon wedi bod yn gysylltiedig â'r unigolyn ifanc?**

**A oes gan yr unigolyn ifanc unrhyw broblemau iechyd/cymdeithasol?  
Rhowch fanylion cryno**

**A yw'r unigolyn ifanc yn cael unrhyw gymorth/gefnogaeth gan**

- |   |   |   |
|---|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gyfoedion              | <input type="checkbox"/> Tîm Troseddau Ieuencid | <input type="checkbox"/> Swyddog Lles Addysg      |
| <input type="checkbox"/> Gwas. Cymdeithasol     | <input type="checkbox"/> Mynediad Ieuencid      | <input type="checkbox"/> Meddygfeydd Teulu        |
| <input type="checkbox"/> Cyngh. Iechyd yr Ysgol | <input type="checkbox"/> Seicolegydd Addysg     | <input type="checkbox"/> Iechyd/Meddwl Cychwynnol |

## ix. Aseu Risg – Prosiect Cwnsela Ieuenctid

DATGANIAD O FWRIAD:	Mae Prosiect Cwnsela Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwmo i ddarparu cwnsela mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol heb unrhyw beryglon
GWEITHGAREDD:	Cwnsela wyneb yn wyneb â Phobl Ifanc
LLEOLIAD:	Yn Ysgolion CBSPO, Canolfannau Ieuenctid a Chymuned ac leoliadau asiantaethau eraill yn CBSP
DYDDIAD:	Mehefin 2007

RHESTR O BERYGLON YN DEILLIO O WEITHGAREDDAU	MESURAU RHEOLI SYDD WEDI'U SEFYDLU I LEIHU'R PERYGLA ACHOSIR GAN Y RISG	TREFNIADAU I SICRHU BOD Y MESURAU RHEOLI'N PARHAU I GAEL EU GWEITHREDU'N EFFEITHIOL
1. Gallai unigolyn ifanc gam-drin neu ymosod ar y cwnselydd yn eiriol neu'n gorfforol.	<p>Dylai'r Cwnselydd ddilyn y mesurau canlynol i'w ddiogelu ei hun a'i gleientiaid.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai Cwnselwyr gynnal asesiad risg personol o'r ystafell y maent wedi'i chael ac ystyried eu diogelwch personol ar bob achlysur. Dylent sicrhau bod athro a enwebwyd neu weithiwr ieuenctid / cymunedol yn ymwybodol o leoliad yr ystafell maent yn ei defnyddio, ac ni ddylent gynnig cwnsela yn unrhyw fan arall oni chytunir ar hynny ymlaen llaw gydag athro / gweithiwr ieuenctid.</li> <li>Wrth weithio mewn ysgol, ni ddylai cwnselwyr fyth adael yr ystafell gwnsela gydag unigolyn ifanc, oni bai fod rheswm da dros wneud hynny.</li> <li>Os oes modd, dylai'r ystafell gwnsela fod o fewn clyw i'r athro cyswllt neu o leiaf yn agos at staff addysgu neu fugeiliol eraill.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu ar unwaith â'r Rheolwr Cwnsela i drafod unrhyw faterion sydd wedi'u hamlygu.</li> <li>Adolygiadau rheolaidd yng Nghyfarfodydd Tîm Cwnselwyr o unrhyw faterion aseu risg sydd wedi codi.</li> <li>Y Rheolwr Cwnsela i gysylltu ag athrawon cyswllt / gweithwyr ieuenctid i werthuso'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwnsela.</li> <li>Rheoli Risg i fod yn rhan o'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela.</li> <li>Os ceir unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu honiadau rhaid i'r cwnselwyr gofnodi'r wybodaeth yn briodol ac ystyried yn ofalus a allant barhau i weithio â'r unigolyn ifanc hwnnw. Dylid anfon gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau, damweiniau neu honiadau mewn ysgrifen at y Rheolwr Cwnsela cyn gynted ag sy'n bosibl. Ysgogir hyn gan y Rheolwr Cwnsela a'r Pen Swyddog Ieuenctid.</li> </ul>



<p>2. Mae gan yr unigolyn ifanc hanes (honedig) o ymddygiad rhywiol annerbyniol</p> <p>3. Mae gan yr unigolyn ifanc hanes (honedig) o wneud honiadau yn erbyn staff/pobl ifanc eraill</p>	<p>Wrth weithio gydag unigolyn ifanc, dylai cwmselwyr ystyried unrhyw risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gweithio gydag unigolyn ifanc penodol a cheisio sefydlu a oes hanes o drais neu o wneud honiadau, a phenderfynu ar sail yr wybodaeth honno a fyddai'n ddiogel ac yn briodol i gynnig cwmsela i'r unigolyn ifanc hwnnw.</p> <p>Dylai'r cwmselydd ystyried natur a hanes honiadau blaenorol, lefel y risg a ganfyddir ac a fyddai unrhyw fesurau rheoli'n lleihau neu gael gwared a'r posibilrwydd o niwed i'r cwmselydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff cwmselwyr ddefnyddio recordiadau tâp neu gael recordydd tâp amlwg ar yr amod bod yr unigolyn ifanc yn cydsynio i hynny.</li> <li>• Dylai cwmselwyr osgoi unrhyw gyswllt corfforol ag unigolyn ifanc lle bo modd.</li> <li>• Ni ddylai cwmselwyr fyth rannu manylion eu cyfeiriad na'u rhif ffôn cartref. Dylai unrhyw gyswllt rhwng cwmselydd / cleient y tu allan i'r sesiwn gwmsela ddigwydd fel arfer drwy athro cyswllt neu weithiwr ieuenctid.</li> <li>• Ni ddylai cwmselwyr roi rhif ffôn symudol i unigolyn ifanc, oni bai fod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau hynny. Dylid trafod a chytuno ar hyn ymlaen llaw gyda'r Rheolwr Cwmsela.</li> </ul>	
---	---	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r cwnselydd yn cadw'r hawl i wrthod cwnsela unigolyn ifanc, ar ôl ymgynghori, os yw'n teimlo ei bod hi'n wirioneddol bosibl y gallai ddiodeff ymosodiad rhywiol, corfforol ac/neu eiriol.</li> </ul>	
4. Mae angen triniaeth frys ar y cwnselydd neu'r unigolyn ifanc.	Os oes angen triniaeth frys / feddygol, dylid sicrhau mynediad at gymorth cyntaf cyn gynted ag sy'n bosibl.	
5. Mae'r unigolyn ifanc neu aelod o'r teulu'n ceisio cysylltu â'r cwnselydd y tu allan i amser y sesiwn. Er enghraifft, unigolyn diamddiffyn sy'n ceisio cefnogaeth ychwanegol.	Os yw cwnselydd o'r farn bod ar unigolyn ifanc angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod sesiynau gan ei fod yn agored i niwed, dylai sicrhau cydsyniad yr unigolyn ifanc i'w atgyfeirio a'i gysylltu â systemau cefnogi amgen.	
6. Honiad o dorri cyfrinachedd neu o gamymarfer ar ran y cwnselydd tuag at yr unigolyn ifanc.	Os bydd unigolyn yn teimlo bod tor cyfrinachedd neu fath arall o gamymarfer wedi digwydd, rhaid ei hysbysu ynglŷn â'r Weithdrefn Gwynion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a hefyd drwy BACP (fel sefydliad sy'n aelod o'r gymdeithas honno). Dylid rhoi gwybod i'r Rheolwr Cwnsela am unrhyw gwynion a bydd y Rheolwr Cwnsela a'r Pen Swyddog Ieuencid yn ymchwilio iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl.	

# x. Cofnod o Wasanaethau Cwmsela a Ddarparwyd

## Gwasanaeth Cwmsela yn yr Ysgol

ENW'R CWNSELYDD:

YSGOL:

RHIF YR ANFONEB BERTHNASOL:

ANFONEB AR GYFER MIS:

DYDDIADAU SYDD WEDI'U CYNNWYS YN YR ANFONEB:

NIFER Y BOBL IFANC A DDERBYNIODD WASANAETH CWNSELA Y MIS HWN:

NIFER Y SESYNAU A GYNHALMWYD Y MIS HWN:

NIFER YR ATGYFEIRIADAU NEWYDD Y MIS HWN:

NIFER YR ACHOSION A GAEWYD Y MIS HWN:

NIFER YR ACHOSION BYW AR DDIWEDD Y MIS:

LLOFNOD:

Cwmselydd

DYDDIAD:

LLOFNOD:

Pennaeth

DYDDIAD:

LLOFNOD:

Unigolyn Cyswllt yr AALI

Dylid glynu'r ffurflen hon wrth yr anfoneb berthnasol a'i chyflwyno bob mis i'r Pennaeth.

## xi. Y Broses Gyfeirio

### Sir Benfro

UNIGOLYN IFANC YN GWEITHIO GYDAG ATHRAWON, UNIGOLION PROFFESYNOL ERAILL NEU RIENI/WARCHEIDWAID YN PENDERFYNU A HOFFENT FYND I WELD CYNGHORWR YR YSGOL.

GYDA CHYMORTH UNIGOLYN PROFFESYNOL NEU RIANT/WARCHEIDWAID, MAE'R UNIGOLYN IFANCYN CYSYLLTU Â'R CYNGHORWR TRWY UN O'R DULLIAU CANLYNOL:

GALL UNIGOLYN IFANC GYFEIRIO EI HUN YN UNIONGYRCHOL TRWY DDEFNYDDIO UN O'R DULLIAU CANLYNOL:



- Ymweld â'r cyngorwr yn yr ysgol
- Ffonio'r gwasanaeth ar 01646 689739
- Tecstio 078258 44608
- Ebostio'r gwasanaeth [school.counsellor@pembrokeshire.gov.uk](mailto:school.counsellor@pembrokeshire.gov.uk)



Cyngorwr yn trefnu sesiwn gychwynnol gyda'r unigolyn ifanc mewn cysylltiad â'r aelod staff penodedig yn yr ysgol



Aelod staff penodedig yn hysbysu'r pennaeth blwyddyn perthnasol bod yr unigolyn ifanc yn mynd i gael cwnsela.

---

## xi. Y Broses Gyfeirio

### Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Ddinbych

Derbynnir atgyfeiriadau i bobl ifanc am gwnsela yn yr ysgol gan unrhyw randdeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, rhieni, athrawon, swyddogion lles, niysys ysgol, y Tîm Troseddau Ieuencid, Meddygon Teulu, Gwasanaethau Plant, CAMHS, Gweithwyr Ieuencid ac ati. Lle bo modd, cysylltir a thrafodir y mater yn anffurfiol cyn gwneud atgyfeiriad ffurfiol.

	HUNANATGYFEIRIAD	ATGYFEIRIAD GAN ATHRO	ATGYFEIRIAD ARALL
Cyn atgyfeirio	↓	↓	↓
	Unigolyn ifanc yn cael gwybodaeth am gwnsela	Cydgytundeb i atgyfeirio rhwng yr athro a'r unigolyn ifanc	Rhiant neu weithiwr proffesiynol i gysylltu ag unigolyn cyswllt yr ysgol
Atgyfeirio	↓	↓	↓
	Unigolyn ifanc yn hunanatgyfeirio i athro/ unig. cyswllt yr ysgol	Yr athro'n cysylltu ag unig. cyswllt yr ysgol i atgyfeirio	Unig. cyswllt yr ysgol i atgyfeirio
Cyflwyno i'r Panel	↓	↓	↓
	Gwerthuso a Blaenoriaethu – Rhestr aros		
Derbyn	↓	↓	↓
	Cynnig dyddiad ac amser i'r unigolyn ifanc i'w asesu ar gyfer cwnsela		
Cwnsela	↓	↓	↓
	Os canfyddir drwy'r asesiad y byddai'r unigolyn yn addas ar gyfer ymyriad cwnsela, bydd yr unigolyn ifanc yn derbyn 6 sesiwn gwnsela ac adolygiad a fydd yn arwain at derfynu neu barhau â'r cwnsela.		
Sesiwn Ddilynol			
	Pan fydd y cwnsela a'r adolygiad yn arwain at derfynu, trefnir apwyntiad am sesiwn ddilynol ymhen 3 mis.		

Bydd pobl ifanc y mae angen eu gweld ar frys yn cael blaenoriaeth.

Gall yr 'unigolyn cyswllt' fod yn bennaeth blwyddyn/bugeiliol neu'n unigolyn arall dynodedig a gaiff y rôl o gysylltu â'r cwnselydd ysgol.

Mae'n bwysig nodi nad yw cwnsela'n orfodol, ac fe gaiff unigolyn ifanc ddewis peidio derbyn neu barhau i dderbyn gwasanaeth cwnsela. Mae'n hanfodol fod sesiynau cwnsela'n cael eu hystyried yn wirfoddol a'u bod yn ddull o gefnogi yn hytrach na disgyblu'r disgybl.

### Doethineb

Mae'n bosibl na fydd pobl ifanc (am amryw o resymau) am i'w cyfoedion wybod eu bod yn gweld y cwnselydd ysgol. Mae angen ystyried sut i reoli'r modd y bydd yr unigolyn ifanc yn derbyn gwybodaeth, sut i siarad ag ef ynglŷn â chwswela a sut y bydd yn cael ei esgusodi o wersi er mwyn mynychu sesiynau cwnsela'n gyfrinachol.

### Cyfrinachedd

Yn ôl canllawiau Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain ar gwswela mewn ysgolion, mae'r gwasanaeth hwn yn gyfrinachol rhwng y cwnselydd a'r disgybl unigol. (Ni fydd y cwnselydd yn trosglwyddo unrhyw fanylion o'r sesiynau, ond caiff gyfathrebu o dro i dro â staff yr ysgol ynglŷn â chynnydd cyffredinol gyda chydysyniad yr unigolyn ifanc. Nid ymgynghorir ag athrawon nag asiantaethau allanol ond os bydd unigolyn ifanc yn gwybod am hynny, ac yn cydsynio i hynny, oni bai fod angen trafod diogelwch yr unigolyn ifanc)

Ni rennir unrhyw wybodaeth â staff yr ysgol ac eithrio fel y caiff hynny ei ddiffinio yn y polisi amddiffyn plant, a chanllawiau drwy gyfraith Amddiffyn Plant. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau'r ymddiriedaeth sydd ei hangen er mwyn i'r gwasanaeth fodloni anghenion disgyblion.

### Y Gwasanaeth Cwnsela

Pwrpas y gwasanaeth hwn yw darparu cwnsela un wrth un i bobl ifanc yn Sir Ddinbych. Bydd yn cael ei gynnal fel cynllun peilot i ddechrau ac yn cynnwys eich ysgol chi. Cwnsela yw'r grefft o helpu pobl ifanc i ganolbwyntio ar eu pryderon a materion datblygol, gan archwilio problemau penodol, gwneud penderfyniadau, ymdopi â thrychinebau, gweithio drwy deimladau gwrthdrawiadol a gwella'u perthynas ag eraill ar yr un pryd. Gall cwnsela helpu unigolyn ifanc i gael dealltwriaeth well ohono'i hun ac o sefyllfaoedd, a'i helpu hefyd i ddatblygu strategaethau i ymdopi â newid. Gall y cwnselydd gynnig amgylchedd diogel a chefnogol i'r unigolyn ifanc gael siarad am faterion anodd yn gyfrinachol. Bydd y cwnselydd yn gwrandao ar safbwyntiau, profiadau a theimladau'r unigolyn ifanc heb ei farnu, mewn awyrgylch llawn parch ac empathi, ac ymdrechu i ddarparu lle sy'n rhoi cyfle i'r cleient gynyddu ei hunanymwybyddiaeth a'i ddealltwriaeth o'i broblemau ei hun, gyda'r nod o'i alluogi i fyw mewn modd mwy boddhaol a chreadigol.

DIOLCH AM LENW'I'R FFURFLEN HON.

Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Cwnsela mewn Ysgolion.  
Y Ganolfan Addysg, Lôn Ganol, Dinbych, LL16 3UW

## xii. Atgyfeiriad cwnsela newydd

---

I:

GAN:

DYDDIAD:

DISGYBL:

---

### Cwbl Gyfrinachol

Dyma nodyn i'ch hysbysu bod y disgybl uchod wedi gofyn am wasanaeth cwnsela gen i.

Os wyf yn teimlo bod problemau'r disgybl yn addas ar gyfer ymyriad cwnsela byddaf yn cynnig cymorth iddo.

Byddaf yn eich hysbysu pan ddaw'r gwaith i ben, er na fydd hi'n briodol i mi drafod cynnwys y sesiynau oni bai fod y disgybl yn gofyn i mi wneud hynny.

Mae'r disgybl wedi rhoi caniatâd i mi anfon yr wybodaeth hon atoch chi'n unig. Peidiwch â mynd at y disgybl yn uniongyrchol i drafod hyn.

DIOLCH YN FAWR.





## xiv. Cofnod Cleient

Cwmsela yn yr Ysgol: Blwyddyn 1

YSGOL:

RHIF ADNABOD DISGYBL (Rhif y gwasanaeth cwmsela – nid RhUD):

PENNOD RHIF:

DYDDIAD Y SESIWN GYNTAF:

DYDDIAD Y SESIWN OLAF:

### Atgyfeiriad:

- |   |                                 |  |
|---|---------------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> Hunan              | <input type="checkbox"/> Rhieni | <input type="checkbox"/> Staff yr ysgol/addysg arall                           |
| <input type="checkbox"/> Gwas. Cymdeithasol | <input type="checkbox"/> Arall  | <input type="checkbox"/> Iechyd – Meddyg Teulu, yrysbyty, nyrs yr ysgol ac ati |

### Blwyddyn ysgol:

- 7     8     9     10     11     12     13

### Rhyw:

- Gwyn     Benyw

### Ethnicity:

- |  |  |  |
|--|--|--|
| <input type="checkbox"/> Gwyn                      | <input type="checkbox"/> Hil gymysg      | <input type="checkbox"/> Tsieinaidd/Tsieinaidd Prydeinig |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | <input type="checkbox"/> Du/Du Prydeinig | <input type="checkbox"/> Arall                           |
| <input type="checkbox"/> Ddim am ddweud            | <input type="checkbox"/> Anhysbys        |  |

### Anghenion Addysgol Arbennig:

- Dim     Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Gwybyddol a Dysgu     Synhwyrdd ac/neu Gorfforol
- Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

### Cyfeiriadedd Rhywiol:

- Deurywiol     Hoyw/lesbaidd     Heterorywiol     Ddim am ddweud

### Anabledd:

- Oes     Nac oes     Ddim am ddweud

**Crefydd neu gred:**

- |                                 |                                   |   |                                    |
|---------------------------------|-----------------------------------|---|------------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Baha'i | <input type="checkbox"/> Bwdhaidd | <input type="checkbox"/> Cristnogol     | <input type="checkbox"/> Hindwaidd |
| <input type="checkbox"/> Jain   | <input type="checkbox"/> Iddewig  | <input type="checkbox"/> Moslemaidd     | <input type="checkbox"/> Sikh      |
| <input type="checkbox"/> Dim    | <input type="checkbox"/> Arall    | <input type="checkbox"/> Ddim am ddweud |                                    |

**Dewis iaith:****Derbyn Gofal?:**

- 
- Ydy
- 
- Nacydy
- 
- Prefer not to say

**Eglurhad wedi'i roi ynglŷn â chyfrinachedd?**

- 
- Ydy
- 
- Nacydy

**A yw'n gymwys i gydsynio i gwnsela?**

- 
- Ydy
- 
- Nacydy

**Os ddim, a ofynnwyd am ganiatâd rhieni?**

- 
- Ydy
- 
- Nacydy

**A yw'r rhieni'n ymwybodol o hyn?**

- 
- Ydy
- 
- Nacydy
- 
- Ddim yn gwybod

**Atgyfeirio ymlaen:** (Rhowch fanylion)**Materion a gyflwynwyd:****Materion amlycaf:**

MATERION: Nodwch uchafswm o dri o'r categorïau isod yn yr adrannau uchod:

- |  |  |
|--|--|
| Academaidd                                 | Anhwyldeuau BwytaBwlio                           |
| Cam-drin (gan gynnwys camdriniaeth rywiol) | Cam-drin Domestig                                |
| Camddefnyddio sylweddu                     | Dictor   |
| Hunanladdiad                               | Hunan-niwed                                      |
| Hunanwerth                                 | Iselder  |
| Perthynasau ag athrawon                    | Perthynasau ag eraill heblaw rhieni neu athrawon |
| Profedigaeth                               | Pryderon ariannol/tlodi                          |
| Rhywiol (gan gynnwys cyfeiriadedd)         | Straen   |
| Teulu                                      | Yn ymwneud ag ymddygiad                          |
| Arall (nodwch)                             |  |

**Sesiynau:** (nodwch rif)

- |  |   |   |
|--|---|---|
| <input type="checkbox"/> Wedi mynychu                  | <input type="checkbox"/> Heb fynychu        | <input type="checkbox"/> Wedi'i chanslo gan y cwnselydd |
| <input type="checkbox"/> Sesiwn olaf                   | <input type="checkbox"/> Absennol o'r ysgol | <input type="checkbox"/> Wedi'i chanslo gan y disgybl   |
| <input type="checkbox"/> Ffurflen graidd wedi'i llenwi |   |   |

## xv. Holiadur Gwerthuso ar ôl Cwnsela

YSGOL:

GRŴP BLWYDDYN:

GWRYW/BENYW:

DYDDIAD:

	CYTUNO'N GRYF	CYTUNO	DDIMYN GWYBOD	ANGHYT- UNO	ANGHYT- UNONCRF
Roeddwn yn gallu trafod fy nheimpladau a'r hyn a oedd ar fy meddwl gyda'r cwnselydd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cytunodd y cwnselydd i'm helpu i ddeall fy sefyllfa a'm teimpladau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Roeddwn yn deall y byddai'r hyn y buaswn i'n ei ddweud wrthy cwnselydd yn gyfrinachol oni bai fy mod mewn perygl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Buaswn yn gofyn am gael gweld y cwnselydd eto pe bai angen	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Buaswn yn argymhell cwnsela i'm ffrindiau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Roedd yn hawdd cysylltu â'r cwnselydd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rwy'n teimlo fel pe bawn i'n gallu ymdopi'n well yn yr ysgol ers derbyn gwasanaeth cwnsela	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae fy mherthynas gyda'm ffrindiau wedi gwella ers derbyn gwasanaeth cwnsela	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae fy mherthynas gydag athrawon wedi gwella ers i mi dderbyn gwasanaeth cwnsela	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae fy mherthynas gyda'm teulu wedi gwella ers i mi dderbyn gwasanaeth cwnsela	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae fy ymddygiad wedi gwella ers i mi dderbyn gwasanaeth cwnsela	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cefais ddigon o sesiynau cwnsela	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ers derbyn gwasanaeth cwnsela rydw i'n gallu canolbwyntio'n well ar dasgau yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rwy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ers derbyn gwasanaeth cwnsela	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rwy'n meddwl bod cwnsela'n ffordd dda o ymdrin â phroblemau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Buaswn yn ystyried cwnsela yn y dyfodol, hyd yn oed ar ôl i mi adael yr ysgol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Beth oedd y pethau gorau ynglŷn â chwrsela?

---



---

Beth oedd y pethau gwaethaf ynglŷn â chwrsela?

---



---

A oedd dy bresenoldeb yn broblem i ti cyn i ti dderbyn cwrsela?

Oedd  Nac oedd

Os oedd, a yw derbyn gwasanaeth cwrsela wedi'i gwneud hi'n haws i ti ddod i'r ysgol?

Ydy  Nacydy

A allai'r gwasanaeth cwrsela a dderbyniaist fod wedi bod yn wahanol mewn unrhyw ffordd?

Byddai wedi bod yn well pe bai

---

Doeddwn i ddim yn hoffi

---

Unrhyw beth arall?

---

Beth yw dy farn ynglŷn â chael cwrselydd yn dy ysgol?

---

Sut oeddet ti'n teimlo ynglŷn â'r ffaith bod pobl yn dy ysgol yn gwybod dy fod yn gweld cwrselydd?

---

Unrhyw sylwadau eraill?

---

## xvi. Holiadur Staff Ysgol 2007/8

Beth yw eich barn ynglŷn â'r Gwasanaeth Cwnsela?  
Rhowch sylwadau'n seiliedig ar eich canfyddiad o'r gwasanaeth.

A ydych yn meddwl bod y Gwasanaeth Cwnsela wedi helpu pobl ifanc yn eich ysgol?

Ydw  Nac ydw

Os felly, sut?

.....

.....

A ydych yn teimlo bod y system apwyntiadau ac atgyfeirio wedi bod yn llwyddiant?

Ydw  Nac ydw

Os ddim, sut y gellid gwella hyn?

.....

.....

Yn seiliedig ar eich adborth gan bobl ifanc, beth yw eich barn ynglŷn â'r cwnselydd o ran ei ddull o ymarfer, ei broffesiynoldeb a'i agwedd tuag at bobl ifanc?

Ardderchog  Da  Gweddol  Sâl

Yn y gofod isod, nodwch unrhyw sylwadau pellach ynglŷn â'r gwasanaeth.

.....

.....

DIOLCH AM ROI O'CH AMSER. BYDDWN YN TRIN POB ATEB YN GYFRINACHOL.

## xvi. Holiadur Pobl Ifanc 2007/8

Beth yw dy farn ynglŷn â'r Gwasanaeth Cwnsela Ieuencid?  
Rho sylwadau'n seiliedig ar ba mor ddefnyddiol oedd y gwasanaeth i ti.

A wnaeth cyfarfod â Chwmselydd dy helpu?

Do  Naddo

Sut y gwnaeth hynny dy helpu?

.....

.....

A oeddet ti'n teimlo'n gyffyrddus gyda'r Cwmselydd?

Oeddwn  Nac oeddwn

A oeddet yn teimlo bod yr ystafell gwnsela a ddarparwyd yn gyfforddus,  
yn ddiogel ac yn gyfrinachol?

Oeddwn  Nac oeddwn

A oeddet yn teimlo bod y broses apwyntiadau ac atgyfeirio wedi bod yn  
llwyddiant?

Oeddwn  Nac oeddwn

A oes unrhyw agwedd ar y gwasanaeth y gellid ei gwella?

.....

.....

.....

A fyddet yn defnyddio'r gwasanaeth eto?

Buaswn  Na fuaswn

DIOLCH AM ROI O'TH AMSER. BYDDWN YN TRIN POB ATEB YN GYFRINACHOL.  
Emma Dalgleish, Rheolwr Cwnsela Ieuencid

# Byddardod a Chwrsela mewn Ysgolion

**Diffiniad:** Yn y ddogfen hon mae'r term "byddar" yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at blant sydd â nam bychan, canolig, difrifol neu ddwys ar eu clyw. Mae'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at blant sydd â nam ar y ddwy glust a hefyd sydd â nam ar un glust.

Hefyd, dylai chwrselwyr mewn ysgolion ystyried y cyfarwyddyd hwn wrth ymdrin â phlant sy'n dioddef nam dros dro ar eu clyw.

Amcangyfrifir bod plant a phobl ifanc fyddar 60% yn fwy tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl na phlant eraill.<sup>1</sup>

Nid y byddardod ei hun sy'n gyfrifol am y cynnydd yn niferyrachosion o broblemau iechyd emosiynol, ond yn hytrach goblygiadau bod yn fyddar mewn cymdeithas sy'n clywed a'r rhwystrau cyfathrebu sy'n deillio o hynny.

Oherwydd y nifer cynyddol o anawsterau emosiynol ymhlith y boblogaeth fyddar ifanc, mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i hybu meddyliau iach ymhlith disgyblion byddar. Argymhellir fod staff ysgolion yn gweithio'n rhagweithiol â disgyblion byddar i sicrhau eu bod yn gyfforddus ac yn hyderus gyda'u byddardod.

Gan fod rhwystrau cyfathrebu'n gallu golygu bod plant byddar yn fwy agored i broblemau iechyd emosiynol, mae'n bwysig hefyd sicrhau bod cymuned yr ysgol yn cynnwys plant a phobl ifanc fyddar. Er enghraifft, dylai'r holl staff a phlant yng nghymuned yr ysgol dderbyn hyfforddiant i'w gwneud yn fwy ymwybodol o fyddardod.

## Cwrsela plentyn byddar

Yn ogystal â hybu meddyliau iach, mae'n bwysig bod ysgolion yn sicrhau bod ei gwasanaethau chwrsela'n darparu ar gyfer anghenion penodol plant a phobl ifanc fyddar. Drwy wneud hyn, bydd yn ei gwneud yn haws i ddisgyblion byddar ddefnyddio'r gwasanaeth os/pa bryd bynnag fydd ei angen arnynt.

Yn union fel pob plentyn arall, gall plant byddar brofi anawsterau emosiynol am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â'u byddardod. Fodd bynnag, mae'n bwysig er hynny bod chwrselwyr yn deall byddardod a'r heriau penodol y mae plant a phobl ifanc fyddar yn gallu eu hwynebu.

Hefyd, mae'n hanfodol bod chwrselwyr ysgol yn deall y gwahanol ddulliau o gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc fyddar.

Yn ôl yr amgylchiadau unigol, dylid gofyn am gymorth/cyngor/atgyfeiriad gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Rhaid cofio bod pob plentyn byddar yn wahanol a bydd angen cynllunio sesiynau sy'n seiliedig ar

<sup>1</sup> Department of Health (2005), *Mental Health and Deafness: Towards Equity and Access*

anghenion cyfathrebu penodol y plentyn... ond dyma ychydig o awgrymiadau i'w cadw mewn cof:

### 1. Sicrhau bod yr amgylchiadau'n briodol

Mae llawer o blant byddar yn dibynnu ar ddarllen gwefusau a defnydd o sain i gyfathrebu. Gall golau gwael wneud darllen gwefusau'n anodd a gall synau/atseiniau allanol effeithio ar y gallu i gyfathrebu. Mae'n bwysig felly sicrhau bod yr ystafell wedi'i goleuon dda a'i bod yn dawel. Efallai y bydd angen tynnu'r llenni neu symud cadeiriau i wneud cyfathrebu'n haws. Hefyd, dylai'r cwrselydd eistedd gyferbyn â'r disgybl byddar.

Cyn i'r sesiwn ddechrau, dylai'r cwrselydd ofyn i'r plentyn/person ifanc byddar a yw golau a threfn yr ystafell yn addas ar ei gyfer.

### 2. Gwneud cyswllt llygad

Bydd angen i gwrselwyr gwblhau ffurflenni a gwneud nodiadau'n aml yn ystod sesiynau. Er nad yw torri cyswllt llygad o bryd i'w gilydd i wneud nodiadau'n effeithio llawer ar y rhyngweithio â chleient sy'n clywed, gall amharu ar lif y sgwrs â chleient byddar a gall ymddangos yn anghwrtais iddo. Awgrymir felly y dylai'r cwrselydd wneud ei orau i beidio gwneud nodiadau yn ystod y sesiwn. Neu, gallai'r cwrselydd gytuno i gymryd ambell egwyl fer i wneud nodiadau, ond gallai hyn hefyd dorri ar lif y sesiwn.

### 3. Byddwch yn Weledol

Dylid cofio bod ymagwedd pobl ifanc fyddar at y byd yn unweledol. Felly, gall defnyddio technegau gweledol yn ystod sesiynau, megis arddangosiadau, fideo, siartiau troi a byrddau gwyn fod yn ddefnyddiol.

Fod bynnag, dylai cwrselwyr fod yn ofalus i beidio siarad tra maent yn edrych i ffwrdd neu pan mae'r plentyn/disgybl yn edrych ar ddeunydd gweledol.

### 4. Cofiwch ei ysgrifennu!

Cofiwch fod darllen gwefusau neu ddehongli iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn gallu bod yn flinedig. Gall hyn effeithio ar allu plentyn ifanc byddar i gofio gwybodaeth. Felly, byddai'n fuddiol i ysgrifennu pob cytundeb/gweithred/penderfyniad mewn iaith syml i'r person ifanc ei gadw.

Efallai y bydd hefyd angen ysgrifennu unrhyw air y mae'r cwrselydd/person ifanc yn cael anhawster ei ddeall. Gall y dechneg hon fod yn arbennig o ddefnyddiol yn achos plant byddar nad ydynt yn defnyddio iaith arwyddion, ac sydd heb lawer o iaith lafar.

Fodd bynnag, dylech gofio nad yw'r dull hwn yn briodol yn achos pob plentyn byddar. Bydd rhai plant byddar yn cael anhawster ag iaith ysgrifenedig, ac efallai nad fydd gan rai sy'n defnyddio BSL fel iaith gyntaf ddim neu fawr ddim iaith ysgrifenedig. Mewn achosion o'r fath, gall delweddau gweledol fod yn fwy priodol.



### 5. A yw therapiâu siarad cyffredin yn briodol i bob plentyn?

Byddyn rhaid i lawer o blant byddar ganolbwyntio'n galed er mwyn dilyn sgysiau llafar maith, felly dylech feddwl am ffyrdd o dorri'r drafodaeth yn wahanol rannau.

Dylid nodi hefyd y gall llythrennedd rhai plant byddar fod yn hwyr yn datblygu ac y gallai disgrifio emosiynau haniaethol fod yn anodd. Felly, byddai'n syniad da i gael papur a phinnau ffelt lliw wrth law, i alluogi'r plant i dynnu lluniau os ydynt yn cael trafferth i fynegi ar lafar y gair neu'r emosiwn maent yn ei deimlo.

### 6. Gwnewch yn sir bod yr asesiad yn briodol i'r plentyn

Mae'n bwysig eich bod yn sylweddoli na fydd nifer o asesiadau therapiwtig a mesurau safonol yn debygol o roi asesiad priodol o lawer o blant byddar, hyd yn oed ar ôl eu trosi i iaith arwyddion. Gall asesiadau safonol fod yn ddigon yn achos plant ag ymagwedd lafar at ddysgu, ond efallai y bydd angen mabwysiadu ymagwedd fwy agored hefyd i ganfod anghenion therapiwtig. Gall fod yn fuddiol i gysylltu â chorff proffesiynol gyda mwy o brofiad o weithio â phlant byddar.

### 7. Ystyriwch llythrennedd emosiynol y plentyn

Dylech sylweddoli y gall plant byddar fod wedi profi oedi wrth ddysgu iaith. Mae llawer o blant byddar yn ymwybodol o'u teimladau, ond nid

yw'r eirfa ganddynt i roi 'label' arnynt. Bydd deall ac ystyried teimladau'n cyfrannu at allu plentyn i adnabod eu teimladau eu hunain a rhai pobl eraill, ac mae'n eu helpu i reoli'u hemosiynau hefyd.

### A yw'n well ganddo ef/hi ddefnyddio iaith arwyddion?

Bydd rhai plant byddar yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith gyntaf. Mae BSL yn iaith gwbl wahanol i Gymraeg/Saesneg, ac mae ganddi ei strwythur gramadegol ei hun. Gallant ddefnyddio mathau eraill o arwyddo/cyfathrebu hefyd. Peidiwch â cheisio ymlafnio'ch ffordd drwy sesiwn gwnsela ar eich pen eich hun – defnyddiwch gyfieithydd.

Dylid nodi y bydd llawer o blant byddar yn cael eu dysgu drwy ddulliau llafar yn yr ysgol, ond efallai y byddant yn fwy cyfforddus yn defnyddio iaith arwyddion mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Gofynnwch i'r plentyn pa ddull o gyfathrebu yr hoffai ei ddefnyddio yn ystod y sesiwn.

Dyma rai pwyntiau y dylid eu cadw mewn cof wrth weithio â phlentyn/person ifanc y mae'n well ganddo gyfathrebu drwy iaith arwyddion...

#### 1. Trefnwch i gael cyfieithydd priodol

Mae gwahanol fathau o arwyddo; mae SSE (Sign Supported English), er enghraifft, yn sylfaenol wahanol i BSL. Mae'n bwysig eich bod yn cael cyfieithydd sy'n medru cyfieithu yn y dull cyfathrebu o ddewis y person ifanc.

Dylai cwrselwyr sicrhau hefyd fod y person ifanc yn hapus â'r cyfieithydd a ddewiswyd. Efallai na fydd y person ifanc yn gyfforddus wrth ddibynnu ar weithiwr cymorth cyfathrebu arferol yr ysgol mewn cyddestun chwrsela, ac ni ddylid ei orfodi i wneud hynny. Yn yr un modd, efallai na fydd y person ifanc yn hapus i ddefnyddio cyfieithydd mae'n ei weld yn rheolaidd yn y gymuned. Efallai y bydd eraill yn dymuno defnyddio cyfieithydd maent yn teimlo y gall ymddiried yn ddo, neu efallai y bydd yn well gan eraill ddefnyddio cyfieithydd gwrywaidd/benywaidd.

Yn dilyn sesiwn gwrsela, mae hefyd yn werth chweil gofyn i'r person ifanc a oedd yn teimlo'n gyfforddus â'r cyfieithydd cyn trefnu i'w ddefnyddio eto mewn sesiynau dilynol.

Os yn bosibl, dylid defnyddio cyfieithydd sydd â phrofiad o weithio mewn sesiynau chwrsela.

## 2. Siaradwch â mi, nid y cyfieithydd

Mae'r cyfieithydd yno i gyfieithu. Dylai cwrselwyr gydnabod presenoldeb y cyfieithydd, ond dylai gadw cyswllt llygad â'r person ifanc byddar wrth siarad ag ef.

## 3. Cadw'ch olwg ar yr iaith

Mae strwythur a geirfa iaith arwyddion yn wahanol iawn i'r hyn a geir mewn iaith lafar, felly yn aml bydd angen enghreifftiau i wneud synnwyr o gwestiynau penagored. Dylai cwrselwyr fod yn barod i allsod yrystyra cheisio cadw'n glir o gysyniadau haniaethol. Gallai fod yn fuddiol i gwrdd â'r cyfieithydd cyn y sesiwn i drafod y ffordd orau o lunio cwestiynau.

Hefyd, dylech fod yn ymwybodol y gall peth gwybodaeth gael ei "cholli" wrth ei chyfieithu.

## 4. Deall mynegiant yr wyneb

Mae cyfathrebu drwy iaith arwyddion yn defnyddio mynegiant yr wyneb i gyfleu emosiwn a gwybodaeth ramadegol. Dylai cwrselwyr felly fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio canfyddiad personol ac iaith y corff wrth wneud penderfyniad ar les y client, gan fod perygl i hyn arwain at gamddehongli.

Nid oes ateb hawdd i hyn – gofynnwch am gyngor, dysgwch fwy am iaith arwyddion, a gofynnwch i'r person ifanc sut mae'n teimlo os ydych yn ansicr.

## 5. Gweithio â'r cyfieithydd

Gall perthynas waith dda â chyfieithydd helpu i sicrhau bod y sesiwn yn mynd rhagddi'n ddidrafferth. Os oes modd gallai fod yn fuddiol i gwrdd â'r cyfieithydd cyn y sesiwn i drafod y fformat y bwriedir ei ddefnyddio ac arddull y chwrsela.

Os nad ydych wedi gweithio â chyfieithydd o'r blaen, mae'n bwysig cofio efallai y bydd yn rhaid i chi dreiddio'n ddwfn i'r iaith sy'n cael ei ddefnyddio i ganfod ystyr dyfnach – bydd y cyfieithydd yn rhoi'r cyfieithiad gorau o'r hyn y mae cwrselydd/client yn dymuno'i gyfleu, ond hyd yn oed wedyn efallai y bydd angen eglurhad pellach ar y client.

Dylech hefyd fod yn barod i ailadrodd neu aralleirio brawddegau ar gyfery cyfieithydd os bydd yn gofyn.

Dylid meddwl am les y cyfieithydd hefyd. Fodd bynnag, byddwch yn ofalus pan fyddwch yn

siarad â'r cyfieithydd ar ôl y sesiwn – mae perygl i'r disgybl feddwl eich bod yn siarad amdano.

## Deall eich cyfyngiadau a gofyn am gymorth!

Mewn byd perffaith, byddai plant byddar yn derbyn gwasanaeth cwrselwyr sy'n wybodus am fyddardod a diwylliant byddar, yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r heriau arbennig maent yn eu hwynebu. Er enghraifft, ni fydd rhai plant yn teimlo'n fyddar nac yn clywed. Nid yw hyn yn bosibl bob amser, ond y peth pwysig yw bod cwrselwyr yn barod i ddysgu am fyddardod a chymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n gwbl hygyrch. Os yw eich gwybodaeth yn brin, efallai y byddai'n werth i chi gysylltu â'r ysgol/Athro Plant Byddar yr Awdurdod Addysg Lleoli drafod y gwahanol rwystrau y gall plant byddar eu profi. Cewch hefyd fwy o fanylion am fyddardod yn [www.ndcs.org.uk](http://www.ndcs.org.uk)

## Adnoddau eraill

- Mae **Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar (NDCS)** wedi cynhyrchu cyhoeddiad *Healthy Minds*, y gall gweithwyr proffesiynol ei ddefnyddio i hybu lles emosiynol plant byddar 10 i 18 oed. Mae'r pecyn adnoddau hefyd yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc fyddar yn alluog i wynebu'r her o fod yn fyddar mewn byd sy'n clywed.

Mae'r NDCS hefyd wedi cyhoeddi *What are you feeling?*, arweiniad i ddysgu llythrennedd emosiynol.

Am ragor o wybodaeth, gallwch ffonio llinell gymorth y NDCS ar 0808 800 8880.

- **RNID** – [www.rnid.org.uk](http://www.rnid.org.uk), 0808 808 0123 neu 0808 808 9000 (testun)
- **Mairian Corker** (1994), *Counselling: The Deaf Challenge*
- **BSMHD** – Cymdeithas Iechyd Meddwl a Byddardod Prydain
- Mae **Coleg Brenhinol y Seiciatryddion** wedi cyfieithu taflenni Mental Health and Growing Up i laith Arwyddion Prydain, ac maent ar gael ar eu gwefan yn: [www.rcpsych.ac.uk/mentalhealthinfo/mentalhealthandgrowingup.aspx](http://www.rcpsych.ac.uk/mentalhealthinfo/mentalhealthandgrowingup.aspx)
- Mae **Sign Health** yn elusen a sefydlwyd i fod o gymorth ag anghenion pobl fyddar yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar ofal iechyd meddwl a chorfforol. Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.signhealth.org.uk](http://www.signhealth.org.uk)
- Mae gan wefan **Deaf Info** fwy o wybodaeth am iechyd meddwl, byddardod a'r gwasanaethau arbennig sydd ar gael i gynorthwyo pobl fyddarsy'n profi trallod meddwl, [www.deafinfo.org.uk](http://www.deafinfo.org.uk)
- Mae'r **Society for Mental Health and Deafness** yn fudiad byd-eang sy'n hyrwyddo iechyd meddwl positif pobl fyddar yn Ewrop. Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.esmhd.org/eu](http://www.esmhd.org/eu)

# Plant sy'n Colli Addysg ac yn Cyrchu Gwasanaethau Cwmsela

**Diffiniad:** Yn y ddogfen hon defnyddir y term Plant sy'n Colli Addysg i gyfeirio at blant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr yr ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas heblaw yn yr ysgol (er enghraifft, gartref, yn breifat neu mewn darpariaeth arall) ac nad ydynt wedi derbyn darpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol o amser, sef am gyfnod o bedair wythnos neu ragor fel arfer.

Rhaid i wasanaethau cwmsela Plant a Phobl Ifanc a chwmselwyr mewn ysgolion ystyried y canllawiau hyn wrth sicrhau bod gwasanaethau cwmsela ar gael i blant a phobl ifanc nad oes ganddynt ddiddordeb mewn addysg neu sy'n colli addysg. Mae'r risg sy'n deillio o'r naill sefyllfa neu'r llall yn amrywio a gallai gynnwys plant a phobl ifanc sydd:

- Yn symud heb i'w teulu ddweud wrth yr awdurdod;
- Yn symud i ardal awdurdod lleol newydd heb gofrestru ag ysgol leol;
- Yn methu mynd i'r ysgol a ffefrir ganddynt gan nad oes lleoedd ar gael ar eu cyfer ac yn gwrthod cynnig am le mewn safle arall;
- Heb fod yn rhan o'r system addysg erioed am na wnaethant dderbyn darpariaeth briodol ar ddechrau'r oedran ysgol gorfodol (nid yw'n ofynnol i rieni ddweud wrth awdurdodau lleol eu bod yn bwriadu addysgu'r plentyn gartref os nad yw'r plentyn erioed wedi mynychu ysgol);
- Wedi'u tynnu allan o'r system gan eu rhieni sy'n dewis eu haddysgu gartref a lle bo'r rhieni a'r ysgol heb hysbysu'r awdurdod lleol;
- Yn peidio â mynychu ysgol oherwydd anghydfod, anfodlonrwydd y rhieni, gwaharddiad answyddogol neu am iddynt gael eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol;
- Yn methu â throsglwyddo rhwng darparwyr, er enghraifft o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd neu o'r ysgol i ddarpariaeth arall;
- Yn dod i mewn i'r wlad heb gofrestru mewn ysgol;
- Yn ymuno â'r system ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal neu fannau diogel neu'n mynd oddi yno heb hysbysu neb na chynllunio ymlaen llaw;
- Yn cael eu gwahardd neu'n cael eu tynnu'n ôl o ysgolion annibynnol; neu
- Nad ydynt am gael eu darganfod - mae'n bosibl y bydd teuluoedd yn newid eu henwau ac yn symud yn gyflym o'r naill le i'r llall o fewn y DU.

Mae pob awdurdod lleol ac ysgol yn gyfrifol am geisio dod o hyd i bob plentyn a pherson ifanc nad ydynt yn derbyn addysg mwyach. Mae hyn yn hanfodol oherwydd mae posibilrwydd bob amser y gallai'r plentyn neu'r person ifanc fod ar goll am eu bod mewn perygl o niwed mawr. (Canllawiau statudol i helpu plant a phobl ifanc rhag colli addysg)

## Cwmsela plant sy'n colli addysg

Tra bo'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau cwmsela mewn ysgolion yng Nghymru yn seiliedig ar ysgolion yn bennaf mae'n hanfodol datblygu ffyrdd o gynnwys dysgwyr nad ydynt yn ysgol ac ystyried i ba raddau y gallent ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau'r ysgol. (Strategaeth Genedlaethol Gwasanaethau Cwmsela mewn Ysgolion yng Nghymru)

Mae'n anodd amcangyfrif faint o bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt yn derbyn addysg bob blwyddyn ond, drwy beidio â derbyn addysg, gall y bobl ifanc hyn fynd yn ynysig ac yn agored i niwed. Gall y tîm cwmsela mewn ysgolion fod yn adnodd gwerthfawr i ennyn diddordeb y bobl ifanc hyn gan weithio ar unrhyw faterion emosiynol a allai fod ganddynt a chan weithio tuag at eu dychwelyd i fydd addysg. Bydd hefyd yn gyfle iddynt dorri'n rhydd o'r cylch y mae'n bosib y byddant yn gaeth iddo.

Mae'n bosibl y bydd goblygiadau o ran gwneud darpariaeth ar gyfer y bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed o safbwynt penderfyniadau polisi ac arferion a fydd yn effeithio ar y canlynol:

- Rheolwyr gwasanaethau cwmsela
- Gwasanaethau cymorth mewn ysgolion
- Asiantaethau allanol
- Cwmselwyr

## Rheolwyr gwasanaethau:

Dylai o leiaf un o'r tîm o gwmselwyr gael ei gyflogi ar sail hyblyg fel y gall ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Byddai'n ddefnyddiol petai'r cwmselydd penodedig yn gymwys ac yn brofiadol mewn delio â phobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg ac sydd â chymwysterau ychwanegol mewn cwmsela'r grp oedran hwnnw. Gallai'r cwmselydd penodedig gael ei rannu rhwng teulu o ysgolion.

Byddai ystafell gwmsela oddi ar safle'r ysgol yn ddefnyddiol. Gallai fod mewn canolfan ieuencid leol, canolfan hamdden neu mewn llyfrgell. Gall pobl ifanc sy'n agored i niwed yn emosiynol ac sydd wedi colli cryn dipyn o'u haddysg fynd yn bryderus wrth feddwl am fynd i rywle sy'n agos at ysgol neu adeilad swyddogol. Mae'n bosibl hefyd y bydd ganddynt ragdybiaethau negyddol iawn am y gwasanaethau statudol. Dylai'r ystafell fod mor gyfforddus a chroesawgar ag y bo modd a dylai gael ei gosod mewn modd sy'n ystyriol o oedran y plant a'r bobl ifanc os oes modd.

### Gwasanaethau cymorth i ysgolion:

Un o'r tasgau anoddaf ar gyfer cwnselydd penodedig sy'n gweithio yn y modd yma yw cysylltu â'r holl asiantaethau a fydd, o bosib, yn gweithio gyda'r person ifanc. Da o beth fyddai sefydlu grp gorchwyl rhwng amryw asiantaethau a fydd yn gweithredu fel grp dyrannu ac adolygu ar gyfer y person ifanc. Dim ond bob hyn a hyn (e.e. bob hanner tymor) y bydd angen i'r grp hwn gwrdd â'i gilydd a gallant drafod yr achosion a atgyfeiriwyd a llunio cynllun cymorth priodol ar gyfer y person ifanc. Gall fforwm tebyg i hwn hefyd leihau'r gorgyffwrdd a helpu i atal pobl ifanc rhag syrthio drwy rwyd y gwasanaethau cymorth. Gallai fod yn fuddiol i'r grp gorchwyl gynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Gwasanaethau Lles Addysg
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS)
- Cwnselydd penodedig
- Pobl allweddol eraill sy'n cynorthwyo pobl ifanc ee mentor, eiriolwr, gweithiwr ieuencid, Cymorth i Ferched, gweithiwr cymorth i blant

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Gallai cynrychiolwyr unrhyw asiantaeth fynychu'r fforwm hwn. Gellir ei lunio yn y fath fodd i gefnogi anghenion yr ardal leol ac i adlewyrchu'r gwahanol asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn gwahanol leoliadau.

### Ar gyfer asiantaethau allanol:

Gallai amryw o asiantaethau statudol ac anstatudol fod ynghlwm wrth y gwaith o gefnogi pobl ifanc. Weithiau bydd gan berson ifanc nifer o weithwyr yn gysylltiedig ag ef neu hi gyda neb yn cymryd cyfrifoldeb am y cyfan. Oherwydd hynny, gall y person ifanc syrthio drwy'r rhwyd gan y bydd pob asiantaeth sydd ynghlwm wrtho'n credu bod rhywun arall yn cymryd cyfrifoldeb amdano pan nad oes neb yn gwneud hynny mewn gwirionedd.

Mae'n hanfodol cael fforwm lle gall asiantaethau gwrdd â'i gilydd. Gall hefyd fod yn fforwm i'w ddefnyddio gan asiantaethau nad oes ganddynt gyswllt uniongyrchol â gwasanaethau cwnsela, er mwyn iddynt ofyn i'r gwasanaethau hynny gael eu cynnigi'r boblifanc ymaentyn ymwybodol ohonynt. Er enghraifft, gallai Cymorth i Ferched sy'n aml yn gweld pobl ifanc yn dod i'r ardal o dan amgylchiadau dirdynol a thrawmatig heb fedru manteisio ar gymorth cwnsela, gael hyd i wasanaethau cwnsela priodol ar gyfer y bobl ifanc hyn.

## Cwmselwyr:

Rhaid i'r cwmselwyr fod yn hyblyg yn eu ffordd o weithio, a deall nad yw eu rôl ynghlwm wrth yr ysgol yn unig. Maent yno ar gyfer pob person ifanc sy'n gymwys i fod yn yr ysgol neu'r teulu o ysgolion y maent yn eu gwasanaethu.

O ran y ffyrdd o fynd ati i gwmsela a'r ffyrdd o weithio:

- Byddwch yn hyblyg gan ddefnyddio nifer o wahanol strategaethau therapiwtig a seico-addysgol er mwyn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc. Pwysig: mae ymchwil wedi dangos mai ansawdd y berthynas sy'n dylanwadu fwyaf ar ganlyniad y gwaith cwnsela gyda phobl ifanc. Mae'n hanfodol felly bod perthynas waith gref yn cael ei chreu gyda'r cleient.
- Byddwch yn barod i weithio oddi ar safle'r ysgol. Pan na fydd person ifanc wedi bod mewn ysgol ond y bo bwriad i'w roi ar gofrestr yr ysgol, gallai fod yn ddefnyddiol cynnal y sesiynau cwnsela cychwynnol oddi ar safle'r ysgol ac yna, pan fydd hi'n briodol, drefnu sesiwn yn ystafell gwmsela'r ysgol lle bydd y person ifanc yn rhydd i fynd yno. Gallai hyn helpu'r person ifanc i gyfarwyddo â'r ysgol ac i normaleiddio ei ragdybiaethau ynghylch yr ysgol. Gallai hefyd ganiatáu i'r cwmselydd weithio gyda'r tîm cymorth bugeiliol er mwyn cyflwyno'n raddol gymorth ychwanegol i'r cleient, e.e. trwy fentoriaid disgyblion neu weithwyr ieuencid. Byddai'r tîm hwnnw'n gallu mynd ati wedyn i lunio cynllun integreiddio.
- Gallai diwrnod cyntaf y person ifanc gyd-daro â diwrnod y bydd y cwmselydd yn ymweld â'r ysgol. Gyda chydysniad y person ifanc, gallai'r cwmselydd gerdded o gwmpas yr ysgol gydag ef neu hi a'i helpu i leddfu unrhyw bryderon.
- Byddwch yn barod i weithio gyda'r rhieni a'r gofalwyr oherwydd mae'n bosib y bydd angen cefnogaeth amynt hwy hefyd ac y bydd eu hagwedd at yr ysgol a gwasanaethau cysylltiedig yn negyddol iawn. Mae'n bosib y gall fod erlyniad ar y gweill gan yr adran Lles Addysg. Os yw'r person ifanc i'w integreiddio'n llwyddiannus i fywyd yr ysgol, yna bydd angen i'r holl randdeiliaid weithio gyda'i gilydd i wireddu hynny.
- Cynigiwch apwyntiadau yn ystod gwyliau'r ysgol. Gall fod yn ddefnyddiol eu cysylltu ag unrhyw weithgareddau ieuencid sy'n cael eu trefnu yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae nifer o ysgolion yn cynnal ysgolion haf sy'n agored i unrhyw berson ifanc, nid i'r rheini sy'n mynd i'r ysgol yn unig. Gellid trefnu i'r ystafell gwmsela fod yn agored ar yr adegau hynny. Gallai fod yn ddefnyddiol gweithio gyda'r ganolfan hamdden leol a manteisio ar y gweithgareddau sydd ganddynt hwy i'w cynnig. Gall fod cyfle i gwmselwyr fynd i weithgareddau gwyliau sy'n cael eu trefnu gan elusennau ieuencid. Hwyrach y byddai'n bosibl trefnu sesiynau cwnsela i gyd-fynd â'r gweithgareddau hyn.

- Byddwch yn ymwybodol bob amser bod y grŵp hwn o bobl ifanc yn gallu bod yn agored iawn i niwed ac mewn peryg, a dylech fod yn gyfarwydd iawn â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a'r protocolau diogelu. Mae plant sy'n colli addysg yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a rhaid i'r cwnselydd weithio'n agos â'r Person Penodol Amddiffyn Plant a ddylai fod yn ymwybodol o unrhyw 'blant sy'n colli addysg'. Mae rhaglen Llywodraeth y Cynulliad sef Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn cynnig canllawiau ar wybodaeth i'w rhannu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad, 'Diogelu Plant mewn Addysg' yn amlinellu'r cyfrifoldebau ynghylch y trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc hyd at 18 oed.

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyflawni ei botensial llawn. Mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau cysylltiedig, sy'n cynnwys yr hawl i gael addysg ac i ddysgu, a'r hawl i gael gofal priodol ac i dderbyn cymorth arbennig i adfer hunanbarch.

Gyda diolch i Val Taylor, Cwnselydd a Goruchwyliwr Annibyinnol, Sir Benfro.



# Canllawiau ar leoliadau i fyfyrwyr cwnsela ac ôl-raddedigion mewn ysgolion yng Nghymru

## Cefndir

Ers cyhoeddi Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion yn 2008 a datblygu cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch ar gwnsela plant a phobl ifanc, bu galw am leoliadau i fyfyrwyr cwnsela sy'n gweithio mewn ysgolion. Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi canllawiau i:

- Sefydliadau hyfforddi ar gydlynu a rheoli lleoliadau;
- Awdurdodau lleol a rheolwyr cwnsela ar gefnogi lleoliadau i fyfyrwyr dan hyfforddiant ac ôl-raddedigion;
- Penaethiaid ac athrawon cyswllt ar reoli lleoliadau i fyfyrwyr dan hyfforddiant ac ôl-raddedig mewn ysgolion.

## Diffiniad

Y gwahaniaeth rhwng myfyrwyr cwnsela ac ôl-raddedigion dan hyfforddiant sy'n chwilio am leoliadau mewn ysgol neu leoliad ieuenctid:

*"Mae myfyrwr cwnsela yn unigolyn sy'n astudio er mwyn cymhwyso fel cwnselwr neu seicotherapydd o dan gyfarwyddyd prifysgolion neu sefydliadau hyfforddi addysg bellach/addysg uwch eraill. Mae Adran A y ddogfen hon yn ystyried materion sy'n berthnasol i fyfyrwyr cwnsela.*

*Mae ôl-raddedigion cwnsela dan hyfforddiant yn unigolion sydd eisoes wedi cwblhau cwrs hyfforddi achrededig BACP neu gwrs cyfatebol cronol ac sy'n meddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn cwnsela neu seicotherapi (lefel Diploma). Gall ôl-raddedigion dan hyfforddiant ofyn am leoliad cwnsela er mwyn cael profiad arbenigol pellach mewn maes arbenigol."*

(Canllawiau arfer da ar gyfer rheoli lleoliadau i ôl-raddedigion dan hyfforddiant mewn lleoliadau GIG. DG11 BACP 2003)

Mae Adran B y ddogfen hon yn ystyried materion sy'n berthnasol i ôl-raddedigion dan hyfforddiant.

## Contractau a chytundebau

Mae'n bwysig bod y cytundebau sy'n cael eu llunio rhwng pob parti perthnasol (wedi'i nodi yn y cefndir uchod) yn agored ac yn dryloyw, ac wedi'u cytuno cyn dechrau'r cwnsela yn yr ysgol. Mae'n arfer gorau i bob parti (ysgol, asiantaeth hyfforddi, cwnselwr - myfyriwr cwnsela/cwnselwyr dan hyfforddiant, goruchwyliwr a mentor) i gytuno a llofnodi cytundeb ysgrifenedig sy'n amlinellu'n glir rolau a chyfrifoldebau pawb cyn dechrau'r gwaith. Rhaid i'r cytundeb hwn gynnwys rhyw gyfeiriad at y berthynas rhwng pob parti a sut y caiff gwybodaeth ei rhannu rhyngddynt.

## Cyfrinachedd

Er bod cwnsela effeithiol yn digwydd o fewn perthynas o ymddiriedaeth, ni ellir gwarantu cyfrinachedd llwyr â phobl ifanc mewn ysgolion. Felly mae'n hollbwysig bod pob parti yn deall y cyfyngiadau ar gyfrinachedd a'r sefyllfaoedd lle bydd angen datgelu gwybodaeth. (Pecyn Cymorth Gweithredu ar gyfer Cwnselwyr mewn Ysgolion)

## Adran A

### Myfyrwyr Cwnsela

Rhaid i'r myfyriwr cwnsela fod mewn lleoliad lle mae cwnselwr cymwysedig a phrofiadol naill ai'n gweithio yn yr ysgol neu wedi'i gysylltu â'r ysgol, ac sy'n gallu ac yn barod i fentora gwaith y myfyriwr. Rhaid i'r myfyriwr hefyd gael mynediad

i oruchwyliwr cwnsela cymwysedig sydd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fewn lleoliad addysgol.

Y sefydliad hyfforddi ddylai fod yn gyfrifol am gael hyd i leoliadau a'u cydlynu. Pan fydd arweinydd cwrs yn cadarnhau bod myfyriwr wedi cwblhau cwrs cwnsela cydnabyddedig yn llwyddiannus, byddan nhw'n ardystio bod myfyriwr wedi ennill cymhwysedd clinigol ac academiaidd. Felly mae arweinwyr cwrs yn gyfrifol am sicrhau bod lleoliadau myfyrwyr yn cael eu rheoli'n broffesiynol ac yn foesebol.

Mae arfer gorau yn sicrhau bod:

- y lleoliad yn cynnig cyfleoedd dysgu priodol i'r myfyriwr;
- bydd y myfyriwr yn cael ei fentora gan gwmselwr neu seicotherapydd cymwysedig sydd eisoes yn gweithio yn yr ysgol neu wedi'i gysylltu â'r ysgol;
- mae'r cleientiaid sy'n cael eu cyfeirio yn addas i lefel sgil ac arbenigedd y myfyriwr;
- mae'r myfyriwr yn gweld uchafswm o dri chleient yr wythnos i gychwyn mewn sesiynau therapiwtig sy'n para hyd at 50 munud - gall y llwyth achosion cleientiaid gynyddu, gyda chytundeb y goruchwyliwr a'r mentor, wrth i'r myfyriwr fod yn fwy medrus;
- mae'r myfyriwr yn derbyn yr un amser yr wythnos ag y mae'n ei dreulio yn cwnsela ar gyfer prosesu, cadw cofnodion, myfyrio a sesiynau ymgynghori â chymorth.

Disgwylir i gwrselwyr cymwysedig gael eu goruchwyllo am o leiaf un awr o amser cyflwyno i wyth awr o waith cleientiaid yn amodol ar isafswm o 1.5 awr o oruchwyllo y mis, a bydd yr union amser yn dibynnu ar y llwyth achosion cleientiaid a chymhlethdod y llwyth achosion hynny. Mae myfyrwyr cwnsela sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn debygol o angen mwy o oruchwyllo oherwydd eu bod yn ddibrofiad ac oherwydd natur cymhleth y grŵp cleientiaid, a dylen nhw gael eu goruchwyllo o leiaf unwaith bob pythefnos. Mae'n bosib y byddai goruchwyllo'r myfyriwr bob wythnos yn well.

### Asesu achosion

Gan fod myfyrwyr yn ôl eu diffiniad yn gydweithwyr dibrofiad, dylai fod proses gytûn ar gyfer asesu'r cleientiaid y bydd y myfyriwr yn eu cwnsela. Mae hyn yn hanfodol er mwyn helpu myfyrwyr i weithio o fewn eu cymhwysedd. Bydd rhaid i'r mentor asesu cleientiaid y myfyrwyr cyn dechrau'r gwaith therapiwtig, neu bydd angen rhoi arweiniad iddynt ar ddulliau asesu er mwyn sicrhau bod y gwaith yn foesebol ac yn ddiogel.

Mae angen cefnogi'r myfyrwyr mewn dwy ffordd drwy gydol eu lleoliad, sef mentoriaeth a goruchwyliaeth:

### Mentoriaeth

Dylai'r mentor fod yn gwrselwr cymwysedig a phrofiadol, neu'n gydweithiwr cyfatebol megis seicolegydd addysg. Rhaid i'r mentor gael dealltwriaeth glir o ffiniau cyfrinachedd o fewn cwnsela a Chymhwysedd Gillick, a rhaid i'r mentor allu cynorthwyo'r myfyriwr yn y meysydd hyn. Bydd y mentor yn cynnig arweiniad neu gymorth uniongyrchol i'r myfyriwr ac felly dylai fod yn gweithio yn yr ysgol neu wedi'i gysylltu â'r ysgol. Dylai'r ysgol neu'r mentor ddarparu rhaglen sefydlu i'r myfyriwr er mwyn sicrhau bod y polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau ar gyfer ymarfer cwnsela yn cael eu deall a'u dilyn yn briodol. Dylai'r mentor annog perthnasoedd gweithio ar y cyd yn yr ysgol. Mae'n bosib y bydd rhaid i'r mentor ddarparu cadarnhad i'r sefydliad hyfforddi fod y myfyriwr wedi bodloni'r meini prawf lleoli cytûn ar gyfer ei gwrs hyfforddi. Yn ogystal gall fod angen cael adroddiad ar gynnydd y myfyriwr. Mae cymorth effeithiol yn dibynnu ar gyfathrebu da rhwng yr ysgol a'r sefydliad sy'n darparu'r hyfforddiant cwnsela. Dylai'r myfyriwr gael gwybod am unrhyw adborth sy'n cael ei roi i'r sefydliad hyfforddi.

### Goruchwyliaeth

Dylai'r gwaith o oruchwyllo gwaith clinigol y myfyriwr gael ei wneud gan gwrselwr (neu gydweithiwr cyfatebol) sy'n fedrus ac yn gymwysedig ym maes goruchwyllo, ac sydd wedi cael o leiaf dwy flynedd o brofiad yn gweithio

mewn lleoliad ysgol. Mae goruchwyllo cwnsela yn sicrhau bod anghenion y myfyriwr a'u cleientiaid yn parhau i gael eu hateb. Mae goruchwyllo yn angenrheidiol ar gyfer monitro, datblygu a chynorthwyo'r myfyriwr yn ei rôl fel cwnselwr.

Dylai myfyrrwyr cwnsela gael eu goruchwyllo'n rheolaidd wrth gwrs. Mae'r BACP yn datgan na ddylai'r oruchwyllo fod yn llai nag un awr o amser cyflwyno i wyth awr o waith cleientiaid, yn amodol ar isafswm o 1.5 awr o oruchwyllo unigol y mis. Fodd bynnag, dyma'r hyn a ddisgwylir ar gyfer ymarferwyr cymwysedig a dylai'r oruchwyllo adlewyrchu maint a chymhlethdod y gwaith clinigol a wneir a lefel profiad a chymhwysedd y myfyriwr. Mae'n debygol y bydd angen goruchwyllo'r myfyriwr yn wythnosol, waeth beth fo'r llwyth achosion cleientiaid, ac o leiaf unwaith bob pythefnos. Gall cymysgedd o oruchwyllo unigol a goruchwyllo grŵp fod yn fuddiol yn aml i ymarferwyr.

Dylai fod gwahaniaeth clir rhwng rôl y mentor a'r goruchwyllo. Ni ddylai'r goruchwyllo fod yn rheolwr llinell y myfyriwr (Fframwaith Moesegol Arfer Da BACP).

### Gwerthuso

Rhaid i'r contract gwreiddiol a gytunwyd gan bob parti gynnwys proses effeithiol ar gyfer gwerthuso gwaith myfyrrwyr. Byddai'r broses hon yn cynnwys rhoi sylw i holiaduron bodlonwydd cleientiaid,

data casgliadau wedi'u mesur yn ôl offer gwerthuso cytûn, a phresenoldeb cleientiaid mewn sesiynau cwnsela wedi'u trefnu.

### Talu myfyrrwyr cwnsela

Yn unol â phroffesiynau eraill, ni ddylai myfyriwr cwnsela ddisgwyl cael ei dalu am y gwaith sy'n cael ei wneud yn ei lleoliad, er y gall y lleoliad gynorthwyo'r myfyriwr gydag unrhyw gostau goruchwyllo a/neu DPP.

## Adran B

### Ôl-raddedigion dan hyfforddiant mewn lleoliadau ysgol

Disgwylir i ôl-raddedigion cwnsela dan hyfforddiant sydd wedi cwblhau hyfforddiant cwnsela yn llwyddiannus ddangos cymhwysedd proffesiynol. Er gwaethaf hyn, argymhellir bod ôl-raddedigion dan hyfforddiant yn cael lleoliad lle y mae cwnselwr cymwysedig a phrofiadol naill ai'n gweithio yn yr ysgol neu wedi'i gysylltu â'r ysgol ac sy'n gallu ac yn barod i fentora gwaith ôl-raddedigion dan hyfforddiant. Rhaid i ôl-raddedigion dan hyfforddiant hefyd gael mynediad i oruchwyllo cwnsela cymwysedig sydd wedi cael o leiaf dwy flynedd o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc ac sydd â dealltwriaeth o leoliadau ysgol.

Dylai'r ysgol/gwasanaeth cwnsela sicrhau bod ôl-raddedigion dan hyfforddiant sy'n gofyn am leoliad:

- wedi cwblhau Diploma mewn Cwnsela;
- yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau, yr agwedd a'r lefel cymhwysedd sy'n ofynnol i weithio yn yr ysgol neu'r lleoliad ieuencid penodol, drwy ddangos tystiolaeth o gymhwyster, tystysgrifau a geir daon gan gyn-gyflogwyr neu sefydliadau hyfforddi, os yw'n briodol;
- yn aelod o sefydliad proffesiynol ac yn ymrwymedig i ddilyn cod moeseg cytûn ar gyfer ymarfer; mae'n rhaid i aelodau BACP weithio o fewn ei Fframwaith Moesegol ar gyfer Arfer Da;
- yn barod i ddarparu gwiriad heddlu.

Cyn dechrau yn y lleoliad, dylai ôl-raddedigion dan hyfforddiant sicrhau bod yr ysgol yn cynnig:

- cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sy'n darparu fframwaith ar gyfer ymarfer cwnsela proffesiynol a moesegol gydag ystod eang o gleientiaid;
- cyfleoedd dysgu priodol sy'n annog Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), yn enwedig os ydyn nhw'n gweithio tuag at achrediad;
- rhaglen sefydlu a fydd yn rhoi cyfle i ôl-raddedigion dan hyfforddiant ymglyfarwyddo â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth cwnsela a'r ysgol;
- mentor addas a fydd yn gwmselwr neu'n seicotherapydd cymhwysedig sydd eisoes yn gweithio yn yr ysgol neu wedi'i gysylltu â'r ysgol;
- geir daon priodol sy'n addas ar gyfer lefel sgil, arbenigedd a chymhwyster ôl-raddedigion dan hyfforddiant;
- sesiynau cyswllt wythnosol rheolaidd. Mae canllawiau arfer da yn argymhell llwyth gwaith sy'n cynnwys 60% o amser cyswllt â chleientiaid, 40% o amser gweinyddol. Yn ôl y cyfrifiad hwn mae un sesiwn yn hafal i dair awr o gyswllt wyneb yn wyneb â chleientiaid a dwy awr o gadw cofnodion. Byddai unrhyw gynnydd yn y llwyth gwaith sy'n golygu chwe awr o gyswllt â chleientiaid a phedair awr ar gyfer cadw cofnodion, gwaith gweinyddol ac ymgynghori yn awgrymu bod angen cyflogi cwnselwr. Gallai defnyddio ôl-raddedigion dan hyfforddiant i reoli diffygion yn y ddarpariaeth gwasanaeth gael ei ystyried yn arfer sy'n ecsbloetio ôl-raddedigion dan hyfforddiant;
- asesu'r cleientiaid sy'n cael eu cwnsela er mwyn i ôl-raddedigion dan hyfforddiant allu gweithio o fewn eu cymhwysedd. Os nad yw'r asesiad hwn yn cael ei wneud gan fentor neu gydweithiwr cwnsela profiadol arall, rhaid i ôl-raddedigion dan hyfforddiant sicrhau eu bod nhw eu hunain wedi'u paratoi i asesu cleientiaid, gweithio o fewn eu cymhwysedd eu hunain a chael llwybrau cyfeirio digonol i weithwyr proffesiynol eraill os oes angen.

Dylid llunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth neu gontract rhwng ôl-raddedigion dan hyfforddiant a'r asiantaeth leoli a'r sefydliad hyfforddi.

Mae dau fath o gymorth yn ofynnol ar gyfer lleoliadau:

### **Mentoriaeth**

Fel rheol byddai'r mentor yn gwmselwr/ seicotherapydd cymwysedig a phrofiadol, neu'n gydweithiwr cyfatebol megis seicolegydd addysg. Rhaid i'r mentor gael dealltwriaeth glir o ffiniau cyfrinachedd o fewn cwnsela a Chymhwysedd Gillick a rhaid i'r mentor allu cynorthwyo'r myfyriwr yn y meysydd hyn. Byddai'r mentor yn cynnig arweiniad a chymorth rheoli uniongyrchol i ôl-raddedigion dan hyfforddiant ac felly bydd yn gweithio i'r ysgol neu wedi'i gysylltu â'r ysgol. Mae'n arfer da i'r ysgol, neu'r mentor, ddarparu rhaglen sefydlu i ôl-raddedigion dan hyfforddiant, er mwyn egluro polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau ar gyfer ymarfer cwnsela gan sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n briodol. Dylai'r mentor annog gweithio ar y cyd yn yr ysgol.

### **Goruchwyliaeth**

Dylai'r gwaith o oruchwyllo gwaith clinigol ôl-raddedigion dan hyfforddiant gael ei gyflawni gan gwmselwr profiadol sy'n fedrus ac yn gymwysedig ym maes cwnsela a goruchwyllo, ac sy'n meddu ar o leiaf dwy flynedd o brofiad yn gweithio mewn lleoliad ysgol.

Mae angen goruchwyliaeth er mwyn monitro, datblygu a chefnogi ôl-raddedigion dan hyfforddiant yn eu rôl cwnsela, gan eu galluogi i ddatblygu i fod yn ymarferwyr myfyriol proffesiynol.

Dylai ôl-raddedigion dan hyfforddiant gael eu goruchwyllo'n rheolaidd wrth gwmsela. Mae'r BACP yn datgan na ddylai goruchwyliaeth fod yn llai nag un awr o amser cyflwyno i wyth awr o waith cleientiaid, yn amodol ar isafswm o 1.5 awr o oruchwyliaeth unigol y mis. Dylai'r oriau goruchwyllo adlewyrchu maint a chymhlethdod y gwaith clinigol sy'n cael ei wneud a lefel profiad a chymhwysedd ôl-raddedigion dan hyfforddiant. Mae'n debygol y gall fod angen goruchwyllo ôl-raddedigion yn wythnosol, waeth beth fo'r llwyth achosion cleientiaid, ac o leiaf unwaith bob pythefnos. Gall cymysgedd o oruchwyliaeth unigol a goruchwyliaeth grŵp fod yn fuddiol yn aml i ymarferwyr.

### **Gwerthuso**

Rhaid i'r contract gwreiddiol a gytunwyd gan bob parti gynnwys proses effeithiol ar gyfer gwerthuso gwaith ôl-raddedigion dan hyfforddiant. Byddai'r broses hon yn cynnwys rhoi sylw i holiaduron bodlonrwydd cleientiaid, data casgliadau wedi'u mesur yn ôl offer gwerthuso cytûn, a phresenoldeb cleientiaid mewn sesiynau cwnsela wedi'u trefnu.

### Diogelwch cleientiaid

Dylid ystyried datgelu statws hyfforddi'r cwnselwr. Dylai fod tryloywder rhwng y cwnselwr a'r cleient, ond hefyd sicrwydd i'r cleient er mwyn sefydlu perthynas effeithiol, ymddiriedus.

Er mwyn diogelu budd ôl-raddedigion dan hyfforddiant a'u cleientiaid, dylai'r ysgol gynnig cytundeb gwasanaeth sy'n amlinellu'n gliry telerau a'r amodau ar gyfer ymarfer clinigol ac sy'n amlinellu rôl a chyfrifoldeb ôl-raddedigion dan hyfforddiant.

### Talu ôl-raddedigion dan hyfforddiant

Mae ôl-raddedigion dan hyfforddiant yn cael eu talu yn ôl disgrisiwn yr ysgol neu'r gwasanaeth cwnsela sy'n darparu'r lleoliad. Os yw ôl-raddedigion dan hyfforddiant yn defnyddio'r lleoliad i gyflawni'r amcanion dysgu sy'n ofynnol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol, ni ddylid gwneud unrhyw daliad yn yr achos hwn. Fodd bynnag, gall ôl-raddedigion dan hyfforddiant gael cynnig cymorth gyda'u costau megis ffioedd aelodaeth broffesiynol, goruchwyliaeth neu DPP pellach. Gall rhai sefydliadau ddewis cynnig swydd dan hyfforddiant â chyflog yn debyg i'r swyddi a gynigir i seicolegwyr addysg dan hyfforddiant. Gall hyn fod yn arbennig o ddeniadol er mwyn hybu hyfforddi cwnselwyr sy'n siarad Cymraeg.

Diolch i Lil Freckleton, Vine Interventions;  
Judith Mulcahy, Prifysgol Casnewydd;  
Dan Trevor, Sir Ddinbych.

# Lleoliad Myfyrwyr - Dogfen Gwasanaethau Cwmsela Sir Ddinbych

**Diffiniad:** Pwrpas lleoliad cwmsela yw cael 100 awr o brofiad clinigol sy'n rhan ofynnol o gymhwyso ac ennill cymhwyster cwmsela cydnabyddedig.

Mae 'myfyriwr cwmsela' yn unigolyn sy'n dilyn cwrs hyfforddi cychwynnol, generig mewn cwmsela/seicotherapi.

Mae 'ôl-raddedigion dan hyfforddiant' yn gwmselwyr sydd eisoes wedi ennill eu diploma ond os nad ydynt wedi'u cyflog fel cwmselwr mae'n bosib y bydd angen lleoliad arnyh nhw i gadw eu sgiliau yn gyfoes. Gall cwmselwr cymwysedig sy'n aelod o BACP, ac sydd wedi cwblhau hyfforddiant lefel Diploma gan gynnwys 100 awr ar leoliad ddefnyddio'r llythrennau 'BACP' i ddangos aelodaeth o'r corff proffesiynol.

- Dylai lleoliadau gael eu cynnig dim ond o dan reolaeth/fentoriaeth cwmselwr profiadol sy'n cael ei gyflogi yn yr un ysgol.
- Os yw'r ddarpariaeth gwmsela yn cael ei rheoli y tu allan i'r ysgol dylai cwmselwr dan hyfforddiant gael ei ailgyfeirio i'r rheolwr gwasanaeth perthnasol.
- Os yw myfyriwr cwmsela mewn ysgol yn cael ei ystyried, dylid meddwl am yr effaith a gaiff hyn ar y deiliad swydd cwmselwr profiadol o ran amser a gallu i fentora'r myfyriwr/cwmselwr dan hyfforddiant. Gall fod oblygiadau o ran rheoli'r rhestr aros, a'r ymrwymiad amser ychwanegol sy'n ofynnol gan ddeiliad y swydd wrth gynnig lleoliad. Mae angen ystyried pwy sydd â'r cyfrifoldeb clinigol ac yn darparu yswiriant ar gyfer gwaith y myfyriwr/cwmselwr dan hyfforddiant. Fel rheol y goruchwyliwr clinigol

fyddai'n gyfrifol am y cwmselwr dan hyfforddiant.

- Ni ddylid cynnig lleoliad oni bai bod llinellau cyfathrebu clir rhwng y rheolwr gwasanaeth/rheolwr clinigol, goruchwyliwr clinigol a'r mentor/cwmselwr lleoli, myfyriwr cwmsela a'r sefydliad hyfforddi.
- Dylid cynnig lleoliadau dim ond drwy gyfweiliad ac ar ôl cadarnhau'r holl wiriadau cyflogaeth (gan gynnwys CRB), geiradaon ac ati. Mae'n ddoeth ceisio geirada gan gorff hyfforddi'r ymgeisydd i gynnwys lefel cymhwysedd - theorï ac ymarfer clinigol; hunanymwybyddiaeth, ymddygiad ac agwedd.
- Rhaid i gwmselwyr dan hyfforddiant allu darparu tystiolaeth eu bod yn ymarfer i god moeseg cydnabyddedig a darparu tystiolaeth ddogfennol o aelodaeth gyfredol o gorff proffesiynol, er enghraifft CPC; BACP, UKCP. Rhaid i aelodau BACP weithio yn ôl Fframwaith Moesegol BACP
- Rhaid i hyfforddiant Amddiffyn Plant gael ei ddarparu gan naill ai'r ysgol neu'r sefydliad lleoli.
- Ar ddechrau'r lleoliad, rhaid cytuno ar sut y bydd cwblhau'r lleoliad yn llwyddiannus yn cael ei werthuso, pryd y caiff adroddiadau a gwerthusiadau ysgrifenedig eu darparu a chan bwy.
- Rhaid cael cytundeb ysgrifenedig rhwng y myfyriwr cwmsela, y sefydliad lleoli, y mentor lleoli a goruchwyliwr y cwmselwr dan



hyfforddiant i ddilyn trefn ar gyfer ymyrryd yn achos pryder am ansawdd y cwnsela a ddarperir gan y myfyriwr ar leoliad.

- Rhaid ystyried gallu'r myfyriwr i weithio i derfyn amser (os yw'n gymwys) a deall cyd-destun gweithio mewn ysgol. Rhaid i addysgu a phrofiad pellach fod yn rhan o strwythur y lleoliad.
- I gychwyn dylai pob asesiad cleient gael ei wneud gan y cwnselwr/profiadol/mentor lleoli. Fel rhan o'r hyfforddiant theori a datblygiad yn y lleoliad caiff y myfyriwr ei gyfarwyddo wrth ymgymryd â nifer cyfyngedig o asesiadau fel cam terfynol y lleoliad.
- Dylai lleoliadau gael eu cynnig am isafswm o 100 awr clinigol, gan ddechrau gydag un awr gyda chleientiaid yr wythnos, gan godi i uchafswm o 4/5 awr o dan gyfarwyddyd y mentor a'r goruchwyliwr.
- Dylai myfyriwr cwnsela gael gwybodaeth am y broses o geisio cytuno ar ddeunydd sesiwn/cuddio deunydd sesiwn os yw'r cynnwys i'w ddefnyddio i ysgrifennu traethodau/traethodau hir, neu ar gyfer recordio sesiynau at ddibenion addysgol.
- Yn ogystal â'r oriau clinigol, dylai'r lleoliad gynnwys darpariaeth ar gyfer mewnbwn rheolaidd gan ddeiliad y swydd cwnselwr (mentor), mewnbwn gan gydweithwyr proffesiynol iechyd eraill, deunydd darllen a mynychu cyfarfodydd sefydliadol fel y bo'n berthnasol. Ni ddylai'r lleoliad ymwneud

â bodloni'r gofyniad am brofiad clinigol yn unig ond dylai ddarparu sail gadarn yng nghydestun therapi penodol sef cwnsela mewn ysgolion.

- Rhaid i fyfyrwr cwnsela gael eu goruchwyllo yn y lleoliad a dylai fod cymhareb sy'n ddigonol i ateb y safonau gofynnol a bennwyd gan eu corff proffesiynol. Rhaid i'r goruchwyliwr fod yn brofiadol ym mhob un o'r meysydd canlynol:
  - a) Cwnsela/seicotherapi plant a phobl ifanc.
  - b) Darparu goruchwyliaeth i gwrselwyr dan hyfforddiant.
  - c) Cyd-destun ysgol.
  - ch) Cwnsela â therfyn amser os yw'n gymwys.

### Rolau a Chyfrifoldebau:

#### Y Myfyriwr Cwnsela

Bydd

- yn darparu:
- Tystiolaeth ddogfennol o'r cymwysterau a enillwyd hyd yma.
  - Tystiolaeth ddogfennol o aelodaeth broffesiynol.
  - Dogfennau Yswiriant proffesiynol cyfredol (os yw'n gymwys).
  - Geirda gan oruchwyliwr presennol/diweddar.
  - Geirda gan diwtor cwrs.

Bydd yn barod i:

- Ymgymryd â gwiriad CRB manylach.
- Cynnal o leiaf tair sesiwn â chleientiaid yr wythnos dros gyfnod o flwyddyn.
- Cymryd rhan mewn goruchwyllo a hyfforddi fel sy'n ofynnol gan y sefydliad lleoli.

### Y Sefydliad Lleoli

Bydd

- yn darparu:
- Lleoliad o fewn ysgol sydd â chwmselwr profiadol a fydd yn mentora'r myfyriwr ac yn cynnal asesiad cychwynnol o'r cleientiaid.
  - Goruchwyllo'r myfyriwr ar gymhareb sy'n briodol i gorff proffesiynol, sef 1:8.
  - Cyfleoedd hyfforddi a datblygu i wella sgiliau'r cwmselwr dan hyfforddiant i fod yn gwmselwr mewn ysgolion medrus (gan gynnwys sgiliau asesu ac ati).
  - Darparu canllawiau clir ar gyfer mesur perfformiad, proses arfarnu ac adroddiadau ysgrifenedig os oes angen.

- Darparu cytundeb contract clir rhwng y sefydliad lleoli, cwmselwr dan hyfforddiant, mentor lleoli, goruchwyllo'r cwmselwr dan hyfforddiant (a'r sefydliad hyfforddi os yw'r cwmselwr dan hyfforddiant yn parhau mewn addysg).

### Y Sefydliad Hyfforddi

- Darparu geirada unigol sy'n cwmpasu lefel cymhwysedd - theori ac ymarfer clinigol; hunanymwybyddiaeth, ymddygiad ac agwedd; tystiolaeth o therapi personol.
- Bod yn barod i rannu gwybodaeth neu bryderon am y myfyriwr â'r sefydliad lleoli er mwyn sicrhau diogelwch a lles y myfyriwr a'r cleientiaid.
- Penodi aelod o staff fel man cyswllt i gysylltu â'r sefydliad lleoli ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â myfyrwyr ar leoliad.

Bydd y ddogfen hon yn gweithredu fel contract rhwng y myfyriwr, y goruchwyllo'r, y cwmselwr sy'n gweithredu fel mentor, y sefydliad lleoli a'r sefydliad hyfforddi:

**Cyfnod y lleoliad:**

*Dechrau:*

.....

*Diwedd:*

.....

*Llofnod y myfyriwr:*

.....

Dyddiad: .....

*Llofnod y goruchwyliwr:*

.....

Dyddiad: .....

*Cwnselwr (mentor):*

.....

Dyddiad: .....

*Sefydliad Lleoli:*

.....

Dyddiad: .....

*Sefydliad Hyfforddi:*

.....

Dyddiad: .....

# Therapyddion Celf a Chwmsela mewn Ysgolion

